



# **BARN GWMPASU:**

## Prosiect Solar a Storio Ynni Arfaethedig Maen Hir

**Cyfeirnod Achos: EN010156**

---

A fabwysiadwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio (ar ran yr  
Ysgrifennydd Gwladol) yn unol â Rheoliad 10 Rheoliadau Cynllunio  
Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017

**19 Rhagfyr 2023**



## TABL CYNNWYS

<b>1.</b>	<b>CYFLWYNIAD .....</b>	<b>1</b>
<b>2.</b>	<b>SYLWADAU TROSWAOL .....</b>	<b>3</b>
2.1	Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig.....	3
2.2	Methodoleg a Chwmpas Asesu EIA .....	9
<b>3.</b>	<b>SYLWADAU AR AGWEDDAU AMGYLCHEDDOL .....</b>	<b>12</b>
3.1	Tirwedd a Gweledol.....	12
3.2	Ecoleg a Bioamrywiaeth.....	21
3.3	Treftadaeth Ddiwylliannol .....	29
3.4	Trafnidiaeth a Mynediad .....	33
3.5	Ansawdd Aer.....	36
3.6	Sŵn.....	40
3.7	Cyflwr y Tir.....	43
3.8	Priddoedd ac Amaethyddiaeth .....	45
3.9	Adnoddau Dŵr .....	48
3.10	Newid yn yr Hinsawdd .....	53
3.11	Fflachiau a Llacharedd .....	55
3.12	Materion Economaidd-gymdeithasol .....	57
3.13	Iechyd .....	61
3.14	Damweiniau Mawr a Thrychinebau .....	68

### **ATODIAD 1: CYRFF YMGYNGHORI YR YMGYNGHORWYD Â NHW'N FFURFIOL**

### **ATODIAD 2: YMATEBWYR I'R YMGYNGHORIAD A CHOPÏAU O'R YMATEBION**

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.0.1 Ar 09 Tachwedd 2023, derbyniodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) gais am Farn Gwmpasu gan Lightsource bp sy'n hyrwyddo ar ran Lightsource SPV 204 Limited (yr Ymgeisydd) o dan Reoliad 10 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (y Rheoliadau EIA) ar gyfer Fferm Solar arfaethedig Maen Hir (y Datblygiad Arfaethedig). Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod i'r Ysgrifennydd Gwladol (SoS) o dan Reoliad 8(1)(b) y rheoliadau hynny ei fod yn bwriadu darparu Datganiad Amgylcheddol (ES) mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig a'i fod, trwy gyfrwng Rheoliad 6(2)(a), yn 'ddatblygiad EIA'.
- 1.0.2 Darparodd yr Ymgeisydd y wybodaeth angenrheidiol i lywio cais o dan Reoliad EIA 10(3) ar ffurf Adroddiad Cwmpasu, sydd ar gael fel a ganlyn:
- Prif destun ac Atodiad 5.1 yr Adroddiad Cwmpasu:  
<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010156-000014>
- Atodiad 7.1 yr Adroddiad Cwmpasu:  
<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010156-000015>
- Ffigurau'r Adroddiad Cwmpasu, Rhan 1:  
<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010156-000016>
- Ffigurau'r Adroddiad Cwmpasu, Rhan 2:  
<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010156-000017>
- 1.0.3 Y ddogfen hon yw'r Farn Gwmpasu (y Farn) a fabwysiadwyd gan yr Arolygiaeth ar ran yr SoS. Gwneir y Farn hon ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu, sy'n adlewyrchu'r Datblygiad Arfaethedig fel y'i disgrifir ar hyn o bryd gan yr Ymgeisydd. Dylid darllen y Farn hon ar y cyd ag Adroddiad Cwmpasu'r Ymgeisydd.
- 1.0.4 Mae'r Arolygiaeth wedi amlinellu yn adrannau canlynol y Farn hon lle y mae wedi cytuno/ lle nad yw wedi cytuno i hepgor agweddau/ materion penodol ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn rhan o'r Adroddiad Cwmpasu. Mae'r Arolygiaeth yn fodlon na ddylai derbyn y Farn Gwmpasu hon atal yr Ymgeisydd rhag cytuno â'r cyrff ymgynghori perthnasol i hepgor y cyfryw agweddau/ materion o'r ES wedi hynny, lle y darparwyd tystiolaeth ychwanegol i gyfiawnhau'r ymagwedd hon. Fodd bynnag, er mwyn dangos bod yr agweddau/ materion wedi derbyn sylw'n briodol, dylai'r ES esbonio'r rhesymeg dros eu hepgor a chyfiawnhau'r ymagwedd a ddefnyddiwyd.
- 1.0.5 Cyn mabwysiadu'r Farn hon, ymgynghorodd yr Arolygiaeth â'r 'cyrff ymgynghori' a restrir yn Atodiad 1 yn unol â Rheoliad EIA 10(6). Rhoddir rhestr o'r cyrff ymgynghori hynny a ymatebodd o fewn y raddfa amser

statudol (ynghyd â chopïau o'u sylwadau) yn Atodiad 2. Mae'r sylwadau hyn wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r Farn hon.

1.0.6 Mae'r Arolygiaeth wedi cyhoeddi cyfres o nodiadau cyngor ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol, gan gynnwys [Nodyn Cyngor 7: Aseu Effeithiau Amgylcheddol: Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol, Sgrinio a Chwmpasu \(AN7\)](#). Mae AN7 a'i atodiadau'n rhoi arweiniad ar brosesau EIA yn ystod y camau cyn-ymgeisio a chyngor i gynorthwyo ymgeiswyr i baratoi eu ES.

1.0.7 Dylai ymgeiswyr roi sylw penodol i'r cyngor sefydlog yn AN7, ochr yn ochr â nodiadau cyngor eraill ar broses Deddf Cynllunio 2008 (PA2008), sydd ar gael yn:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/>

1.0.8 Ni ddylid ystyried bod y Farn hon yn awgrymu bod yr Arolygiaeth yn cytuno â'r wybodaeth neu'r sylwadau a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd yn ei gais am farn gan yr Arolygiaeth. Yn arbennig, nid yw sylwadau gan yr Arolygiaeth yn y Farn hon yn rhagfarnu unrhyw benderfyniadau diweddarach a wneir (e.e. pan gyflwynir y cais yn ffurfiol) y dylai unrhyw ddatblygiad a amlygwyd gan yr Ymgeisydd gael ei drin o reidrwydd yn rhan o Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) neu Ddatblygiad Cysylltiedig neu ddatblygiad nad oes arno angen caniatâd datblygu.

## 2. SYLWADAU TROSFWAOL

### 2.1 Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig

(Adran 3 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
2.1.1	Adran 3	Disgrifiad o'r prosiect	<p>Mae'r disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig yn yr Adroddiad Cwmpasu ar lefel gymharol uchel (ar y cam hwn), sy'n effeithio ar y manylder sy'n bosibl yn sylwadau'r Arolygiaeth. Yn arbennig, mae'r Arolygiaeth yn nodi nad yw lleoliadau prif elfennau'r datblygiad o fewn y Safle (e.e. yr Arâe Ffotofoltäig (PV) Solar Gymunedol ~5MW) wedi'u diffinio, tra bod lleoliadau elfennau eraill (e.e. y System Batris Storio Ynni (BESS) ac Is-orsaf y Prosiect) wedi'u disgrifio'n fras. Yr ardal y tu allan i'r Safle ond o fewn yr Ardal Astudio Cwmpasu yw'r ardal chwilio ar gyfer Llwybr y Prif Gebl Foltedd Uchel, y Coridor Cysylltu â'r Grid, mynediad adeiladu ac ardaloedd lliniaru a gwella ychwanegol, a fydd yn cael eu mireinio wrth i'r Datblygiad Arfaethedig symud ymlaen.</p> <p>Mae'r Arolygiaeth yn deall ar yr adeg hon yn esblygiad y Datblygiad Arfaethedig, nad oes disgrifiad terfynol o'r datblygiad wedi'i gadarnhau eto a bod y ffin llinell goch yn debygol o gael ei mireinio. Fodd bynnag, dylai'r Ymgeisydd fod yn ymwybodol bod rhaid i'r disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig a roddir yn yr ES fod yn ddigon pendant i fodloni gofynion y Rheoliadau EIA. Dylai'r disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig yn yr ES gyfeirio at ddyluniad, maint a lleoliadau pob elfen, gan gynnwys uchderau mwyaf, paramedrau dylunio a therfynau gwyro. Dylai'r disgrifiad gael ei ategu (fel y bo'r angen) gan ffigurau, trawsluniau a lluniadau a ddylai gael eu cyfeirnodî'n glir ac yn briodol.</p>

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
2.1.2	Paragraff 3.1.2	Is-orsaf 400kV Newydd y Grid Cenedlaethol	<p>Byddai Is-orsaf y Prosiect yn cysylltu ag Is-orsaf 400kV newydd y Grid Cenedlaethol. Mae paragraff 3.1.2 yr Adroddiad Cwmpasu yn datgan y bydd Is-orsaf y Grid Cenedlaethol yn cael ei ganiatáu ar wahân gan National Grid Electricity Transmission (NGET) ac na phenderfynwyd ar ei lleoliad eto.</p> <p>Dylai'r ES ddisgrifio'r berthynas rhwng y Datblygiad Arfaethedig a phrosiectau cysylltiedig yn glir. Dylai hyn gynnwys i ba raddau y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn dibynnu ar gyflawni'r prosiectau eraill hynny a'u llinellau amser datblygu a'u llwybrau cydsynio disgwylidiedig, gan esbonio sut y bydd y rhain yn cael eu cydlynu. Dylai'r asesiad fynd i'r afael â'r potensial i'r prosiectau cysylltiedig arwain at effaith arwyddocaol debygol (LSE). Mae'r Arolygiaeth yn cynghori bod yr ES yn amlinellu'n glir ac yn fanwl, sut mae'r asesiad yn mynd i'r afael ag effeithiau sy'n deillio o ddatblygiad canlyniadol a gweithgarwch sy'n debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. Dylai'r ES esbonio a chyfiawnhau ffiniau a chyfyngiadau'r asesiad yn glir a, chan nodi y gallai ansicrwydd barhau, unrhyw dybiaethau rhesymol a ddefnyddiwyd. Dylai'r asesiad fynd i'r afael â'r senario achos gwaethaf (a allai fod yn wahanol ar gyfer agweddau gwahanol).</p>
2.1.3	Paragraffau 3.2.23 a 3.2.24	Ceblau tanddaear	Dylai'r ES ddisgrifio llwybr, lled a dyfnder ffos a lled gweithio tebygol y cebl tanddaear. Dylid disgrifio'r gwaith sy'n ofynnol i osod y ceblau, gan gynnwys unrhyw ddad-ddyfrio cloddiadau.
2.1.4	Paragraffau 3.2.6 i 3.2.8	Paneli	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan bod dau opsiwn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer y strwythurau y bwriedir gosod y paneli arnynt (sefydlog yn wynebu tua'r de neu olrhain). Lle y bo'n bosibl, mae'r Arolygiaeth yn argymhell bod y penderfyniad hwn yn cael ei wneud cyn i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) gael ei gyflwyno. Os nad yw hyn yn bosibl, dylai'r ES amlygu ac asesu'r senario achos gwaethaf ar gyfer pynciau perthnasol (gan gynnwys

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			Tirwedd a Gweledol, Treftadaeth Ddiwylliannol, Fflachiau a Llacharedd ac Ecoleg) yn ystod gweithredu).
2.1.5	Paragraff 3.2.9	Gosod fframiau gosod modiwl ffotofoltäig (PV)	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y bydd y fframiau y bydd y paneli solar PV yn cael eu gosod arnynt yn cael eu gosod yn y tir trwy ddefnyddio dull gosod seilbyst neu sgriwiau daear. Gallai'r opsiwn i osod blociau concrit a adwaenir fel 'esgidiau' gael ei ystyried hefyd, gan osgoi'r angen am ddulliau gosod seilbyst ac angori â sgriwiau.  Dylai'r ES asesu'r dull gosod sydd i'w ddefnyddio neu, lle nad yw hyn wedi'i benderfynu eto, dylid mabwysiadu senario achos gwaethaf i amlygu unrhyw LSE.
2.1.6	Paragraff 3.2.21	Croesfannau di-ffos	Dylid nodi lleoliad unrhyw groesfannau di-ffos yn yr ES. Lle y dibynnir ar ddull gosod di-ffos i liniaru effeithiau arwyddocaol tebygol, dylai'r Ymgeisydd ddangos bod y dull adeiladu hwn wedi'i sicrhau.
2.1.7	Paragraffau 3.2.31 a 3.2.32	Mynediad i'r safle	Dylai'r ES ddisgrifio'r fynedfa/mynedfeydd arfaethedig i'r safle a'r llwybrau i'w defnyddio ar gyfer mynediad yr holl gerbydau yn ystod adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig, a dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno'n glir ar gynlluniau ategol yn yr ES. Dylai'r ES ddisgrifio ac asesu'r effeithiau posibl (cadarnhaol a negyddol) sy'n gysylltiedig ag unrhyw welliannau/ newidiadau i'r llwybrau mynediad sy'n ofynnol i hwyluso adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig neu sy'n ofynnol at ddibenion adfer ar ôl cwblhau'r gwaith. Er mwyn asesu effeithiau yn ystod adeiladu, dylai'r ES esbonio sut mae'r llwybr(au) mynediad arfaethedig yn berthnasol i dderbynyddion sensitif.
2.1.8	Paragraff 3.2.34	Aráe solar gymunedol	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan bod Aráe Solar PV Gymunedol ~5MW yn rhan o'r Datblygiad Arfaethedig, ond ni roddir manylion ychwanegol. Dylai'r ES ddisgrifio lleoliad a nodweddion ffisegol yr elfen hon, ynghyd â disgrifio sut byddai'n gweithredu.

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
2.1.9	Paragraffau 3.2.35 i 3.2.38	BESS	Dylai'r disgrifiad o nodweddion ffisegol a chapasiti technegol y BESS gael ei ddatblygu yn yr ES i gynnwys manylion fel math/ manyleb technoleg batri a nifer ddisgwyliedig y cynwysyddion storio batris.
2.1.10	Adran 3.4	Disgrifiad o'r cam adeiladu, gan gynnwys hyd effeithiau	Ni roddwyd unrhyw wybodaeth am hyd tebygol effeithiau'r cam adeiladu yn Adran 3 yr Adroddiad Cwmpasu. Mae'r adrannau agwedd yn datgan bod effeithiau'n rhai " <i>tymor byr</i> " neu " <i>dros dro</i> ", ond mae absenoldeb gwybodaeth am hyd tebygol yn golygu ei bod yn anodd deall sut y daethpwyd i gasgliadau ynglŷn â'r potensial ar gyfer effeithiau arwyddocaol.  Dylai'r disgrifiad o nodweddion y cam adeiladu gael ei ddatblygu yn yr ES i gynnwys manylion dyddiad dechrau, hyd a lleoliad tebygol y gweithgareddau adeiladu sy'n ofynnol. Dylid datgan nifer ddisgwyliedig y gweithwyr adeiladu hefyd.
2.1.11	Adran 3.4	Adeiladu	Dylai'r ES ddarparu manylion yr oriau gwaith adeiladu disgwyliedig (gan gynnwys unrhyw weithio yn y nos sy'n ofynnol) a gweithgareddau y seiliwyd yr asesiadau o LSE arnynt. Dylai hyn fod yn gyson â'r oriau gwaith a nodwyd yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO).
2.1.12	Adran 3.4	Cyfadeilad(au) adeiladu	Dylai'r ES gadarnhau lleoliadau a meintiau'r prif gyfodeilad(au) adeiladu dros dro a'r cyfodeilad(au) adeiladu dros dro eilaidd a, lle y bo'n bosibl, dangos gosodiadau manwl. Dylai unrhyw fesurau lliniaru a gynigir i osgoi effeithiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfodeiladau, neu eu lleihau i'r eithaf, gael eu disgrifio yn yr ES.
2.1.13	Adran 3.4	Cwlfertau	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio at y posibilrwydd o ddefnyddio cwlfertau dros ffosydd draenio. Dylai'r ES nodi lleoliadau croesfannau dŵr arfaethedig ac esbonio dyluniad y croesfannau; dylai'r rhain gael eu dylunio i leihau effeithiau amgylcheddol i'r eithaf neu eu hosgoi, a dylid gwneud ymdrech i gytuno ar y dyluniad gyda'r cyrff ymgynghori

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			perthnasol. Dylai effeithiau o groesfannau dŵr, gan gynnwys unrhyw effeithiau ar y system ddraenio bresennol, gael eu hasesu yn yr ES lle mae effeithiau arwyddocaol yn debygol o ddigwydd.
2.1.14	Paragraff 3.4.1	Symudiadau cerbydau	Dylai'r ES roi manylion nifer y symudiadau cerbydau disgwylidig yn ystod pob cam o'r Datblygiad Arfaethedig ac esbonio'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i gadarnhau'r rhain.
2.1.15	Adran 3.5	Gweithredu a chynnal a chadw	Dylai cynigion ar gyfer cynnal a chadw llystyfiant o amgylch unrhyw hawddfreintiau ceblau a'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) o fewn safle'r cais (os bwriedir cadw'r rhain) gael eu disgrifio hefyd.
2.1.16	Adran 3.6	Datgomisiynu	Dylai'r ES ddisgrifio'r gweithgareddau a'r gwaith sy'n debygol o fod yn ofynnol yn ystod datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys yr hyd disgwylidig. Dylid disgrifio unrhyw gynigion ar gyfer adfer y safle i ddefnydd amaethyddol neu ddefnydd arall hefyd, gan gyfeirio at y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu (DEMP) amlinellol arfaethedig.
2.1.17	dd/b	Cynlluniau drafft/ amlinellol	Dylai'r Ymgeisydd atodi copi drafft/ amlinellol o gynlluniau rheoli arfaethedig i'r ES a dangos sut byddai'r rhain yn cael eu sicrhau trwy'r dDCO. Lle mae'r ES yn dibynnu ar fesurau lliniaru a fyddai'n cael eu sicrhau trwy gynlluniau/ strategaethau rheoli, dylid dangos (gan groesgyfeirio'n glir) ble mae pob mesur wedi'i amlinellu yn y ddogfen ddrafft/ amlinellol.
2.1.18	Paragraff 3.7.3	Ymagwedd amlen ddylunio	Mae paragraff 3.7.3 yr Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio at asesu'r "effeithiau achos gwaethaf realistig". Dylai'r ES asesu'r achos gwaethaf a allai gael ei adeiladu yn unol â Datblygiad Awdurdodedig y DCO yr ymgeisir amdano. Dylai'r paramedrau datblygu gael eu diffinio'n glir ac yn gyson ar draws y dDCO a'r ES cysylltiedig.

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
2.1.19	dd/b	Seilwaith presennol	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi nifer o asedau seilwaith presennol o fewn safle'r cais neu'n agos ato, gan gynnwys llinell uwchben 400kV, fferm wynt a datblygiad solar. Dylai'r asesiad yn yr ES ystyried lleoliad seilwaith presennol ac amlygu unrhyw ryngweithiadau rhyngddo â'r Datblygiad Arfaethedig. Dylid asesu unrhyw effeithiau arwyddocaol sy'n debygol o ddigwydd. Tynnir sylw'r Ymgeisydd at yr ymatebion i'r ymgynghoriad cwmpasu, gan gynnwys gan National Grid Electricity Transmission a Network Rail (Atodiad 2 y Farn hon), sy'n amlygu seilwaith y mae'n debygol yr effeithir arno.</p> <p>Dylai'r Ymgeisydd gysylltu â'r Grid Cenedlaethol i gadarnhau p'un a oes angen unrhyw seilwaith newydd o fewn neu yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig yn rhan o'r Dyluniad Rhwydwaith Cyfannol. Os felly, dylai'r Ymgeisydd ystyried p'un a oes angen i hyn gael ei gynnwys fel derbynnydd yn yr asesiadau agwedd neu fel rhan o'r asesiad o effeithiau cronol.</p>
2.1.20	dd/b	Terminoleg	<p>Diffinnir y term "<i>Hyb Logisteg Adeiladu</i>" yn y Rhestr Termau, ond mae'n ymddangos bod yr Adroddiad Cwmpasu'n defnyddio'r term hwn yn gyfnewidiol â "<i>Hyb Cydgrynhoi</i>" (nad yw wedi'i ddiffinio yn y Rhestr Termau). Dylai'r ES ddefnyddio terminoleg gyson drwyddo draw, lle y bo'n berthnasol. Os yw'r Hyb Cydgrynhoi'n elfen ar wahân, dylai'r ES gynnwys disgrifiad o nodweddion ffisegol a gofynion defnydd tir yr elfen hon.</p>

## 2.2 Methodoleg a Chwmpas Aseu EIA

(Adran 6 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
2.2.1	Adran 3.5; Paragraffau 6.1.7 a 6.5.1	Effeithiau o gynnal a chadw, gan gynnwys amnewid cydrannau	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn esbonio y byddai gweithgareddau cynnal a chadw'n cynnwys amnewid offer fel modiwlau PV, gwrthdroyddion a batris yn ystod y rhychwant oes weithredol arfaethedig o 60 mlynedd.</p> <p>Er y gallai gwelliannau technolegol ymestyn oes ddylunio paneli, mae'r Arolygiaeth o'r farn ei bod yn debygol y byddai'n rhaid i'r holl baneli gael eu hamnewid o leiaf unwaith yn ystod oes weithredol y Datblygiad Arfaethedig. Dylai'r ES sicrhau bod senario achos gwaethaf yn cael ei aseu. Lle y gallai seilwaith gael ei amnewid yn gynhwysfawr yn ystod rhychwant oes weithredol y Datblygiad Arfaethedig, dylai hyn gael ei aseu'n briodol.</p> <p>Dylai'r ES ddisgrifio cwmpas a hyd y gweithgareddau cynnal a chadw ac amnewid sy'n debygol o fod yn ofynnol, gan gynnwys symudiadau cerbydau a niferoedd staff rhagfynedig. Dylai'r ES amcangyfrif y mathau o wastraff a symiau'r gwastraff a ddisgwylir, yn ogystal ag asesiad o unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a gwaredu gwastraff.</p> <p>Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod y rhychwant oes weithredol a asesir yn yr ES yn gyson ag unrhyw derfyn amser a nodir yn y dDCO. Lle na cheisir cydsyniad â chyfyngiad amser yn y DCO, dylai'r ES dybio y byddai unrhyw LSE yn barhaol.</p> <p>Mae paragraff 3.5.3 yr Adroddiad Cwmpasu yn datgan y byddai Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gweithredol (OEMP) yn cynnwys mesurau rheoli i sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol yn</p>

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			codi yn ystod y gweithgareddau cynnal a chadw ac amnewid. Dylai'r Ymgeisydd atodi copi drafft/ amlinellol o'r OEMP i'r ES a dangos sut y byddai'n cael ei sicrhau trwy'r dDCO. Lle mae'r ES yn dibynnu ar fesurau lliniaru a fyddai'n cael eu sicrhau trwy'r OEMP, dylid dangos (gan groesgyfeirio'n glir) ble mae pob mesur wedi'i amlinellu yn y ddogfen ddrafft/ amlinellol.
2.2.2	Paragraffau 6.5.16 i 6.5.23	Effeithiau cronol	<p>Mae'r Arolygiaeth yn sylweddoli nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto ar y datblygiadau eraill sydd i'w cynnwys yn yr asesiad o effeithiau cronol.</p> <p>Mae Cyngor Sir Ynys Môn (IoACC) wedi cyngori (gweler Atodiad 2 y Farn hon) bod nifer o ddatblygiadau mawr eraill wedi'u cynnig ar yr Ynys, sy'n cynnwys fferm solar a phrosiectau BESS sy'n debyg i'r Datblygiad Arfaethedig o ran graddfa, natur a lleoliad. Yn arbennig, mae'r Cyngor yn amlygu'r potensial ar gyfer effeithiau cronol gyda datblygiad storio batris a Fferm Solar arfaethedig Alaw Môn; dylai effeithiau cronol gyda'r prosiect hwn gael eu hasesu'n llawn yn yr ES.</p> <p>Yn ogystal ag IoACC, dylid gwneud ymdrech i gytuno ar gwmpas yr asesiad cronol gyda chyrrff ymgynghori eraill perthnasol, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Grid Cenedlaethol.</p>
2.2.3	Paragraffau 6.5.24 a 6.5.25	Trawsffiniol	Mae'r Arolygiaeth, ar ran yr SoS, wedi ystyried y Datblygiad Arfaethedig ac mae'n dod i'r casgliad ei fod yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd yn un o Wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ar ei ben ei hun ac ar y cyd. Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r Arolygiaeth wedi amlygu ac ystyried effeithiau tebygol y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys ystyried llwybrau posibl a graddau, maint, tebygolrwydd, hyd, amllder a gwrthdroadwyedd yr effeithiau.

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			<p>Mae'r Arolygiaeth o'r farn bod y tebygolrwydd o effeithiau trawsffiniol o'r Datblygiad Arfaethedig mor isel fel nad oes angen cyhoeddi gwybodaeth sgrinio drawsffiniol fanwl. Fodd bynnag, bydd y safbwynt hwn yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd yn ystyried unrhyw wybodaeth newydd neu sylweddol wahanol a ddaw i'r amlwg a allai newid y penderfyniad hwnnw.</p> <p>Sylwer: Mae dyletswydd yr SoS o dan Reoliad 32 Rheoliadau EIA 2017 yn parhau drwy gydol y broses ymgeisio.</p> <p>Mae'r Arolygiaeth wedi sgrinio materion trawsffiniol yn seiliedig ar yr ystyriaethau perthnasol a nodir yn yr Atodiad i'w Nodyn Cyngor Deuddeg, sydd ar gael ar ein gwefan yn <a href="http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/">http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/</a></p>

### 3. SYLWADAU AR AGWEDDAU AMGYLCHEDDOL

#### 3.1 Tirwedd a Gweledol

(Adran 7.2 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.1.1	Paragraff 7.2.28 a Thabl 7-15	Effeithiau ar Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol (ACTC) – pob cam	Byddai nodweddion allweddol ac amcanion rheoli ACTC yn llywio'r disgrifiad o amodau sylfaenol yn yr asesiad ES. Oherwydd bod asesiadau manylach IoACC a LANDMAP ar gael a gynhaliwyd ar lefel leol, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor asesiad o effeithiau ar ACTC. Byddai effeithiau ar Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT) IoACC yn cael eu hasesu.  Mae'r Arolygiaeth yn fodlon y gellir hepgor asesiad o effeithiau ar ACTC o asesiad pellach ar y sail hon.
3.1.2	Paragraff 7.2.30 a Thabl 7-15	Effeithiau ar Ardaloedd Cymeriad Morol (ACM) – pob cam	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor y mater hwn ar y sail bod y mapiau Parth Gwelededd Damcaniaethol (ZTV) (gweler Ffigurau 7-7 i 7-13 yr Adroddiad Cwmpasu) ac ymchwiliadau maes wedi dangos bod y Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol o effeithio ar yr ACM arfordirol.  O ystyried lleoliad, natur a nodweddion y Datblygiad Arfaethedig, mae'r Arolygiaeth yn cytuno bod effeithiau arwyddocaol yn annhebygol. Gellir hepgor effeithiau ar ACM o asesiad pellach.
3.1.3	Paragraff 7.2.31 a Thabl 7-15	Effeithiau ar ACT canlynol IoACC – pob cam: <ul style="list-style-type: none"> <li>ACT 4, yr Arfordir Gogledd-orllewinol; ac</li> </ul>	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig asesu effeithiau ar bum ACT IoACC (a nodir yn Nhabl 7-2 yr Adroddiad Cwmpasu), gan ddisgrifio'r rhain fel ACT "...y mae'r Prosiect yn debygol o effeithio arnynt". Mae'r ardal astudio 2km yn ymestyn i ddwy ACT arall IoACC (ACT 4 ac ACT

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
		<ul style="list-style-type: none"> <li>ACT 9, Traeth Coch.</li> </ul>	<p>9, a ddangosir ar Ffigur 7-3 yr Adroddiad Cwmpasu), y bwriedir eu hepgor.</p> <p>O ystyried lleoliad, natur a nodweddion y Datblygiad Arfaethedig, mae'r Arolygiaeth yn cytuno bod effeithiau arwyddocaol yn annhebygol. Gellir hepgor effeithiau ar ACT 4 ac ACT 9 IoACC o asesiad pellach.</p>
3.1.4	Paragraff 7.2.42 a Thabl 7-15	Effeithiau ar dderbynyddion gweledol y tu allan i'r Parth Dylanwad Gweledol (ZVI) – pob cam	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn esbonio y byddai derbynyddion gweledol yn cael eu hamlygu o fewn y ZTV a ZVI wedi'i fireinio, neu'r brif ardal welededd sy'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig fel y'i pennir o'r arolygon maes. Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan na fyddai derbynyddion gweledol sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ZVI yn gallu gweld y Datblygiad Arfaethedig o gwbl neu y byddent yn gallu ei weld i raddau cyfyngedig iawn.</p> <p>Dylai'r asesiad o effeithiau ar amwynder tirwedd a gweledol (gan gynnwys yr ardal astudio, ZTV, ZVI a ffotogyfosodiadau) gael ei seilio ar yr achos gwaethaf perthnasol, gan ystyried unrhyw bamedrau sy'n berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys cyfeiriad paneli a'r holl strwythurau arfaethedig, fel y BESS. Os penderfynir, yn ystod esblygiad dylunio'r Datblygiad Arfaethedig, bod lleoliadau elfennau allweddol o'r datblygiad wedi newid, neu y bydd paramedrau uchaf yn fwy na'r uchderau a ddefnyddiwyd yn y ZTVau rhagarweiniol (a ddangosir ar Ffigurau 7-7 i 7-13 yr Adroddiad Cwmpasu), dylai'r Ymgeisydd ailgynnal y ZTV ac adolygu'r ardal astudio a derbynyddion a amlygwyd yn unol â hynny.</p> <p>Dylai'r Ymgeisydd wneud ymdrech i gytuno ar yr ardal astudio a'r fethodoleg ar gyfer ZTV a ZVI gyda'r cyrff ymgynghori perthnasol, gan gynnwys IoACC.</p> <p>Ar sail yr uchod, mae'r Arolygiaeth yn cytuno bod unrhyw effeithiau ar dderbynyddion gweledol sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ZVI, pan</p>

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
			fydd hynny wedi'i gadarnhau gan waith maes, yn annhebygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. Gellir hepgor y mater hwn o asesiad pellach.
3.1.5	Paragraff 7.2.59 a Thabl 7-14	Effeithiau ar holl nodweddion arbennig Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn (a nodir yn Atodiad 1 a Thabl 1 Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2015-2020), ac eithrio'r nodwedd arbennig 'golygfeydd eang' – pob cam	<p>Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn rhestru nodweddion arbennig AHNE Ynys Môn ('Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn' bellach) y bwriedir eu hepgor. Yn lle hynny, mae'n croesgyfeirio at Gynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2015-2020, y mae'n datgan ei fod yn amlygu'r nodweddion arbennig.</p> <p>Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2015-2020 wedi cael ei ddisodli bellach gan Gynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2023-2028. Heb weld y fersiwn flaenorol, nid yw'n glir pa nodweddion arbennig y bwriedir eu hepgor a ph'un a yw'r nodweddion arbennig yr un fath yn y cynllun newydd. Fel y cyfryw, nid yw'r Arolygiaeth mewn sefyllfa i hepgor y materion hyn o'r ES ar y cam hwn. Yn unol â hynny, dylai'r ES gynnwys asesiad o'r materion hyn neu wybodaeth sy'n dangos cytundeb â'r cyrff ymgynghori perthnasol ac absenoldeb LSE.</p>
3.1.6	Paragraff 7.2.66 a Thabl 7-15	Effeithiau ar Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) Tir Ystad Parciau – pob cam	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan bod y ZTV (Ffigurau 7-9, 7-12 a 7-13) a gwaith maes wedi amlygu y byddai gwelededd cyfyngedig rhwng y Datblygiad Arfaethedig ac ATA Tir Ystad Parciau, ac felly bod yr effeithiau'n annhebygol o fod yn arwyddocaol. Mae'r Arolygiaeth yn cytuno nad yw effeithiau ar ATA Tir Ystad Parciau yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol ac y gellir eu hepgor o asesiad pellach.
3.1.7	Paragraff 7.2.20 a Thabl 7-15	Effeithiau ar Barc Cenedlaethol Eryri – pob cam	Mae'r Arolygiaeth o'r farn nad oes digon o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd ynglŷn â'r potensial ar gyfer golygfeydd o'r Datblygiad Arfaethedig o'r Parc Cenedlaethol i ddangos na fydd effeithiau arwyddocaol yn digwydd. Yn unol â hynny, dylai'r ES gynnwys asesiad o effeithiau ar amwynder gweledol o Barc Cenedlaethol Eryri,

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
			neu wybodaeth i ddangos cytundeb â'r cyrff ymgynghori perthnasol ac absenoldeb LSE.
3.1.8	Tabl 7-15	<p>Effeithiau gweledol ar ddefnyddwyr y llwybrau trafniadaeth allweddol canlynol – pob cam:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Yr A5025 rhwng Cemaes, Amlwch a Phen-y-sarn;</li> <li>▪ Yr A55 a'r A5 rhwng Caergybi, Llanfihangel-yn-Nhywyn, Gwalchmai a Phorthaethwy; a'r</li> <li>▪ B5112 rhwng Llannerch-y-medd, Carmel, Trefor ac Engedi.</li> </ul>	<p>Mae Tabl 7-15 yr Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor asesiad o'r materion hyn, ond ni roddir unrhyw dystiolaeth ategol na chyfiawnhad i esbonio pam na fyddai effeithiau arwyddocaol yn digwydd. Fel y cyfryw, nid yw'r Arolygiaeth mewn sefyllfa i hepgor y materion hyn o'r ES. Yn unol â hynny, dylai'r ES gynnwys asesiad o'r materion hyn neu wybodaeth sy'n dangos cytundeb â'r cyrff ymgynghori perthnasol ac absenoldeb LSE.</p>
3.1.9	Tabl 7-15	<p>Effeithiau gweledol ar ddefnyddwyr Llwybrau Hamdden Pellter Hir, Llwybrau Beicio Cenedlaethol a Thirweddau Hygyrch o Bennod LVIA yr ES</p>	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor effeithiau ar y grwpiau hyn o dderbynyddion o Bennod LVIA yr ES ac, yn lle hynny, eu hasesu o fewn Asesiad Amwynder a Hamdden (ARA) ar wahân i'w gyflwyno fel atodiad i Bennod LVIA yr ES.</p> <p>Ar yr amod bod Pennod LVIA yr ES yn cynnwys crynodeb o'r asesiad yn yr ARA ac yn amlygu unrhyw effeithiau arwyddocaol ar ddefnyddwyr Llwybrau Hamdden Pellter Hir, Llwybrau Beicio Cenedlaethol a Thirweddau Hygyrch, mae'r Arolygiaeth yn fodlon ar yr ymagwedd hon.</p>
3.1.10	Tabl 7-15	<p>Effeithiau gweledol ar ddefnyddwyr y llwybrau/ ardaloedd canlynol o'r ARA – pob cam:</p>	<p>Mae Tabl 7-15 yr Adroddiad Cwmpasu yn cynnig bod asesiad o effeithiau gweledol ar ddefnyddwyr y llwybrau/ ardaloedd hyn yn cael ei hepgor o'r ARA. Mae'r Arolygiaeth yn nodi o Ffigur 7-5 yr Adroddiad Cwmpasu bod nifer o'r llwybrau a amlygwyd fwy na 500m i ffwrdd oddi wrth leiniau'r datblygiad solar (sy'n cynrychioli'r ardal astudio arfaethedig ar gyfer yr ARA) – ond gan nad yw'r rhannau o lwybrau y</p>

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
		<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Llwybr Arfordir Ynys Môn/ Cymru – rhwng Porth Cynfor a Phorth Llechog yn Amlwch;</li> <li>▪ Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Tŵr Coroni'r Brenin Edward VIII a Phorth Cynfor;</li> <li>▪ Geolwybr – Canolfan Ymwelwyr Wylfa i Fae Cemaes;</li> <li>▪ Geolwybr – Bodafon i Foelfre;</li> <li>▪ Geolwybr – Porth Amlwch;</li> <li>▪ Taith Gron – Llaneilian;</li> <li>▪ Tir Mynediad Agored – Penygraigwen;</li> <li>▪ PRoW y tu allan i'r ardal astudio 500m ar gyfer y lleiniau gogleddol, canolog a deheuol; a</li> <li>▪ PRoW nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach, nad ydynt yn hygyrch mwyach ac na ellir eu hadnabod ar y tir mwyach.</li> </ul>	<p>cynigir eu hepgor wedi'u labelu ar Ffigur 7-5, mae ymagwedd arfaethedig yr Ymgeisydd yn aneglur. Ni roddir unrhyw dystiolaeth ategol na chyfiawnhad arall i esbonio pam na fyddai effeithiau arwyddocaol yn digwydd.</p> <p>Fel y cyfryw, nid yw'r Arolygiaeth mewn sefyllfa i hepgor y materion hyn o'r ES. Yn unol â hynny, dylai'r ES gynnwys asesiad o'r materion hyn neu wybodaeth sy'n dangos cytundeb â'r cyrff ymgynghori perthnasol ac absenoldeb LSE.</p> <p>Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn esbonio pam yr ystyrir bod yr ardal astudio arfaethedig ar gyfer yr ARA yn briodol. Mae'r Arolygiaeth o'r farn bod yr ardal astudio hon yn gymharol fach, o ystyried natur a graddfa'r Datblygiad Arfaethedig. Dylai'r ES esbonio sut y diffiniwyd yr ardal astudio ar gyfer yr ARA, gan gyfeirio at faint yr effeithiau tebygol o'r Datblygiad Arfaethedig. Dylid gwneud ymdrech i gytuno ar yr ardal astudio a'r derbynyddion a ystyrir yn yr ARA gyda chyrff ymgynghori perthnasol.</p>
3.1.11	Paragraffau 7.2.103 a 7.2.127; Tablau 7-15 ac 8-1	Effeithiau yn y nos a goleuadau – pob cam	Mae paragraffau 7.2.103 a 7.2.127 yr Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor 'Asesiad o Effaith Goleuadau ar wahân'. Mae Tabl 7-15 yn cynnig hepgor asesiad o effeithiau goleuadau o'r ES, gan ddatgan y byddai unrhyw oleuadau yn ystod y camau adeiladu a datgomisiynu yn rhai dros dro ac y bydd unrhyw oleuadau yn ystod gweithredu yn gyfyngedig i'r is-orsafoedd, y BESS a synwryddion goleuadau diogelwch. Fodd bynnag, mae Tabl 8-1 yr Adroddiad Cwmpasu yn

<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth</b>
			<p>nodi bod effeithiau yn y nos a goleuadau wedi'u cynnwys yn yr asesiad ar gyfer pob cam. Mae ymagwedd arfaethedig yr Ymgeisydd yn aneglur o ganlyniad.</p> <p>Yn ôl dehongliad yr Arolygiaeth, mae'r Ymgeisydd yn cynnig hepgor Asesiad o Effaith Goleuadau ar wahân ac asesiad o LSE sy'n deillio o effeithiau yn y nos a goleuadau.</p> <p>Gan nodi'r amgylchedd gwledig, heb ei oleuo i raddau helaeth, y mae'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i leoli ynddo a'r newid tebygol o'r sefyllfa bresennol, nid yw'r Arolygiaeth yn cytuno i hepgor y mater hwn o'r asesiad. Dylai effeithiau ar amwynder tirwedd a gweledol sy'n deillio o gyflwyno goleuadau yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu sy'n debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol gael eu hasesu yn yr ES, oni bai y cytunir gyda chyrff ymgynghori perthnasol y gellir hepgor y mater hwn. Dylai unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig gael eu disgrifio a'u sicrhau trwy'r DCO. Dylai'r asesiad groesgyfeirio at asesiadau agwedd a derbynnyddion sensitif eraill perthnasol (fel ecoleg a threftadaeth ddiwylliannol).</p>

<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth</b>
3.1.12	Paragraffau 7.2.39 a 7.2.47; Tabl 7-5; a Ffigur 7-12	Golygfannau a ffotogyfosodiadau	<p>Mae Tabl 7-5 yr Adroddiad Cwmpasu yn nodi 20 golygfan ragarweiniol (fel y dangosir ar Ffigur 7-12) sydd wedi'u lleoli o fewn yr ardal astudio 3km, gyda ffotogyfosodiadau a gynigir o leoliadau golygfannau 7, 8, 12, 15 a 17. Mae'r Arolygiaeth o'r farn bod hyn yn nifer gymharol isel o olygfannau a ffotogyfosodiadau, o ystyried natur a graddfa'r Datblygiad Arfaethedig.</p> <p>Mae ffigurau ZTV yr Adroddiad Cwmpasu, gan gynnwys Ffigurau 7-12 a 7-13, yn dangos y gallai'r Datblygiad Arfaethedig fod yn weladwy o leoliadau y tu allan i'r ardal astudio 3km (er enghraifft o Fae Cemaes,</p>

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			<p>Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn, Mynydd Eilian i'r gogledd-ddwyrain a Llyn Llywenan i'r de-orllewin), ac mae'r Arolygiaeth yn cynghori bod golygfannau addas yn cael eu dewis o'r ardaloedd hyn. Mae'r Arolygiaeth hefyd yn cynghori bod golygfan(nau) addas yn cael eu dewis o Barc Cenedlaethol Eryri ac o'r ucheldiroedd o fewn yr ardaloedd arfordirol ar y tir mawr, yn ogystal ag o leoliadau lle y gellid profi effeithiau cronol gyda datblygiadau eraill. Mae IoACC wedi awgrymu lleoliadau golygfannau hefyd (gweler Atodiad 2 y Farn hon).</p> <p>Dylid gwneud ymdrech i gytuno ar nifer a lleoliad golygfannau, yn ogystal â'r lleoliadau ar gyfer ffotogyfosodiadau, gyda chyrff ymgynghori perthnasol, gan gynnwys Cadw a CNC, a chydymffurfio â chanllawiau perthnasol, lle y bo'n bosibl.</p>
3.1.13	Tablau 7-7, 7-8 a 7-11 i 7-13	Meini prawf ar gyfer asesiadau	<p>Mae rhai o'r meini prawf ar gyfer yr asesiadau tirwedd a gweledol wedi'u cyflwyno o fewn yr un tabl yn yr Adroddiad Cwmpasu (e.e. mae Tabl 7-7 yn cyflwyno meini prawf tueddiad ar gyfer derbynyddion tirwedd a gweledol).</p> <p>Er mwyn helpu i wahaniaethu'n glir rhwng yr asesiad o effeithiau ar y dirwedd a'r asesiad o effeithiau gweledol, mae'r Arolygiaeth yn argymhell bod meini prawf ar wahân yn cael eu cyflwyno ar gyfer pob asesiad, yn unol â'r cyngor yn y Canllawiau ar gyfer Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (GLVIA)<sup>1</sup>.</p>
3.1.14	Paragraff 7.2.87	Arwyddocâd effeithiau	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan mai dim ond effeithiau Mawr i Gymedrol neu Fawr ar dderbynyddion tirwedd a gweledol a fyddai'n cael eu hystyried yn arwyddocaol. Ni fyddai effeithiau cymedrol (ac is) yn cael eu hystyried yn arwyddocaol.</p>

<sup>1</sup> Y Sefydliad Tirwedd / Y Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (2018) – Canllawiau ar gyfer Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol, 3<sup>ydd</sup> Argraffiad

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			Mae'r Arolygiaeth o'r farn y gallai effeithiau cymedrol fod yn arwyddocaol, yn enwedig yng nghyd-destun derbynyddion gwerth uchel fel Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn. Er bod y GLVIA yn egluro bod barn broffesiynol yn rhan bwysig o LVIA, dylai'r ES gyfiawnhau'n llawn sut y defnyddiwyd barn broffesiynol i bennu arwyddocâd effeithiau, yn enwedig o ran pennu arwyddocâd. Tynnir sylw'r Ymgeisydd at sylwadau gan CNC yn hyn o beth (Atodiad 2 y Farn hon).
3.1.15	Paragraffau 7.2.104 i 7.2.124	Effeithiau	<p>Mae llawer o'r terfynau caeau yn yr ardal astudio wedi'u ffurfio gan wrychoedd a chloddiau (wal allanol cerrig sych gyda chraidd pridd neu bridd/ rwbel cywasgedig), sy'n nodwedd bwysig o gymeriad presennol y dirwedd. Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn esbonio y bydd y rhain yn cael eu cadw lle y bo'n ymarferol, heblaw pan fydd angen eu symud ymaith a/ neu eu croesi ar gyfer traciau mynediad newydd, ffensys perimedr a llwybrau ceblau.</p> <p>Dylai llystyfiant a chloddiau presennol gael eu mapio a dylai unrhyw golled neu effeithiau ar wrychoedd, cloddiau, coed a choetir sy'n debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol ar amwynder tirwedd a gweledol gael eu hasesu yn yr ES.</p>
3.1.16	dd/b	Lliniaru	<p>Dylai'r ES ddangos bod y mesurau lliniaru a ddewiswyd i leihau effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol yn briodol i gymeriad cyffredinol y dirwedd. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd llain sgrinio o goed yn briodol mewn tirweddau agored.</p> <p>Dylai'r ES gyflwyno'n glir unrhyw dybiaethau a wnaed mewn perthynas â'r uchder y byddai'r plannu lliniarol arfaethedig wedi'i gyrraedd erbyn y blynyddoedd asesu, er mwyn cynhyrchu ffotogyfosodiadau a dod i gasgliadau'r asesiad.</p>

<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth</b>
3.1.17	dd/b	Effeithiau cronol	Dylai'r asesiad o effeithiau cronol ar dderbynyddion gweledol gael ei gefnogi gan ZTV(au) i ddangos effaith bosibl y Datblygiad Arfaethedig ar y cyd â datblygiadau eraill perthnasol.

## 3.2 Ecoleg a Bioamrywiaeth

(Adran 7.3 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.2.1	Tabl 7-17 a pharagraff 7.3.66	Safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol (heb feini prawf cymhwysu symudol) sydd wedi'u lleoli mwy na 2km oddi wrth y Safle/ Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu – adeiladu a gweithredu	<p>Cynigir hepgor effeithiau ar y safleoedd dynodedig hyn ar sail y pellter rhwng y Safle/ Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu a'r safleoedd, ynghyd ag absenoldeb meini prawf symudol.</p> <p>O ystyried natur a nodweddion y Datblygiad Arfaethedig, mae'r Arolygiaeth yn fodlon y gellir hepgor y mater hwn ar gyfer y cam gweithredol.</p> <p>O ran effeithiau'r cam adeiladu, ni ddarparwyd gwybodaeth yn yr Adroddiad Cwmpasu i gadarnhau absenoldeb llwybr hydrolegol ar gyfer effeithiau arwyddocaol ar safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol yn ystod adeiladu. Felly, nid yw'r Arolygiaeth mewn sefyllfa i gytuno i hepgor y mater hwn ar gyfer adeiladu. Dylai'r ES asesu unrhyw LSE ar safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi'u lleoli mwy na 2km oddi wrth y safle, sy'n deillio o newidiadau hydrolegol ac effeithiau ar ansawdd dŵr yn ystod adeiladu. Dylai'r asesiad gynnwys y potensial ar gyfer cyflwyno mwy o faethynnau a llygryddion eraill. Dylid croesgyfeirio'n briodol yn yr ES rhwng yr asesiadau ecoleg ac amgylchedd dŵr. Dylai'r ES gynnwys asesiad o'r materion hyn neu wybodaeth sy'n dangos cytundeb â'r cyrff ymgynghori perthnasol y gellir hepgor y derbynyddion hyn o'r asesiad ac absenoldeb LSE.</p>
3.2.2	Tabl 7-17 a pharagraff 7.3.70	Safleoedd dynodedig anstatudol (Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol (LWS)) sy'n fwy na 2km oddi wrth y Safle/ Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu – adeiladu a gweithredu	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan bod y derbynyddion hyn wedi'u hepgor yn seiliedig ar y pellter rhwng y Safle/ Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu a'r safleoedd dynodedig anstatudol ac mae'n ystyried ei bod yn annhebygol y byddai llwybr effaith ar rywogaethau sy'n gysylltiedig â'r safleoedd hyn. Nid yw nifer a natur safleoedd y tu

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
			<p>hwnt i 2km wedi'u nodi. Fel y nodwyd uchod ar gyfer safleoedd heb rywogaethau symudol, o ystyried natur a nodweddion y Datblygiad Arfaethedig, mae'r Arolygiaeth yn fodlon y gellir hepgor y mater hwn ar gyfer y cam gweithredol. Fodd bynnag, dylai'r ES asesu unrhyw LSE ar safleoedd dynodedig anstatudol, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi'u lleoli mwy na 2km oddi wrth y safle, sy'n deillio o newidiadau hydrolegol a newidiadau i ansawdd dŵr yn ystod adeiladu.</p>
3.2.3	Tabl 7-17 a pharagraff 7.3.74	Effeithiau ar gynefinoedd cyffredin a helaeth o sensitifrwydd a/ neu ddi-ddordeb cadwraeth isel – adeiladu a gweithredu	<p>Cynigir hepgor hyn gan yr ystyrir bod effeithiau'n annhebygol iawn oherwydd bod y cynefinoedd o sensitifrwydd a/ neu ddi-ddordeb cadwraeth isel. Mae paragraff 7.3.74 hefyd yn datgan y byddai mesurau lliniaru adeiladu safonol a sicrhau trwy Gynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn ddigonol i osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol.</p> <p>Dylai'r ES esbonio sut y pennwyd pwysigrwydd nodweddion ecolegol, gan gyfeirio at ddata sylfaenol, canllawiau perthnasol a barn broffesiynol. Dylai'r Ymgeisydd wneud ymdrech i gytuno ar y rhestr o 'nodweddion ecolegol pwysig' gydag IoACC a CNC. Yn amodol ar hyn, mae'r Arolygiaeth yn cytuno y gellir hepgor asesiad manwl o effeithiau ar dderbynyddion ecolegol na ystyrir eu bod yn 'bwysig' o'r ES.</p>
3.2.4	Tabl 7-17 a pharagraff 7.3.92	<p>Effeithiau gweithredol ar y safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Safleoedd dynodedig statudol (safleoedd Ewropeaidd â meini prawf cymwys symudol) sydd wedi'u lleoli hyd at 10km o'r</li> </ul>	<p>Mae paragraff 7.3.92 yr Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio at weithgareddau cynnal a chadw mewn perthynas ag effeithiau gweithredol yn unig, er y byddai'n ymddangos o Dabl 7-17 y cynigir hepgor yr holl effeithiau gweithredol ar safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol. Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y byddai mesurau lliniaru, fel amseru gwaith cynnal a chadw i osgoi adar sy'n nythu ac yn bridio a/ neu adar nad ydynt yn bridio/ sy'n gaeafu os ydynt yn bresennol, yn ddigonol i osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol, ac y byddai effeithiau anuniongyrchol ar dir cyfagos</p>

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
		<p>Safle/ Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Safleoedd dynodedig statudol (SoDdGAau) o fewn 2km o'r Safle/ Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu; a</li> <li>Safleoedd dynodedig anstatudol (LWS) o fewn 2km o'r Safle/ Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu.</li> </ul>	<p>sydd â chysylltiad swyddogaethol â safleoedd dynodedig yn cael eu lliniaru'n ddigonol gan fesurau a sicrheir trwy'r OEMP i osgoi unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol. Mae'r Adroddiad Cwmpasu hefyd yn datgan y byddai mesurau lliniaru a sicrheir trwy'r OEMP yn ddigonol i osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cynnal a chadw ar safleoedd dynodedig anstatudol o fewn 2km.</p> <p>Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnwys digon o wybodaeth i gyfiawnhau na fyddai LSE ar safleoedd statudol neu anstatudol o fewn y pellteroedd penodedig hyn yn ystod gweithredu, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Prin yw'r wybodaeth a ddarperir ynglŷn â'r rhywogaethau sy'n defnyddio'r Datblygiad Arfaethedig a allai fod yn gysylltiedig â safleoedd dynodedig statudol neu anstatudol. Yn yr un modd, ni ddisgrifir y mesurau lliniaru'n ddigon manwl i fod yn hyderus y byddent yn osgoi/ lleihau LSE. Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu ychwaith yn ystyried effeithiau'r paneli pan fyddent yn eu lle ac unrhyw LSE y gallai hyn ei chael ar adar sy'n bridio ac yn gaeafu yn ystod gweithredu.</p> <p>Heb wybodaeth fel tystiolaeth sy'n dangos cytundeb clir â chyrrff ymgynghori perthnasol, nid yw'r Arolygiaeth mewn sefyllfa i gytuno i hepgor y materion hyn o'r asesiad. Yn unol â hynny, dylai'r ES gynnwys asesiad o LSE ar y safleoedd dynodedig hyn yn ystod gweithredu, neu'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati sy'n dangos cytundeb â'r cyrrff ymgynghori perthnasol ac absenoldeb LSE.</p>
3.2.5	Tabl 7-17	Safleoedd dynodedig a chynefinoedd nodedig sy'n agored i effeithiau ansawdd aer – gweithredu	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan na fydd teithiau cerbydau ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn mynd yn fwy na throthwyon y Sefydliad Rheoli Ansawdd Aer (IAQM). Fel y cyfryw, nid oes potensial i weithredu'r Datblygiad Arfaethedig gael effeithiau ansawdd aer

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
			<p>sylweddol ar gynefinoedd a warchodir neu gynefinoedd sy'n nodedig fel arall o fewn 200m o'r rhwydwaith ffyrdd yr effeithir arno.</p> <p>Ar y sail hon, mae'r Arolygiaeth yn fodlon y gellir hepgor y mater hwn o asesiad pellach.</p>
3.2.6	Tabl 7-17	Safleoedd dynodedig, rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau nodedig sy'n agored i Rywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) o fewn Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu – gweithredu	<p>Mae'r mater hwn wedi'i hepgor ar y sail na fyddai perygl ychwanegol o gyflwyno INNS yn ystod gweithredu.</p> <p>Mae'r Arolygiaeth yn cytuno bod lledaeniad INNS yn ystod gweithredu yn annhebygol o arwain at effeithiau arwyddocaol ac y gellir ei hepgor o'r ES, ar yr amod bod mesurau lliniaru addas ar waith. Dylai'r ES fanylu ar fesurau lliniaru/ bioddiogelwch a'u sicrhau yn ystod pob cam o'r Datblygiad Arfaethedig er mwyn osgoi/ rheoli lledaeniad INNS a'u cyflwyno. O ran gweithredu, dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod mesurau rheoli a dileu angenrheidiol yn cael eu cynnwys yn yr OEMP drafft/ amlinellol.</p>
3.2.7	Paragraff 7.3.91	Effeithiau llwch ar safleoedd a chynefinoedd dynodedig sy'n agored i effeithiau ansawdd aer – adeiladu	<p>Er nad yw wedi'i gynnwys fel eitem yn Nhabl 7-17, mae paragraff 7.3.91 yn datgan, o ganlyniad i fesurau lliniaru i reoli llwch a weithredir trwy CEMP, ystyrir nad oes potensial ar gyfer effeithiau arwyddocaol ar dderbynyddion ecolegol o ganlyniad i ddyddodion llwch.</p> <p>Er bod yr Arolygiaeth yn cytuno bod dyddodion llwch yn debygol o fod yn gyfyngedig i 50m a bod mesurau ar gael i reoli llwch, mae SoDdGA Llyn Alaw yn union gerllaw'r Datblygiad Arfaethedig ac fe allai fod yn sensitif i fygu a/ neu orfaethu o ganlyniad i lwch. Heb wybodaeth fel tystiolaeth sy'n dangos cytundeb clir â chyrff ymgynghori perthnasol, nid yw'r Arolygiaeth mewn sefyllfa i gytuno i hepgor y materion hyn o'r Asesiad. Yn unol â hynny, dylai'r ES gynnwys asesiad o effeithiau ar SoDdGA Llyn Alaw o ganlyniad i ddyddodion llwch, neu'r</p>

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
			wybodaeth y cyfeiriwyd ati sy'n dangos cytundeb â'r cyrff ymgynghori perthnasol ac absenoldeb LSE.
3.2.8	Tabl 7-17	Safleoedd dynodedig statudol (Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAAu), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAAu), Ramsar) y tu hwnt i 10km – adeiladu a gweithredu	Er nad yw wedi'i nodi'n benodol fel mater i'w hepgor, mae Tabl 7-17 yn awgrymu bod yr holl safleoedd dynodedig statudol y tu hwnt i 10km wedi'u hepgor o'r asesiad. Nid yw'r Arolygiaeth yn cytuno y dylai safleoedd dynodedig statudol y tu hwnt i 10km gael eu hepgor o'r asesiad. Dylai'r ES gynnwys asesiad o effeithiau ar safleoedd dynodedig sydd â rhywogaethau symudol y tu hwnt i 10km, lle y gallai LSE ddigwydd, neu wybodaeth sy'n dangos absenoldeb LSE a chytundeb clir â chyrff ymgynghori perthnasol.
3.2.9	Tabl 7-17 a pharagraff 7.3.68	Safleoedd dynodedig statudol (SoDdGAau) y tu hwnt i 2km – adeiladu a gweithredu	Nodir bod Tabl 7-16 yn amlygu SoDdGAau sydd wedi'u lleoli o fewn 5km o'r Datblygiad Arfaethedig; fodd bynnag, mae Tabl 7-17 yn nodi mai dim ond SoDdGAau o fewn 2km sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad. Ni roddir cyfiawnhad ynglŷn â pham na fyddai llwybr effaith ar SoDdGAau y tu hwnt i 2km, fel trwy gysylltiadau hydrolegol neu o ganlyniad i bresenoldeb nodweddion adar symudol SoDdGAau. Dylai'r ES gynnwys asesiad o effeithiau ar SoDdGAau y tu hwnt i 2km, lle y gallai effeithiau arwyddocaol tebygol ddigwydd. Dylai'r Ymgeisydd wneud ymdrech i gytuno ar y SoDdGAau y dylid eu cynnwys yn yr asesiad gyda chyrff statudol perthnasol.

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.2.10	Paragraffau 7.3.37 a 7.3.67 i 7.3.70	Parth Dylanwad (ZoI) ac ardaloedd astudio	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan mai'r ZoI ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yw'r " <i>ardal lle y gallai newidiadau effeithio ar nodweddion ecolegol o ganlyniad i'r Prosiect a gweithgareddau cysylltiedig</i> " ac y gallai amrywio rhwng pob derbynnydd ecolegol a amlygir. Ni roddir gwybodaeth sy'n esbonio sut y pennir y ZoI. Dylai'r ES ddisgrifio'r fethodoleg a'r ffactorau a ddefnyddir i bennu'r ZoI(au) perthnasol a

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			<p>datgan y ZoI perthnasol ar gyfer pob derbynnydd neu grŵp o dderbynnyddion a ystyrir yn yr asesiad.</p> <p>Er bod yr Adroddiad Cwmpasu yn datgan y bydd ZoI yn cael ei gymhwyso, mae hefyd yn cyfeirio at ardaloedd astudio pellter sefydlog ar gyfer pob math o dderbynnydd (e.e. safleoedd dynodedig statudol). Dibynnir yn drwm ar y pellteroedd sefydlog hyn i hepgor LSE ar fathau o dderbynnyddion, fel safleoedd dynodedig statudol y tu hwnt i 10m (paragraffau 7.3.67 i 7.3.69). Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn cyfiawnhau pam y byddai effeithiau posibl ar rywogaethau symudol sy'n gysylltiedig â safleoedd dynodedig yn digwydd ar safleoedd o fewn 10km (neu 2km ar gyfer safleoedd anstatudol a safleoedd heb rywogaethau symudol) o Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu yn unig, yn enwedig lle y gallai rhywogaethau adar symudol iawn fod yn bresennol. Dylai'r ES sicrhau bod yr ardal astudio'n adlewyrchu ZoI y Datblygiad Arfaethedig yn hytrach na bod wedi'i seilio ar bellter sefydlog. Dylai'r asesiad o effeithiau gael ei seilio ar y ZoI o'r Datblygiad Arfaethedig ac ystyried y rhywogaethau/cynefinoedd dan sylw. Dylid rhoi cyfiawnhad clir i gefnogi unrhyw bellteroedd a gymhwysir.</p>
3.2.11	Paragraff 7.3.54 a Thabl 7-18	Adar sy'n gaeafu ac yn bridio – data ac arolygon	<p>Prin yw'r wybodaeth a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Cwmpasu ynglŷn â'r arolygon adar a gynhaliwyd hyd yma a'u canfyddiadau, yn enwedig o ran adar sy'n gaeafu. Dylai'r asesiad o effeithiau gael ei lywio gan arolygon priodol o adar sy'n bridio ac yn gaeafu sy'n dilyn canllawiau sefydledig. Dylai'r Ymgeisydd geisio cytuno ar gwmpas arolygon adar sy'n gaeafu ac yn pasio heibio gyda chyrrff ymgynghori perthnasol, gan gynnwys CNC.</p> <p>Tynnir sylw'r Ymgeisydd at sylwadau CNC yn Atodiad 2 y Farn hon mewn perthynas â rhywogaethau adar posibl a allai fod yn bresennol yn yr ardal ac y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt, gan gynnwys gwyddau talcenwyn yr Ynys Las (GwfG) a brain coesgoch. Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio at GwfG a nodir bod sawl</p>

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			<p>safle statudol a ddynodwyd ar gyfer eu nodweddion cymwys brain coesgoch wedi'u hepgor ar y sail eu bod y tu hwnt i'r ardal astudio 10km.</p> <p>Tynnir sylw'r Ymgeisydd hefyd at sylwadau CNC ynglŷn ag arolygon adar ychwanegol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sylwadau ynglŷn â GwfG, brain coesgoch, tylluanod gwynion ac elyrch y Gogledd. Dylai'r Ymgeisydd geisio cytuno ar ffynonellau data a chwmpas unrhyw arolygon ychwanegol wedi'u targedu sy'n ofynnol ar gyfer rhywogaethau o'r fath, gan gynnwys yr angen am drawsluniau wedi'u targedu, arolygon manau ffafriol, a/ neu arolygon cyfnosol.</p>
3.2.12	Paragraff 7.3.88	Pysgod	<p>Gan nodi presenoldeb sawl rhywogaeth bysgod sy'n achos pryder cadwraeth, dylai mesurau lliniaru ar gyfer rhywogaethau pysgod gael eu hamlinellu'n glir yn yr ES a'u sicrhau'n ddigonol trwy'r dDCO. Cyfeirir sylw'r Ymgeisydd hefyd at sylwadau CNC yn Atodiad 2 y Farn hon mewn perthynas â chyfyngiadau ar wneud gwaith mewn afonydd a'r angen i achub pysgod pan fydd rhywogaethau o'r fath yn bresennol ac y gellid effeithio ar gyrsiau dŵr.</p>
3.2.13	Adran 3.4	Gwelliannau bioamrywiaeth a Chynllun Rheoli Ecoleg y Dirwedd (LEMP)	<p>Nid yw'r bennod ar ecoleg yn yr Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio'n benodol at gynhyrchu LEMP, er y cyfeirir at hyn mewn man arall yn yr Adroddiad Cwmpasu (e.e. Adran 3.4). Cyfeirir rhywfaint yn y bennod ar ecoleg at welliannau bioamrywiaeth ychwanegol i'w harchwilio drwy gydol esblygiad y Datblygiad Arfaethedig.</p> <p>Dylai'r ES gynnwys LEMP drafft/ amlinellol sy'n amlinellu sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cyflawni gwelliannau bioamrywiaeth. Dylai'r ES wahaniaethu rhwng mesurau y bwriedir iddynt osgoi neu leihau'r potensial ar gyfer effeithiau arwyddocaol tebygol, a'r rhai hynny a amlygwyd ar gyfer gwelliant yn unig.</p>

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.2.14	Dd/B	Atodiadau Cyfrinachol	<p>Mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldeb i osgoi rhyddhau gwybodaeth amgylcheddol a allai achosi niwed i nodweddion ecolegol sensitif neu fregus. Dylai data arolygu ac asesu penodol yn ymwneud â phresenoldeb a lleoliadau rhywogaethau fel moch daear, adar a phlanhigion prin y gellid tarfu arnynt, eu difrodi neu eu herlid, neu y gallent fod yn destun camfanteisio masnachol o ganlyniad i gyhoeddi'r wybodaeth, gael ei ddarparu yn yr ES fel atodiad cyfrinachol. Dylai'r holl wybodaeth asesu arall gael ei chynnwys mewn pennod o'r ES, yn ôl yr arfer, gyda dalfan sy'n esbonio bod atodiad cyfrinachol wedi cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth ac y gallai fod ar gael ar gais.</p>

### 3.3 Treftadaeth Ddiwylliannol

(Adran 7.4 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.3.1	Paragraffau 7.4.34, 7.4.42 a Thabl 8-1	Effeithiau ar archaeoleg gladdedig – gweithredu	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor y mater hwn ar y sail y byddai effeithiau ar archaeoleg gladdedig yn digwydd o ganlyniad i darfu ar y tir yn sgil gweithgareddau adeiladu yn unig. Mae'r Arolygiaeth yn fodlon bod effeithiau arwyddocaol ar archaeoleg gladdedig yn annhebygol o ddigwydd yn ystod gweithredu ac mae'n cytuno y gellir hepgor y mater hwn o asesiad pellach.
3.3.2	Paragraff 7.4.35 a Thabl 8-1	Effeithiau ar archaeoleg gladdedig – datgomisiynu	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan na ddisgwylir tarfu ar y tir yn fwy yn ystod datgomisiynu ac felly na ddisgwylir effeithiau ar olion archaeolegol claddedig yn ystod y cam hwn.  Mae'r Arolygiaeth o'r farn bod potensial ar gyfer effeithiau ar adnoddau archaeolegol claddedig yn ystod y cam datgomisiynu, fel posibilrwydd o niwed o ganlyniad i gywasgu, tynnu seilbyst ymaith, a newidiadau posibl dilynol i batrymau draenio.  Heb wybodaeth fel tystiolaeth sy'n dangos cytundeb clir â chyrrff ymgynghori perthnasol, nid yw'r Arolygiaeth mewn sefyllfa i gytuno i hepgor y materion hyn o'r asesiad. Yn unol â hynny, dylai'r ES gynnwys asesiad o effeithiau ar archaeoleg gladdedig yn ystod datgomisiynu, neu'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati sy'n dangos cytundeb â'r chyrrff ymgynghori perthnasol ac absenoldeb LSE.
3.3.3	Paragraffau 7.4.36, 7.4.40, 7.4.42 a Thabl 8-1	Effeithiau ar asedau hanesyddol dynodedig, treftadaeth adeiledig a'r dirwedd hanesyddol – adeiladu a datgomisiynu	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor y mater hwn ar y sail y byddai'r effeithiau'n rhai dros dro a chyfyngedig ac na fyddent yn achosi effeithiau arwyddocaol.  Mae'r Arolygiaeth o'r farn y gallai sŵn, dirgryniad, llwch, traffig, goleuadau a tharfu gweledol sy'n gysylltiedig ag adeiladu a

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
			<p>datgomisiynu effeithio ar leoliad asedau treftadaeth o'r math hwn. Yn ogystal, mae diffyg gwybodaeth ar y cam hwn ynglŷn â hyd a lleoliad tebygol gweithgareddau adeiladu mewn perthynas ag asedau treftadaeth.</p> <p>Nid yw'r Arolygiaeth o'r farn bod digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno i fod yn hyderus na fyddai effeithiau arwyddocaol yn digwydd. Heb wybodaeth fel tystiolaeth sy'n dangos cytundeb clir â chyrrff ymgynghori perthnasol, nid yw'r Arolygiaeth mewn sefyllfa i gytuno i hepgor y materion hyn o'r asesiad. Dylai'r ES gynnwys asesiad o'r effeithiau ar leoliad asedau hanesyddol dynodedig, treftadaeth adeiledig a'r dirwedd hanesyddol yn ystod adeiladu a datgomisiynu, neu'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati sy'n dangos cytundeb â'r cyrrff ymgynghori perthnasol ac absenoldeb LSE.</p>

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.3.4	Paragraff 7.4.17	Ardal astudio ar gyfer asesu effeithiau ar leoliad asedau treftadaeth	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cyflwyno Ardal Astudio Treftadaeth sy'n cynnwys (ar gyfer effeithiau ar leoliad asedau treftadaeth dynodedig) Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu a llain glustogi 2km, fel y dangosir ar Ffigur 7-17 yr Adroddiad Cwmpasu. Mae'r Adroddiad Cwmpasu o'r farn "<i>...y gellir datgan yn hyderus na fyddai effaith niweidiol ar asedau y tu hwnt i'r pellter hwn</i>".</p> <p>Mae'r mapiau ZTV (gweler Ffigurau 7-7 i 7-13 yr Adroddiad Cwmpasu), a baratowyd yn seiliedig ar ardal astudio 3km ar gyfer LVIA, yn dangos y gallai'r Datblygiad Arfaethedig fod yn weladwy o asedau treftadaeth y tu allan i'r Ardal Astudio Treftadaeth. Mae'r Arolygiaeth hefyd yn nodi'r ymateb i'r ymgynghoriad cwmpasu gan Cadw (Atodiad 2 y Farn hon), sy'n datgan ei fod yn disgwyl i effeithiau ar leoliadau gael eu hystyried ar gyfer yr holl asedau hanesyddol dynodedig o fewn 3km o'r Datblygiad Arfaethedig (y mae</p>

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			<p>wedi'u rhestru yn Atodiad A ei ymateb) yn unol â dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru "<i>Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru</i>"<sup>2</sup>.</p> <p>Dylai'r ES gynnwys cyfiawnhad cadarn i gefnogi'r ardal astudio a'r derbynyddion sensitif a ddewiswyd at ddibenion asesiad yr ES, ar sail canllawiau perthnasol a maint yr effeithiau tebygol, gan gyfeirio at ymagweddau perthnasol gan gynnwys y ZTV a'r ZVI a ddatblygwyd ar gyfer yr LVIA. Dylai fod yn glir sut mae'r ymagwedd a ddefnyddiwyd yn sicrhau bod unrhyw asedau treftadaeth â golygfeydd hir tuag at safle'r cais neu allan ohono wedi cael eu hamlygu a'u hystyried. Dylid gwneud ymdrech i gytuno ar yr ymagwedd a'r derbynyddion sensitif gyda chyrrff ymgynghori perthnasol. Dylai'r ardaloedd astudio a lleoliadau'r asedau treftadaeth gael eu dangos ar gynllun(iau) ategol.</p>
3.3.5	Paragraffau 7.4.36 i 7.4.40	Effeithiau ar leoliad asedau treftadaeth	<p>Mae Adran 7.7 yr Adroddiad Cwmpasu (Sŵn) yn datgan y bydd effeithiau sŵn a dirgryniad ar dderbynyddion treftadaeth yn cael eu hystyried ym mhennod yr ES ar Dreftadaeth Ddiwylliannol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfeiriad at ystyried effeithiau sŵn yn yr adran ar Dreftadaeth Ddiwylliannol yn yr Adroddiad Cwmpasu ac ni chyfeirir at ddirgryniad.</p> <p>Er mwyn osgoi amheuaeth, dylai pennod yr ES ar Dreftadaeth Ddiwylliannol asesu unrhyw effeithiau sŵn a dirgryniad sy'n debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol ar asedau treftadaeth a/ neu eu lleoliad.</p> <p>Dylai asesiad yr ES o effeithiau ar leoliad ystyried ffactorau eraill perthnasol fel llwch, traffig, goleuadau, fflachiau a llacharedd a newidiadau i ddefnydd tir, gan groesgyfeirio at benodau agweddau eraill fel y bo'n briodol. Yn unol â'r sylwadau uchod, dylai effeithiau yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig</p>

<sup>2</sup> Cadw (2017) – Lleoliad Asedau Hanesyddol yn Nghymru

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			<p>sy'n debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol ar leoliad asedau treftadaeth gael eu hasesu yn yr ES.</p> <p>Dylai'r asesiad gael ei ategu gan ddelweddau priodol, fel ffotogyfosodiadau, i helpu i ddangos effeithiau tebygol y Datblygiad Arfaethedig. Dylid gwneud ymdrech i gytuno ar leoliadau golygfannau priodol ar gyfer delweddau o'r fath gyda chyrrff ymgynghori perthnasol, gan gynnwys IoACC a Cadw. Dylid croesgyfeirio at asesiad LVIA yr ES er mwyn osgoi dyblygu.</p>
3.3.6	Paragraffau 7.4.19 a 7.4.33	Llinell sylfaen a lliniaru	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn esbonio y bydd canlyniadau arolwg geoffisegol ac asesiad desg yn llywio'r angen am unrhyw ymchwiliadau ychwanegol a allai fod yn ofynnol, a'u cwmpas, er mwyn sicrhau bod olion archaeolegol posibl "<i>...yn cael eu hymchwilio a'u cofnodi ar gam priodol yn y broses ddatblygu</i>". Mae'r Arolygiaeth yn nodi, fel yr amlinellir yn ei ymateb i'r ymgynghoriad cwmpasu (Atodiad 2 y Farn hon), bod IoACC wedi cael cyngor gan Wasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd (GAPS), sy'n ystyried y bydd angen ffosydd profi.</p> <p>Lle y bo'r angen, dylai unrhyw ymchwiliadau ymwithiol a ffosydd profi gael eu cwblhau cyn i'r cais DCO gael ei gyflwyno. Dylai'r Ymgeisydd wneud ymdrech i drafod a chytuno ar amseriad, cwmpas a methodoleg unrhyw ymchwiliadau ymwithiol a ffosydd profi gyda chyrrff ymgynghori perthnasol.</p>
3.3.7	Paragraff 7.4.33	Lliniaru	<p>Dylai'r ES ddisgrifio unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig ac esbonio sut byddai'r rhain yn cael eu sicrhau trwy'r dDCO, gan gynnwys cynigion ar gyfer cofnodi unrhyw archaeoleg a fyddai'n cael ei cholli'n barhaol o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig. Dylid gwneud ymdrech i gytuno ar y mesurau angenrheidiol gyda chyrrff ymgynghori perthnasol.</p>

### 3.4 Trafnidiaeth a Mynediad

(Adran 7.5 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.4.1	Paragraff 7.5.55 a Thabl 8-1	Dulliau mynediad amgen i'r safle – adeiladu	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor dulliau amgen o gludo deunyddiau adeiladu gan nad oes dulliau cludiant eraill hyfyw o Borthladd Caergybi i'r Safle heblaw ar y ffyrdd. Mae'r Arolygiaeth yn fodlon hepgor y mater hwn o asesiad pellach.
3.4.2	Paragraff 7.5.56	Cludo deunyddiau i Borthladd Caergybi ar long – adeiladu	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan na ellir asesu cludo deunyddiau i Borthladd Caergybi ar long yn yr ES, gan na wyddys lleoliad deunyddiau adeiladu ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig eto. Mae paragraffau 7.6.21 a 7.6.39 yn esbonio ei bod yn debygol y byddai deunyddiau adeiladu'n cael eu cludo ar y fflyd bresennol, sy'n golygu na fyddai angen symudiadau morgludiant ychwanegol.  Mae'r Arolygiaeth yn cytuno y gellir hepgor y mater hwn o asesiad pellach ym Mhennod yr ES ar Drafnidiaeth a Mynediad.
3.4.3	Paragraffau 7.5.57 a 7.5.58 a Thabl 8-1	Effeithiau trafndiaeth a mynediad – gweithredu	Mae'r Arolygiaeth yn cytuno bod nifer y teithiau cerbydau a gynhyrchir gan weithredu a chynnal a chadw'r Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol o arwain at effeithiau arwyddocaol, felly ystyrir ei bod yn dderbyniol hepgor y mater hwn. Dylai'r bennod Disgrifiad o'r Prosiect yn yr ES amlinellu'n glir nifer a math tebygol y cerbydau gweithredu a chynnal a chadw.
3.4.4	Paragraffau 7.5.59 i 7.5.61 a Thabl 8-1	Risgiau a damweiniau sy'n gysylltiedig â llwythi peryglus a mawr – pob cam	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor asesiad o risgiau a damweiniau sy'n gysylltiedig â llwythi peryglus a mawr, ar y sail nad oes unrhyw nodweddion penodol o'r rhwydwaith ffyrdd lleol a fyddai'n achosi risg sylweddol ac y bydd unrhyw lwythi mawr yn cael eu rheoli trwy'r system Darparu Gwasanaeth Electronig ar gyfer Llwythi

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
			Anghyffredin. Mae'r Arolygiaeth yn fodlon hepgor y mater hwn o asesiad pellach.

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.4.5	Paragraffau 7.5.7, 7.5.32, 7.5.37 a 7.5.38 a Ffigurau 7-18 a 7-19	Ardal astudio, arolygon trafndiaeth sylfaenol a derbynnyddion sensitif	<p>Mae Paragraff 7.5.7 a Ffigur 7-18 yr Adroddiad Cwmpasu yn amlygu pum llwybr i gyrraedd y Safle o'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn ystod adeiladu (Llwybrau 1 i 5). Dangosir llwybrau posibl i'r lleiniau eraill o'r "Hyb Cydgrynhoi" ar Ffigur 7-19. Mae Paragraff 7.5.32 yn datgan bod yr ardal astudio Trafndiaeth a Mynediad "...wedi cael ei hamlygu i ddechrau fel hyd a lled Llwybr Un i'r Safle...". Nid yw'n glir pam y cyfyngwyd yr ardal astudio i Lwybr Un.</p> <p>Dylai'r ES gadarnhau'r ardal astudio derfynol ar gyfer yr asesiad a chyfiawnhau sut y'i dewiswyd, gan gyfeirio at ganllawiau perthnasol y diwydiant, maint yr effeithiau tebygol a lleoliadau derbynnyddion sensitif. Dylai cynllun sy'n dangos hyd a lled yr ardal astudio, a llwybr(au) disgwylidig traffig adeiladu, gael ei gynnwys yn yr ES. Dylai fod yn glir sut mae'r lleoliadau a ddewiswyd ar gyfer Cyfrifon Traffig Awtomatig (ATC) yn berthnasol i'r llwybr hwn/llwybrau hyn. Dylid gwneud ymdrech i gytuno ar y manylion hyn gyda chyrff ymgynghori perthnasol.</p>
3.4.6	Paragraffau 7.5.10 i 7.5.13	Effeithiau ar ddefnyddwyr PRow neu lwybrau hamdden eraill	<p>Ni chadarnhawyd eto p'un a fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at ddargyfeirio neu gau unrhyw PRow, llwybrau'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol neu lwybrau hamdden eraill, naill ai dros dro neu'n barhaol. Dylai hyn gael ei gadarnhau yn yr ES.</p> <p>Dylai'r ES asesu effeithiau ar ddefnyddwyr PRow, llwybrau'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol neu lwybrau hamdden eraill (gan gynnwys hollti, oedi, amwynder, ofn/ bygythiad a diogelwch) yn ystod</p>

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			<p>adeiladu, gweithredu a datgomisiynu sy'n debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol.</p> <p>Dylai'r asesiad o effeithiau ar ddefnyddwyr PRow gael ei gefnogi gan gyfrifon cerddwyr/ defnyddwyr lle y bo'n bosibl, a dylid gwneud ymdrech i gytuno ar y lleoliadau ar gyfer cyfrifon o'r fath gyda chyrff ymgynghori perthnasol. Lle y bo'n berthnasol, dylai'r ES asesu rhyngweithiadau posibl rhwng asesiadau agwedd (er enghraifft traffig a thrafnidiaeth, sŵn, llwch, hamdden ac effaith weledol). Dylai lleoliadau dargyfeirio neu gau unrhyw lwybrau gael eu dangos ar ffigurau addas yn yr ES.</p>

### 3.5 Ansawdd Aer

(Adran 7.6 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.5.1	Paragraffau 7.6.13 a 7.6.14	Asesiad meintiol o allyriadau traffig ffyrdd yn ystod y cam adeiladu (os na eir yn fwy na meini prawf sgrinio perthnasol yng nghanllawiau IAQM a Diogelu'r Amgylchedd y DU <sup>3</sup> )	<p>Os dangosir na fyddai niferoedd rhagfynedig y symudiadau traffig adeiladu a gynhrychir gan y Datblygiad Arfaethedig ar ei ben ei hun neu ar y cyd yn bodloni'r meini prawf dangosol perthnasol ar gyfer asesu ansawdd aer fel yr amlinellir yng nghanllawiau IAQM, neu y byddent yn mynd yn fwy na'r meini prawf hynny<sup>1</sup>, fel y bo'n berthnasol i bob un o'r ffyrdd yr effeithir arnynt a ddefnyddir ar gyfer traffig adeiladu (pan fydd y llwybr wedi'i gadarnhau), mae'r Arolygiaeth yn cytuno y gellir hepgor asesiad meintiol o allyriadau traffig ffyrdd yn ystod y cam adeiladu o'r ES. Dylai'r bennod Disgrifiad o'r Prosiect yn yr ES nodi'n glir nifer a math tebygol y symudiadau cerbydau yn ystod y cam adeiladu (ar ei ben ei hun ac ar y cyd).</p> <p>Pan fydd llifoedd traffig adeiladu rhagfynedig yn bodloni'r meini prawf neu'n mynd yn fwy na nhw, dylai asesiad meintiol o allyriadau traffig ffyrdd yn ystod y cam adeiladu gael ei gynnwys yn yr ES.</p>
3.5.2	Paragraffau 7.6.20 a 7.6.43 a Thabl 8-1	Allyriadau Peiriannau Symudol Nad Ydynt ar gyfer y Ffordd (NRMM) – pob cam	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor allyriadau o NRMM gan y bydd y rhain dros dro, yn lleol ac yn cael eu rheoli trwy CEMP.</p> <p>Dylai'r ES ddangos sut y byddai mesurau lliniaru perthnasol yn cael eu darparu a'u sicrhau, trwy groesgyfeirio at y CEMP amlinellol a'r dDCO. Yn amodol ar hyn, mae'r Arolygiaeth yn cytuno bod effeithiau ansawdd aer arwyddocaol o NRMM yn annhebygol ac mae'n fodlon y gellir hepgor y mater hwn.</p>

<sup>3</sup> Y Sefydliad Rheoli Ansawdd Aer (IAQM) (2017) Cynllunio Defnydd Tir a Rheoli Datblygu: Cynllunio ar gyfer Ansawdd Aer

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.5.3	Paragraffau 7.6.21, 7.6.39 a 7.6.43 a Thabl 8-1	Allyriadau morgludiant – pob cam	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor allyriadau o gludo deunyddiau ar long i Borthladd Caergybi gan ei bod yn debygol y bydd deunyddiau adeiladu'n cael eu cludo ar y fflyd bresennol, sy'n golygu na fydd angen symudiadau morgludiant ychwanegol. Ni ddywedir p'un a allai symudiadau morgludiant ychwanegol fod yn ofynnol yn ystod datgomiynu.</p> <p>Mae'r Arolygiaeth yn cytuno y gellir hepgor y mater hwn o asesiad pellach yn adran Ansawdd Aer yr ES.</p>
3.5.4	Paragraffau 7.6.22, 7.6.24, 7.6.40 a 7.6.43 a Thabl 8-1	Allyriadau traffig ffyrdd – gweithredu a datgomiynu	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor allyriadau traffig ffyrdd gweithredol oherwydd y bydd traffig gweithredol yn gyfyngedig i staff sy'n cynnal a chadw ac atgyweirio paneli solar. Mae'r Arolygiaeth yn cytuno bod nifer y teithiau cerbydau a gynhyrchir gan weithredu a chynnal a chadw'r Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol o arwain at effeithiau arwyddocaol, a gellir hepgor y mater hwn o asesiad pellach.</p> <p>O ran datgomiynu, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan yr ystyrir bod yr asesiad o allyriadau traffig ffyrdd yn ystod y cam adeiladu yn senario achos gwaethaf ar gyfer y cam datgomiynu, felly ni chynigir cynnal asesiad ar wahân o allyriadau traffig ffyrdd yn ystod y cam datgomiynu. Heb wybodaeth fel tystiolaeth sy'n dangos na fyddai gweithgareddau datgomiynu'n arwain at fwy o effeithiau allyriadau traffig ffyrdd na'r cam adeiladu neu gytundeb clir â chyrrff statudol perthnasol, nid yw'r Arolygiaeth mewn sefyllfa i gytuno i hepgor y mater hwn o'r asesiad. Yn unol â hynny, dylai'r ES gynnwys asesiad o allyriadau traffig ffyrdd yn ystod datgomiynu, neu ddarparu gwybodaeth sy'n dangos cytundeb â'r cyrrff ymgynghori perthnasol ac absenoldeb LSE.</p>

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
			Dylai'r bennod Disgrifiad o'r Prosiect yn yr ES nodi'n glir nifer a math tebygol y cerbydau a fydd yn ofynnol ar gyfer gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu.
3.5.5	Paragraffau 7.6.23 a 7.6.41 a Thabl 8-1	Allyriadau ar y safle – gweithredu	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor allyriadau o seilwaith ar y safle yn ystod y cam gweithredol gan na ddisgwylir i unrhyw lygryddion gael eu hallyrru. Mae'r Arolygiaeth yn fodlon bod allyriadau ar y safle yn ystod gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. Ceir hepgor y mater hwn o asesiad pellach.
3.5.6	Paragraffau 7.6.12, 7.6.25, 7.6.34 a 7.6.43 a Thabl 8-1	Allyriadau llwch – pob cam	<p>Mae paragraff 7.6.43 yr Adroddiad Cwmpasu yn cynnig bod "<i>Asesiad ansoddol o allyriadau llwch sy'n ffoi yn ystod y cam adeiladu</i>" yn cael ei hepgor o'r ES. Mae'n ymddangos bod hyn yn gwrth-ddweud paragraff 7.6.12, sy'n datgan "<i>Bydd asesiad ansoddol o lwch yn ystod y cam adeiladu yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Rheoli Ansawdd Aer (IAQM) i bennu risg allyriadau llwch sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cloddwaith, adeiladu a llwybro allan</i>", sy'n golygu bod ymagwedd arfaethedig yr Ymgeisydd yn aneglur.</p> <p>Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r Arolygiaeth o'r farn y dylid darparu asesiad ansoddol o allyriadau llwch sy'n deillio o weithgareddau yn ystod adeiladu a datgomisiynu, gan ddefnyddio canllawiau'r IAQM. Dylai'r ES ddisgrifio'r mesurau y dibynnir arnynt i reoli allyriadau llwch yn ystod adeiladu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig. Dylai fod yn glir sut y byddai'r holl fesurau lliniaru'n cael eu darparu a'u sicrhau, trwy groesgyfeirio at y CEMP amlinellol a'r dDCO.</p> <p>Mae'r Arolygiaeth yn fodlon y gellir hepgor allyriadau llwch o asesiad pellach ar gyfer y cam gweithredol.</p>

<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth</b>
3.5.1	Paragraff 7.6.44	Pennod Annibynnol ar Ansawdd Aer yn yr ES	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig asesu ansawdd aer mewn pennod 'Pynciau Amgylcheddol Eraill' yn hytrach na Phennod annibynnol yn yr ES. Mae'r Arolygiaeth wedi ystyried natur a nodweddion y Datblygiad Arfaethedig ac mae'n fodlon ar yr ymagwedd hon.

<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth</b>
3.5.2	Tabl 7.27 a 7.28	Lleoliadau monitro ansawdd aer (AQM) IoACC	Dylai lleoliadau AQM IoACC mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig gael eu dangos ar gynllun yn yr ES.

### 3.6 Sŵn

(Adran 7.7 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.6.1	Paragraff 7.7.2	Effeithiau sŵn a dirgryniad ar dderbynyddion ecolegol a threftadaeth o Bennod Sŵn yr ES	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor effeithiau sŵn a dirgryniad ar dderbynyddion ecolegol a threftadaeth o Bennod Sŵn yr ES a'u hystyried yn lle hynny ym Mhenodau Ecoleg a Bioamrywiaeth a Threftadaeth Ddiwylliannol yr ES. Mae'r Arolygiaeth yn fodlon ar yr ymagwedd hon.
3.6.2	Paragraff 7.7.40 a Thabl 8-1	Asesiad llongyddwch – adeiladu a datgomisiynu	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor y mater hwn ar sail natur dros dro effeithiau. O ystyried lleoliad gwledig y Datblygiad Arfaethedig, lefelau sŵn cefndir isel tebygol ac agosrwydd i dderbynyddion sensitif, nid yw'r Arolygiaeth yn cytuno y gellir hepgor y mater hwn. Yn unol â hynny, dylai'r ES gynnwys asesiad o'r mater hwn neu ddarparu gwybodaeth sy'n dangos cytundeb â'r cyrff ymgynghori perthnasol ac absenoldeb LSE.
3.6.3	Paragraffau 7.7.35 a 7.7.41	Sŵn a dirgryniad o draffig ffyrdd - gweithredu	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor sŵn a dirgryniad o draffig ffyrdd yn ystod gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig, oherwydd disgwylir i symudiadau cerbydau yn ymwneud â chynnal a chadw arferol fod yn gyfyngedig iawn. Mae'r Arolygiaeth yn cytuno bod nifer y teithiau cerbydau a gynhyrchir gan weithredu a chynnal a chadw'r Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. Gellir hepgor y mater hwn o asesiad pellach.
3.6.4	Paragraffau 7.7.36 a 7.7.41	Dirgryniad o offer trydanol – gweithredu	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor y mater hwn oherwydd disgwylir i'r offer trydanol a ddefnyddir gynhyrchu lefelau dibwys o ddirgryniad wrth ffin y prosiect.  O ystyried natur a nodweddion y Datblygiad Arfaethedig gweithredol, mae'r Arolygiaeth yn fodlon hepgor y mater hwn o asesiad pellach.

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
			Fodd bynnag, dylai'r ES ddisgrifio'r ffynonellau dirgryniad posibl sy'n deillio o weithredu elfennau perthnasol, gan gynnwys yr is-orsafoedd, yn ogystal ag unrhyw fesurau i reoli allyriadau a chadarnhau sut y bydd y rhain yn cael eu sicrhau trwy'r dDCO neu ddull cyfreithiol arall.
3.6.5	Tabl 8-1	Sŵn o beiriannau ac offer sefydlog (gan gynnwys sŵn amledd isel) – adeiladu a datgomisiynu	Mae'r Arolygiaeth yn cytuno nad yw unrhyw sŵn o beiriannau ac offer sefydlog yn ystod adeiladu a datgomisiynu (e.e. yn ystod profi/comisiynu offer) yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. Gellir hepgor y mater hwn o asesiad pellach.

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.6.6	Paragraffau 7.7.5 a 7.7.9	Derbynyddion sensitif ac arolwg sylfaenol	<p>Mae paragraff 7.7.9 yr Adroddiad Cwmpasu yn datgan y bydd arolwg sŵn sylfaenol yn cael ei gynnal mewn "<i>lleoliadau sy'n gynrychioliadol o'r derbynyddion sy'n sensitif i sŵn a amlygwyd</i>". Nid yw derbynyddion penodol sy'n sensitif i sŵn wedi cael eu hamlygu ar hyn o bryd.</p> <p>Dylai'r ES esbonio sut y penderfynwyd bod lleoliadau derbynyddion yn gynrychioliadol, gan gyfeirio at wybodaeth berthnasol gan gynnwys mapio cyfuchliniau sŵn. Dylid gwneud ymdrech i gytuno ar y derbynyddion sensitif a'r lleoliadau ar gyfer arolwg sŵn sylfaenol gyda chyrrff ymgynghori perthnasol.</p>
3.6.7	Paragraffau 7.7.23 a 7.7.24	Ardal astudio	Diffinnir yr ardal astudio ar gyfer sŵn yn yr Adroddiad Cwmpasu fel 500m o ffin yr ardaloedd datblygu solar posibl, Is-orsaf y Prosiect a'r BESS a 10m o ymyl y ffordd ar gyfer traffig adeiladu (gan ddefnyddio derbynydd tybiannol).

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			Dylai'r ES esbonio sut y dewiswyd yr ardal(oedd) astudio gan gyfeirio at hyd a lled effeithiau tebygol y Datblygiad Arfaethedig a thystiolaeth ategol berthnasol fel modelu a/ neu ganllawiau perthnasol.

### 3.7 Cyflwr y Tir

(Adran 7.8 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.7.1	Paragraff 7.8.38	Echdynnu mwynau – pob cam	Mae'r Ymgeisydd yn cynnig hepgor y mater hwn gan nad yw Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu wedi'i lleoli o fewn Ardal Diogelu Mwynhau ac o ystyried statws geobaric UNESCO, na ystyrir bod echdynnu mwynhau'n hyfyw ac nid yw effeithiau arwyddocaol ar echdynnu mwynau yn debygol o ddigwydd. Mae'r Arolygiaeth yn cytuno y gellir hepgor y mater hwn o asesiad pellach gan nad yw'r safle wedi'i leoli o fewn Ardal Diogelu Mwynau.

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.7.2	Paragraff 7.8.38	Lleoliad Ardal Diogelu Mwynau	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio at fwynglawdd segur Mynydd Parys sydd wedi'i leoli 1km i'r dwyrain o Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu. Dywedir mai dyma'r unig Ardal Diogelu Mwynau gerllaw. Dylai'r ES gynnwys ffigur sy'n dangos lleoliad a hyd a lled unrhyw ddiogelu mwynhau yn agos i'r Datblygiad Arfaethedig.
3.7.3	Paragraffau 7.8.12, 7.8.13 a Chyfeirnod 7-68	Adroddiad ymchwiliad tir hanesyddol ar hen safle Shell.	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y bydd yr adroddiad ymchwiliad tir (Cyf. 7-68) yn cael ei adolygu yn rhan o Astudiaeth Ddesg Cam 1 i lywio'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR). Byddai ymchwiliad tir rhagarweiniol yn cael ei gynnal ar hen safle Shell pe na ellid dibynnu ar yr adroddiad trydydd parti.  Dylai'r Ymgeisydd geisio cytuno â'r cyrff ymgynghori perthnasol, os oes modd, ar gwmpas unrhyw ymchwiliad tir rhagarweiniol ychwanegol os bydd ei angen i lywio gwybodaeth sylfaenol yr ES. Pan fydd adroddiadau trydydd parti'n llywio gwybodaeth sylfaenol yr ES,

<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth</b>
			dylai eu dilysrwydd a'u perthnasedd gael eu cyfiawnhau'n llawn yn yr ES.

### 3.8 Priddoedd ac Amaethyddiaeth

(Adran 7.9 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.8.1	Paragraffau 7.9.36 a 7.9.39	Effeithiau ar briddoedd ac ansawdd tir – gweithredu	<p>Mae'r Ymgeisydd yn cynnig hepgor y mater hwn oherwydd byddai'r tir o dan ac o amgylch yr araeau PV yn parhau i gael ei ddefnyddio fel glaswelltir a'i ffermio o bosibl, ac na ddylai'r gweithgarwch amaethyddol hwn gael unrhyw effeithiau niweidiol ar yr adnodd pridd nac ansawdd tir amaethyddol yn ystod gweithredu. Mae'r Arolygiaeth o'r farn bod rhychwant oes 60 mlynedd ddisgwyliedig y Datblygiad Arfaethedig yn cynrychioli effaith tymor hir a ddylai gael ei hadlewyrchu yng nghanlyniadau'r asesiad yn unol â hynny. Dylai'r ES ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r datganiad ym mharagraff 7.9.36 yr Adroddiad Cwmpasu na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar yr adnodd pridd nac ansawdd tir amaethyddol yn ystod gweithredu. Os yw effeithiau arwyddocaol ar bridd ac ansawdd tir yn debygol o ddigwydd yn ystod gweithredu, dylai'r rhain gael eu hasesu yn yr ES.</p> <p>Lle mae'r ES yn dibynnu ar arferion amaethyddol i liniaru ar gyfer priddoedd ac ansawdd tir, dylai'r ES ddangos nad yw'r tir yn ddarostyngedig i gyfamodau cyfyngol a fyddai'n atal defnydd o'r fath a bod mesurau lliniaru o'r fath wedi'u sicrhau mewn perthynas â gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig.</p>
3.8.2	Tabl 8-1	Effeithiau ar fusnesau fferm, mentrau amaethyddol a defnydd tir – datgomisiynu	<p>Prin yw'r wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â'r effeithiau ar fusnesau fferm, mentrau amaethyddol a defnydd tir yn ystod y cam datgomisiynu. O ganlyniad i'r diffyg gwybodaeth a ddarparwyd, nid yw'r Arolygiaeth yn cytuno i hepgor y mater hwn.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, dylai unrhyw gynigion ar gyfer adfer y safle i ddefnydd amaethyddol neu ddefnydd arall gael eu disgrifio yn yr ES,</p>

<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth</b>
			gan gyfeirio at y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Datgomisiynu (DEMP) amlinellol arfaethedig.

<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth</b>
3.8.3	Paragraff 7.9.32	Cynllun Rheoli Pridd (SMP)	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y bydd SMP yn cael ei gynhyrchu, a fydd yn manylu ar fesurau i liniaru effaith niweidiol ar briddoedd. Er mwyn eglurder, dylid darparu fersiwn ddrafft/ amlinellol gyda'r cais a'i sicrhau'n briodol trwy'r dDCO.
3.8.4	Paragraff 7.9.31	Lliniaru	Prin yw'r wybodaeth a ddarperir yn yr Adroddiad Cwmpasu ynglŷn ag osgoi gwaith mewn ardaloedd lle y ceir y tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV). Yn ogystal â mesurau rheoli pridd, dylai'r ES esbonio sut mae'r dyluniad wedi ystyried tir BMV er mwyn osgoi, atal, neu leihau unrhyw LSE bosibl ar dir BMV neu esbonio pam nad yw hyn yn bosibl.
3.8.5	Paragraff 7.9.14	Ardal astudio	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan mai'r ardal astudio yw Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu yn ogystal â thir amaethyddol cyffiniol os oes posibilrwydd yr effeithir arno. Dylai'r ES gyfiawnhau maint yr ardal astudio a ddewiswyd yn glir a sut mae hyn yn berthnasol i hyd a lled yr effeithiau tebygol. Dylid dangos yr ardal astudio'n glir ar ffigurau er mwyn helpu i'w deall.
3.8.6	Paragraff 7.9.6, 7.9.7 a 7.9.8	Arolwg Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC)	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi y bydd arolwg ALC yn cael ei gynnal ar lefel arolwg lled-fanwl trwy gynnal samplau'n rheolaidd ar grid 200m. Dywedir ymhellach y gallai hyn gael ei ddisodli wedi hynny gan arolwg manwl mewn lleoliadau lle y disgwylir tarfu ar y pridd neu lle yr ystyrir ei bod yn bwysig pennu ffiniau graddau'n fanwl.

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			<p>Dylai'r Ymgeisydd wneud ymdrech i gytuno ar leoliadau a niferoedd y samplau pridd sydd i'w cymryd gyda chyrff ymgynghori perthnasol. Dylid defnyddio hyn i gefnogi'r asesiad o effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar dir amaethyddol BMV.</p>
3.8.7	Paragraff 7.8.4	Priddoedd mawn	<p>Prin yw'r wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â phresenoldeb priddoedd mawn o fewn y safle. O ystyried y potensial ar gyfer tarfu ar briddoedd mawn, dylai'r ES fapio unrhyw briddoedd mawn sy'n bresennol o fewn y safle a dangos sut y llwyddwyd i osgoi effeithiau ar ddyddodion mawn.</p> <p>Dylai unrhyw LSE ar briddoedd mawn gael ei hasesu yn yr ES (er enghraifft, colli neu darfu).</p>

### 3.9 Adnoddau Dŵr

(Adran 7.10 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.9.1	Paragraffau 7.10.46 a 7.10.50	Dŵr yfed – pob cam	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y gallai defnyddio ac yfed dŵr yfed yn ystod adeiladu effeithio ar yr adnodd dŵr sydd ar gael yn yr ardal leol. Cynigir hepgor y mater hwn oherwydd byddai'r effaith o natur dros dro ac yn fach.</p> <p>Nid yw'r Arolygiaeth o'r farn bod digon o wybodaeth wedi'i darparu ar hyn o bryd i gyfiawnhau hepgor y mater hwn. Dylai'r ES ddarparu manylion ynglŷn â'r cyflenwad dŵr yfed yn ystod adeiladu (ac yn ystod gweithredu a datgomisiynu os bydd angen dŵr yfed yn ystod y camau hyn) a darparu asesiad o'r materion hyn lle y gallai LSE ddigwydd neu ddangos absenoldeb effeithiau arwyddocaol tebygol gyda chytundeb gan y cyrff ymgynghori perthnasol.</p>
3.9.2	Paragraffau 7.10.47 a 7.10.50	Dŵr budr (swm ac ansawdd) – pob cam	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor y mater hwn ar y sail na fyddai unrhyw seilwaith dŵr budr yn gysylltiedig â gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig. Dywedir ymhellach y gallai dŵr budr a gynhyrchir yn ystod adeiladu gael effaith niweidiol ar y capasiti trin sydd ar gael, ond ni ddisgwylir i hyn fod yn arwyddocaol o ganlyniad i natur dros dro a maint bach yr effaith.</p> <p>Nid yw'r Arolygiaeth o'r farn bod digon o wybodaeth wedi'i darparu ynglŷn â sut y bydd dŵr budr yn cael ei drin yn ystod adeiladu a gweithredu. Dylai'r ES amlinellu'n glir sut y bydd dŵr budr yn cael ei drin a chynnwys asesiad o'r materion hyn lle y gallai LSE ddigwydd, neu ddangos absenoldeb LSE gyda chytundeb gan y cyrff ymgynghori perthnasol.</p>

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.9.3	Tabl 7-58	Effeithiau ar iechyd sy'n deillio o newidiadau i ansawdd neu argaeledd dŵr – adeiladu a datgomisiynu	<p>O ran ansawdd neu argaeledd dŵr, mae Adran 7.14 yr Adroddiad Cwmpasu (Iechyd) yn datgan bod effeithiau posibl ar iechyd yn ystod y camau adeiladu a datgomisiynu yn gysylltiedig â phresenoldeb tir amaethyddol a pherygl halogiad ar hen safle Shell, a amlinellir ym Mhennod yr ES ar Adnoddau Dŵr.</p> <p>Nid yw Adran 7.10 yr Adroddiad Cwmpasu (Adnoddau Dŵr) yn ymrwymo'n glir i asesu'r materion hyn. Er mwyn osgoi amheuaeth, dylai'r materion hyn gael eu hasesu lle y gallai LSE ddigwydd, oni chytunir fel arall gyda chyrrff ymgynghori perthnasol.</p>
3.9.4	Paragraff 7.10.35 a Ffigur 7-24	Ardal astudio	<p>Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn cyfiawnhau'n glir yr ardal astudio adnoddau dŵr a ddangosir yn Ffigur 7-24.</p> <p>Mae'r Arolygiaeth o'r farn y dylai'r ES ddiffinio'r ardal astudio'n glir yn seiliedig ar y ZoI, hydroleg y safle a'r potensial ar gyfer effeithiau arwyddocaol. Dylid ystyried derbynyddion ymhellach i lawr hefyd, lle y bo'n briodol.</p>
3.9.5	Paragraffau 1.2.27 a 1.2.28 a Thabl 7-42	Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr	<p>Cyfeiriwyd at Reoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 yn yr Adroddiad Cwmpasu; fodd bynnag, nid yw'r bennod ar adnoddau dŵr yn yr Adroddiad Cwmpasu yn ymrwymo'n glir i asesiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD).</p> <p>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylai'r ES gynnwys asesiad o effaith bosibl y Datblygiad Arfaethedig ar gyrff dŵr WFD. Tynnir sylw'r Ymgeisydd at Nodyn Cyngor Deunaw yr Arolygiaeth: Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn hyn o beth. Mae'r Arolygiaeth hefyd yn cyfeirio'r Ymgeisydd at ymateb CNC i'r ymgynghoriad cwmpasu (Atodiad 2 y Farn hon) ynglŷn â lefelau sensitifrwydd derbynyddion a ddarparwyd yn Nhabl 7-42 yr Adroddiad Cwmpasu a phresenoldeb ecosystemau daearol sy'n dibynnu ar ddŵr daear o fewn yr ardal astudio adnoddau dŵr.</p>

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.9.6	Paragraffau 7.10.30 a 7.10.31	Monitro ansawdd dŵr a modelu hydrolegol/ hydroddaearegol	<p>Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig unrhyw samplu/ monitro ansawdd dŵr nac yn cyfiawnhau'r ymagwedd hon.</p> <p>Dylai'r ES ddisgrifio ansawdd presennol y dŵr y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio arno. O ystyried bod cyrff dŵr o fewn ffin y safle, bod y Datblygiad Arfaethedig wedi'i leoli o fewn nifer o ddalgylchoedd WFD, ac y gallai effeithiau adeiladu newid ansawdd dŵr (fel yr amlygwyd ym mharagraff 7.10.47), dylid monitro ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear i lywio'r wybodaeth sylfaenol ac adrodd ar hynny yn yr ES. Dylid cynnal modelu hydrolegol i ddarparu asesiad cychwynnol o'r newidiadau posibl i'r system hydrolegol o ganlyniad i adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig. Tynnir sylw'r Ymgeisydd at ymateb CNC i'r ymgynghoriad (Atodiad 2 y Farn Gwmpasu hon) ynglŷn â sefydlu rhaglen fonitro ar gyfer camau adeiladu, gweithredu, a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig.</p>
3.9.7	Paragraffau 3.2.21 a 7.3.14	Drilio Cyfeiriadol Llorweddol	<p>Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod posibilrwydd o ddefnyddio Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD) i groesi o dan gyfleustodau claddedig, ffyrdd, perthi a draeniau presennol. Dylai'r ES asesu effeithiau unrhyw ddefnydd o HDD ar dderbynyddion adnoddau dŵr sy'n debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. Petai hylif drilio'n cael ei ddefnyddio wrth adeiladu, dylai cynllun gollwng gael ei gynhyrchu, ei gyflwyno a'i sicrhau yn y cais.</p>
3.9.8	Paragraff 7.10.52	Canllawiau	<p>Tynnir sylw'r Ymgeisydd at ymateb CNC i'r ymgynghoriad (Atodiad 2 y Farn Gwmpasu) ynglŷn â chydymffurfio â'r Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd presennol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, mis Gorffennaf 2004) trwy sicrhau bod y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei gyfeirio tuag at dir addas nad yw mewn perygl o lifogydd.</p>

<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth</b>
3.9.9	Paragraff 7.10.23	Ardaloedd Dŵr Yfed a Warchodir	Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod Cronfa Ddŵr Cefni, sy'n Ardal Dŵr Yfed a Warchodir, wedi'i lleoli'n agos i'r safle. Nid yw paragraff 7.10.23 yn amlygu Cronfa Ddŵr Cefni fel derbynnydd. Dylai'r ES adlewyrchu'r defnydd o Gronfa Ddŵr Alaw a Chronfa Ddŵr Cefni fel y prif ffynonellau dŵr yfed ar gyfer Ynys Môn, a darparu asesiad lle y gallai LSE ddigwydd o ganlyniad i effeithiau ar ansawdd dŵr ar gyfer y derbynnyddion hyn. Dylid gwneud ymdrech i gytuno ar yr ymagwedd a'r derbynnyddion sydd i'w cynnwys yn yr asesiad gyda chyrrff ymgynghori perthnasol.
3.9.10	Paragraff 7.10.19	Derbynnyddion	Nid yw'r Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio at gyflenwadau dŵr daear preifat, er bod sawl un wedi'i leoli yn yr ardal. Er mwyn osgoi amheuaeth, dylai unrhyw gyflenwadau dŵr a ganiateir neu gyflenwadau dŵr preifat y gellid effeithio arnynt gael eu hamlygu a'u cynnwys yn yr asesiad lle y gallai LSE ddigwydd. Tynnir sylw'r Ymgeisydd at ymateb CNC i'r ymgynghoriad cwmpasu yn hyn o beth (Atodiad 2 y Farn hon).
3.9.11	Paragraffau 7.10.44 a 7.10.45	Ansawdd dŵr	Dylai'r ES gynnwys disgrifiad o unrhyw fesurau a gynigir i leihau llygryddion ffo i gyrsiau dŵr cyfagos, er enghraifft, mesurau dylunio neu fesurau arfer gorau i'w sicrhau trwy'r CEMP amlinellol neu yn y strategaeth ddraenio. Dylai'r CEMP amlinellol gyfeirio at y Canllawiau ar gyfer Atal Llygredd 5 (GPP5) a chynnwys mesurau priodol i'w dilyn o GPP5.
3.9.12	Paragraff 7.10.45	Lliniaru ansawdd dŵr – gweithredu	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio at y posibilrwydd y gallai'r Datblygiad Arfaethedig gael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear heb fesurau lliniaru priodol. Dylai mesurau lliniaru gael eu manylu yn yr ES, ynghyd â'r dull a gynigir ar gyfer sicrhau'r rhain yn y DCO. Dylid rhoi manylion unrhyw gemegau sy'n ymwneud â'r BESS, cynlluniau argyfwng ac unrhyw ragofalon a fydd ar waith i ddal

<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth</b>
			unrhyw ddŵr ffo a gynhyrchir wrth ddiffodd tân a sut y byddai dŵr ffo diffodd tân yn cael ei waredu heb achosi llygredd.

### 3.10 Newid yn yr Hinsawdd

(Adran 7.11 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.10.1	Tabl 7-50 a Thabl 8-1	Cadernid Newid yn yr Hinsawdd ac Aseiad o Effeithiau'r Hinsawdd ar y Cyd mewn perthynas â digwyddiadau tywydd eithafol a newidiadau i dymheredd, gwlybanaeth a phatrymau gwynt – gweithredu a datgomisiynu	<p>Mae Tabl 8-1 yn cynnig hepgor y materion hyn ar gyfer y camau gweithredu a datgomisiynu. Mae hyn yn groes i'r wybodaeth a ddarparwyd yn y Bennod ar y Newid yn yr Hinsawdd a Thabl 7-50 yn yr Adroddiad Cwmpasu.</p> <p>Er mwyn osgoi amheuaeth, dylai'r ES ddarparu aseiad o'r materion hyn ar gyfer pob cam o'r Datblygiad Arfaethedig lle y gallai LSE ddigwydd. Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod yr ES yn darparu gwybodaeth gyson drwyddo draw.</p>
3.10.2	Paragraff 7.11.35, Tabl 7-50 a Thabl 8-1	Cynnydd yn lefel y môr – pob cam	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor y mater hwn ar y sail nad yw'r safle wedi'i leoli mewn ardal sy'n agored i gynnydd yn lefel y môr (yn seiliedig ar yr adolygiad o Fap Asesu Perygl Llifogydd Cymru), ac na ragfynegir unrhyw effeithiau ar y cyd â disgyblaethau amgylcheddol eraill.</p> <p>O ystyried tueddiad isel y safle i gynnydd yn lefel y môr, mae'r Arolygiaeth yn cytuno i hepgor y mater hwn o aseiad pellach ar gyfer pob cam.</p>

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.10.3	Paragraff 7.11.9	Aseiad o effeithiau nwyon tŷ gwydr (GHG)	Mae'r Arolygiaeth yn croesawu ymagwedd arfaethedig yr Ymgeisydd ar gyfer asesu effeithiau GHG ar hyd cylch oes y prosiect, ac mae'n credu y dylai'r aseiad hefyd gynnwys:

Rhif	Cyf	Disgrifiad	Sylwadau'r Arolygiaeth
			<ul style="list-style-type: none"> <li>• esboniad o'r camau a gymerwyd i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar bob cam o gylch oes y prosiect;</li> <li>• sut mae'r gostyngiad yn y galw am ynni a'r defnydd ohono yn ystod gweithredu wedi cael ei flaenoriaethu o gymharu â mesurau eraill;</li> <li>• sut mae allyriadau gweithredol wedi cael eu lleihau gymaint â phosibl trwy gymhwyso'r technegau gorau sydd ar gael ar gyfer y dechnoleg benodol honno; a</li> <li>• ph'un a fydd unrhyw allyriadau GHG gweddilliol yn cael eu gwrthbwysu neu eu dileu (yn wirfoddol) gan ddefnyddio fframwaith cydnabyddedig, a sut y bydd hynny'n cael ei wneud.</li> </ul>
3.10.4	Paragraffau 7.11.24 a 7.11.25	Tybiaethau'r asesiad o effeithiau GHG	Dylai'r asesiad o effeithiau GHG yn yr ES ddisgrifio'n glir unrhyw dybiaethau a wnaed wrth benderfynu ar feintoliad unrhyw ostyngiad mewn allyriadau sy'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig, fel disodli cynhyrchu pŵer tanwydd ffosil.
3.10.5	dd/b	Allyriadau GHG a hyblygrwydd dylunio	Lle y ceisir hyblygrwydd ynglŷn â'r mathau o baneli neu fatris yn y Datblygiad Arfaethedig, dylai'r ES gyflwyno asesiad achos gwaethaf ar gyfer yr opsiynau sy'n cael eu hystyried.

### 3.11 Fflachiau a Llacharedd

(Adran 7.12 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
3.11.1	Paragraff 7.12.28	Asesiad manwl o effeithiau fflachiau a llacharedd ar dderbynyddion hedfanaeth dros 5km o'r Safle – pob cam	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnwys derbynyddion hedfanaeth o fewn 30km o'r Safle, ond mae'n cynnig bod asesiad manwl yn cael ei gynnal ar gyfer y derbynyddion hedfanaeth hynny o fewn 5km yn unig (h.y. RAF Mona yn unig). Mae'r Arolygiaeth yn fodlon ar yr ymagwedd hon. Gellir hepgor asesiad manwl o effeithiau fflachiau a llacharedd ar dderbynyddion hedfanaeth dros 5km o'r safle.
3.11.2	Paragraff 7.12.29	Effeithiau fflachiau a llacharedd ar dderbynyddion ar y tir sydd wedi'u lleoli dros 1km o'r Safle – pob cam	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu (paragraff 7.12.10) o'r farn bod ardal astudio 1km ar gyfer derbynyddion ar y tir yn briodol, gan fod hyn wedi'i seilio ar arfer gorau ac wedi cael ei dderbyn yn eang ar draws y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, a'i fod yn cynnwys amrywiaeth o dderbynyddion ar y tir i bob cyfeiriad o'r Safle.</p> <p>Mae'r Arolygiaeth yn cytuno bod effeithiau fflachiau a llacharedd ar dderbynyddion ar y tir sydd wedi'u lleoli dros 1km o'r Safle yn annhebygol o arwain at effeithiau arwyddocaol; gellir hepgor y mater hwn o asesiad pellach.</p> <p>Cynghorir yr ymgeisydd i ddefnyddio'r ZVI sydd i'w ddatblygu ar gyfer yr LVIA i helpu i amlygu derbynyddion sensitif ar y tir a chanddynt olygfeydd posibl o'r safle, y gallai fflachiau a llacharedd effeithio arnynt felly. Dylid gwneud ymdrech i gytuno ar y derbynyddion penodol i'w cynnwys yn yr asesiad gyda chyrff ymgynghori perthnasol. Yn ogystal â derbynyddion preswyl, ffyrdd a PRow, dylai'r ES asesu effeithiau ar asedau treftadaeth ddiwylliannol a'u lleoliadau, lle mae effeithiau arwyddocaol yn debygol. Dylai lleoliadau'r derbynyddion sensitif gael eu dangos ar gynllun cysylltiedig.</p>

<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth</b>
3.11.3	Paragraff 7.12.30	Pennod agwedd annibynnol ar Fflachiau a Llacharedd yn yr ES	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnig hepgor pennod agwedd annibynnol ar Fflachiau a Llacharedd o'r ES. Yn lle hynny, byddai'r Aseiad Fflachiau a Llacharedd yn cael ei amlinellu'n llawn mewn Atodiad Technegol i'r ES a'i grynhoi ym mhennod 'Materion Eraill' yr ES.</p> <p>Mae'r Arolygiaeth yn fodlon ar yr ymagwedd hon. Dylai pennod 'Materion Eraill' yr ES amlygu unrhyw effeithiau arwyddocaol sy'n deillio o fflachiau a llacharedd. Dylai penodau agwedd yr ES (e.e. LVIA, Treftadaeth Ddiwylliannol) groesgyfeirio at yr Aseiad Fflachiau a Llacharedd lle y bo'n berthnasol.</p>
3.11.4	Paragraff 7.12.31	Effeithiau fflachiau a llacharedd – adeiladu a datgomisiynu	Mae'r Arolygiaeth wedi ystyried natur a nodweddion y Datblygiad Arfaethedig ac mae'n cytuno nad yw effeithiau arwyddocaol yn debygol. Gellir hepgor aseiad o effeithiau fflachiau a llacharedd yn ystod adeiladu a datgomisiynu o'r ES.
3.11.5	Paragraff 7.12.32	Effeithiau fflachiau a llacharedd ar dderbynyddion rheilffyrdd – pob cam	Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan nad oes unrhyw dderbynyddion rheilffyrdd wedi'u lleoli o fewn 1km o'r Safle ac felly na ddisgwylir unrhyw effeithiau arwyddocaol ar dderbynyddion rheilffyrdd. Mae'r Arolygiaeth yn cytuno nad yw effeithiau arwyddocaol yn debygol ac y gellir hepgor effeithiau fflachiau a llacharedd ar dderbynyddion rheilffyrdd o aseiad pellach.

<b>Rhif</b>	<b>Cyf</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth</b>
3.11.6	dd/b	dd/b	dd/b

### 3.12 Materion Economaidd-gymdeithasol

(Adran 7.13 yr Adroddiad Cwmpasu)

Rhif	Cyf	Materion y mae'r Ymgeisydd yn cynnig eu hepgor	Sylwadau'r Arolygiaeth
The Council acknowledges that it has no powers to compel developers to provide voluntary community benefit contributions; and that they must be seen by developers to be affordable in terms of the overall costs and profits of their projects over their lifecycles. However, there remains a clear and strong expectation from both the Council and the local community for the proposed solar farm to provide a significant and long-term voluntary community benefits to the host community in line with the application of the proximity principle for the lifetime of the project.

The application of the proximity principle ensures that benefits are focused on those communities that host and feel the impact and burden of the development across its lifetime (construction, operation and decommissioning).

## **11.2 Collaborative Benefit Report**

The Welsh Government views a Collaborative Benefit Report as a practical tool to improve transparency throughout the development process and increase the participation of all stakeholders. The Council recommends that a report is prepared to support the planning application.

The Report should detail the engagement journey and include a record of dialogue on local and shared ownership. Welsh Government draft guidance on Local Ownership indicates that the Collaborative Benefits Report should be submitted as evidence of good practice and local support, alongside the main planning application documents. This is in line with the requirement of Planning Policy Wales (PPW) for applications to demonstrate the full benefits of development.

The Report is a useful tool to demonstrate the social, economic, environmental and cultural benefits that the proposed development could and therefore giving the decision maker, consultees and the local community the comfort that the proposed collaborative benefits which are identified are realistic, securable and deliverable and should be weighed in the planning balance. It also provides an overview of the engagement that has taken place (and its outcomes) with local communities to try and identify opportunities for local.

The Council would welcome the opportunity to discuss the community benefits proposal

---

<sup>8</sup> [Community Benefit Contributions Strategy \(gov.wales\)](#)

further with the applicant. The Council notes the confirmation that the development includes a 5MW community solar.

For other low carbon energy developments on the island a legacy community benefit fund has been established which is paid into annually for the duration of the operational phase. The Council considers this to be an effective mean of providing meaningful and rewarding form of benefits that can have a positive impact on the well-being, quality of life and sustainability of the host community.

As confirmed above, the Council in its approach to benefits requires the proximity principle to be applied to ensure that those communities that are mostly affected by all phases of the development are the ones who receive meaningful rewards from the developer (be it financial and/or in-kind contributions) in recognition of the burden, disruption and inconvenience being imposed on the communities from hosting their development. The Council therefore expects the community benefit for the proposed development to be provide meaningful reward to the local host community.

The Council strongly recommends that the applicant consults with the relevant Community Councils' with respect to the Collaborative Benefit Report and the benefits identified within at the earliest convenience.

## **12. Decommissioning**

The Council notes that decommissioning is anticipated to take approximately 6 to 12 months and The Site would be reinstated in accordance with a Decommissioning Environmental Management Plan (DEMP) which would need to be approved by the Council under a DCO requirement.

The Council agrees with the applicant that detail in relation to decommissioning is best agreed under condition.

The IACC requires confirmation that appropriate funds will be available to ensure that decommissioning of the development can take place at the end of the 60 year operational period and is carried out in accordance with the agreed scheme.

In this regard, the Councils seeks confirmation that a suitable bond is in place to ensure that sufficient monies will be available to decommission the project in accordance with the decommissioning plan.

The Council also considers it necessary to ensure that if the developer cease to trade, the removal of the development and appropriate restoration works can be achieved.

This approach accords with national planning policy which recognizes that local planning authorities, in addition to a condition, may require a financial guarantee to be put in place.

The Council would be grateful of further engagement with regards to matters concerning decommissioning.

## **13. Assessment of Cumulative Effects**

As part of the ES there will be a need for an appropriate and comprehensive Cumulative Impact Assessment which will need to consider the impacts of the proposed project cumulatively with other operational, consented or reasonable foreseeable projects.

The Council would welcome the opportunity to agree those projects that are to be included in such an Assessment with the applicant.

There are a number of other major development proposals proposed or recently consented on the Island which include solar farm and BESS projects which are similar in scale, nature and location to the proposed Maen Hir Project.

As a means to highlight a small number of relevant (potentially) cumulative projects that could give rise to a combination of effects, the applicant should refer to the Alaw Mon Solar farm project<sup>9</sup> and the Carrog Ganol BESS facility<sup>10</sup>.

The proposed Alaw Mon project is to take place in very close proximity to the proposed development and the Council is concerned with regards to the potential cumulative impacts of both projects. This applies in particular in relation to the following impacts (but not limited to);

- Landscape and Visual
- Traffic and Transport
- Environment
- Welsh language and culture including Sense of Place, tourism and agriculture
- Public Protection including noise, vibration, air quality and lighting impacts

The Council at the earliest convenience would welcome the opportunity to comment on a list of projects that need to be included in the projects Cumulative Impact Assessment.

#### **14. Community Engagement**

Should the proposed development be consented the Council requires confirmation that effective and meaningful community engagement will take place throughout the construction period in particular.

This should include the opportunity for the local community impacted by the construction phase to be fully informed as to the construction programme, any road closures, deliveries to site etc. The Council recommends that this takes place through setting up a Community Liaison Group, use of social media/project website as well as a having a Community Liaison Officer in place who is contactable in order to discuss and raise concerns.

The Council requires this to be a commitment secured within the application management plans.

The Council also advocates effective and appropriate engagement with those communities that have the potential to be affected by the proposal throughout the pre-application and application engagement phase and for their comments to be fully taken into consideration as your proposals are finalised.

---

<sup>9</sup> [Home | Alaw Mon Solar Farm \(alaw-mon-solar-farm.co.uk\)](http://alaw-mon-solar-farm.co.uk)

<sup>10</sup> [Planning Application: FPL/2023/218 \(site.com\)](http://site.com)

To confirm once again, and as confirmed since our very initial engagement, the Council's support for the project is dependent on the confirmation of a sustainable form of development that has minimal impact on the environment and where the local socio-economic benefits and opportunities are fully maximized and appropriately secured. In this respect the applicant will need to show how the proposals align with the vision of the EIP, Council Plan, relevant policies of the Joint LDP as well as consideration of the likely cumulative effects with other projects.

The Council also confirms that it wishes to continue to engage with the applicant as it continues to develop the details as to the proposed development.

Yours sincerely



**Christian Branch**

Pennaeth Gwasanaeth – Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd  
Head of Service - Regulation and Economic Development Service

**Appendix 1 – List of all relevant Joint Local Development Plan (JLDP) Policies**

PS 1	Language and culture;
PS 2	Infrastructure and Developer Contributions;
ISA 1	Infrastructure Provision;
TRA 1	Transport Network Developments;
TRA 4	Managing Transport Impacts;
PS 5	Sustainable Development;
PS 6	Alleviating and Adapting to the Effects of Climate Change;
PCYFF 2	Development Criteria;
PCYFF 3	Design and Place Shaping;
PCYFF 4	Design and Landscaping;
PCYFF 6	Water Conservation;
PS 7	Renewable Energy Technology;
ADN 2	PV Solar energy;
ADN 3	Other Renewable Energy and Low Carbon Technologies
PS 13	Providing Opportunity for a Flourishing Economy;
PS 19	Conserving and where appropriate enhancing the natural environment;
AMG 3	Protecting and enhancing features and qualities that are distinctive to the local landscape character;
AMG 5	Local biodiversity conservation;
AMG 6	Protecting sites of regional or local significance;
PS 20	Preserving and where appropriate enhancing heritage assets;
AT 3	Locally or regionally significant non-designated heritage assets;
AT 4	Protection of non-designated archaeological sites and their setting.
CYF1	Safeguarding, allocating and reserving land and units for employment uses
CYF 5	Alternative use of existing employment sites



Planning Inspectorate  
Environmental Services  
Operations Group 3  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bristol  
BS1 6PN

**CHRISTIAN BRANCH** B.Sc., P.G. Dip  
Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro – Rheoleiddio a  
Datblygu Economaidd  
Interim Head of Service - Regulation and Economic  
Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre  
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park  
LLANGFNI  
Ynys Môn • Isle of Anglesey  
LL77 7XA

Gofynnwch am / Please ask for: PMO  
E-bost / Email: [PMO@ynysmon.llyw.cymru](mailto:PMO@ynysmon.llyw.cymru)  
Ein Cyf / Our Ref:  
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 11<sup>eg</sup> Rhagfyr 2023

Annwyl Syr / Madam,

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**  
**Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016**  
**(Fel y'i Diwygiwyd)**  
**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017**

**Enw'r Prosiect:** Prosiect Solar a Storio Ynni Maen Hir

**Datblygiad Arfaethedig:** Adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu gorsaf gynhyrchu trydan solar ffotofoltaig (PV) gyda chapasiti o dros 350MW (megawat), a datblygiad cysylltiedig, gan gynnwys System Storio Ynni Batri (BESS) o hyd at 360MW ac arae solar PV cymunedol ~5MW.

Diolch am ofyn am gyngor gan Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol yng nghyswllt cwmpas yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer datblygiad arfaethedig prosiect Solar a Storio Ynni Maen Hir.

Y Cyngor yw'r Awdurdod Lletyol Lleol ar gyfer y prosiect, a hwn fyddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) perthnasol at ddibenion cyflawni amodau cynllunio a monitro cydymffurfiaeth yng nghyswllt unrhyw gydsyniad DCO a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y prosiect. Y Cyngor fyddai'r Awdurdod Priffyrdd Lleol hefyd ar gyfer unrhyw dir priffyrdd a nodir o fewn ardal y prosiect.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi cael y cyfle i adolygu'r Adroddiad Cwmpasu a'i fod yn cyflwyno'r sylwadau a ganlyn mewn perthynas â chwmpas arfaethedig yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA).

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod yn bryderus iawn ynghylch nifer a graddfa'r cynigion ar gyfer ffermydd solar a systemau storio ynni batri ar yr ynys. Yn arbennig, mae'r pryderon hyn yn cynnwys effeithiau cronus prosiectau arfaethedig Fferm Solar Maen Hir a Fferm Solar Alaw Môn sy'n debyg o ran eu maint, eu natur a'u lleoliad, ac sydd â'r potensial i gael effeithiau cronus arwyddocaol ar yr un cymunedau lletyol. Mae'r effeithiau'n cynnwys effeithiau ar y dirwedd a rhai gweledol, a'r rheiny yng nghyswllt traffig a thrafnidiaeth, yr amgylchedd, yr laith

Gymraeg, ei diwylliant a'r ymdeimlad o le, yn ogystal ag effeithiau ar sectorau twristiaeth ac amaethyddiaeth yr ynys, sy'n rhan annatod o'r economi leol.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi bod yn cynnal trafodaethau â'r ymgeisydd ynghylch prosiect Maen Hir o'i gyfnod dylunio cynnar ymlaen, ac mae'n gobeithio y bydd yr ymgysylltiad hwn yn parhau fel y bydd rhagor o fanylion mewn perthynas â'r prosiect, gan gynnwys yr AEA ac asesiadau ategol, ar gael i ni eu hadolygu a chyflwyno sylwadau yn eu cylch. Mae'r Cyngor yn cadarnhau hefyd ei fod y barod i drafod y sylwadau a godir yn yr ymateb hwn yn uniongyrchol gyda PINS a'r ymgeisydd, fel y bo'n berthnasol.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau nad yw'r cyngor a ganlyn yn rhagfarnu sefyllfa'r Cyngor o ran y prosiect arfaethedig, gan gynnwys cyngor y Cyngor ar ôl derbyn rhagor o wybodaeth neu wybodaeth fanylach, gan gynnwys Datganiad Amgylcheddol (DA).

Mae'r Cyngor yn nodi bod y prosiect yn cynnwys adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw a datgomisiynu gorsaf gynhyrchu trydan solar ffotovoltaig (PV) gyda chapasiti o dros 350MW (megawat), a datblygiad cysylltiedig, gan gynnwys System Storio Ynni Batri (BESS) o hyd at 360MW ac arae solar PV cymunedol ~5MW.

Mae'r Adroddiad Cwmpasu'n cadarnhau y caiff Is-orsaf 400kV newydd y Grid Cenedlaethol (Is-orsaf y Grid Cenedlaethol) gydsyniad ar wahân gan system Trawsyrro Trydan y Grid Cenedlaethol (NGET) ac nad yw'r Grid Cenedlaethol hyd yma wedi canfod y lleoliad ar gyfer yr Is-orsaf 400kV newydd hon. Fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, byddai'r Cyngor yn ddiolchgar am y cyfle i fod yn rhan o'r trafodaethau hyn ar y cyfle cyntaf.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r cadarnhad y bydd ceblau cysylltu'r grid ar gyfer Is-orsaf y Grid Cenedlaethol yn cynnwys ceblau 400kV o fewn ffos, a fydd yn hyd at 2.5m o ran dyfnder. Mae aliniad a llwybr Coridor y Cysylltiad â'r Grid yn cael ei ystyried o fewn Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu, a chaiff ei fireinio trwy gydol y cyfnod y bydd y Prosiect yn mynd ymlaen trwy'r PEIR a'r Datganiad Amgylcheddol. Unwaith eto, byddai'r Cyngor yn croesawu rhagor o ymgysylltiad ynghylch llwybr y ceblau unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Rhagwelir y bydd y cyfnod adeiladu yn mynd ymlaen dros hyd at ddau gyfnod dilyniannol, gyda'r rhaglen derfynol yn ddibynnol ar ddyluniad manwl y cynllun, ynghyd â'r cyfyngiadau amgylcheddol posibl o ran amseriad gweithgareddau adeiladu, a cheir manylion ynghylch hyn yn y Datganiad Amgylcheddol. Byddai'r Cyngor yn dymuno cael gwell dealltwriaeth o'r rhaglen adeiladu a'r effeithiau cysylltiedig unwaith y bydd y wybodaeth hon ar gael.

Cynigir y bydd cyfnod gweithredol y prosiect yn para am 60 mlynedd. Yn ystod y cyfnod gweithredol, byddai'r gweithgareddau ar y safle'n cynnwys gwaith gwasanaethu arferol, gweithgareddau cynnal a chadw a gosod offer newydd fel y bo angen, yn ogystal â rheoli llystyfiant.

Mae'r Cyngor yn nodi'r cadarnhad, er mwyn cynnal hyblygrwydd o ran y dyluniad a'r cynllun, y bydd y prosiect yn mabwysiadu ymagwedd Amlen Rochdale trwy nodi amrediadau'r paramedrau a ddiffinnir ym mhennod y Disgrifiad o'r Prosiect yn y Datganiad Amgylcheddol. Mae'r Cyngor yn croesawu'r cadarnhad y caiff y paramedrau eu hystyried yn fanwl gan awduron technegol yn y Datganiad Amgylcheddol, i sicrhau y caiff effeithiau realistig y prosiect o ran y senario waethaf eu hasesu ar gyfer pob derbynydd posibl.

Felly byddai cynllun adeiladu terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fel rhan o'r gofynion DCO. Mae'r Cyngor yn cadarnhau y byddai angen i'r cynllun adeiladu terfynol ddangos y modd y byddai'r dyluniad yn ei ffurf derfynol yn cadw o fewn paramedrau unrhyw ganiatâd a roddir ar gyfer y datblygiad.

## 1. Safbwynt cyffredinol y Cyngor o ran datblygiadau carbon isel

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n gryf i hyrwyddo, cefnogi a hwyluso cynnydd yn y sector ynni carbon isel trwy'r Rhaglen Ynys Ynni (RhYY)<sup>1</sup>.

Mae RhYY Ynys Môn wedi bod ar waith am gyfnod o dros 10 mlynedd. Fe'i sefydlwyd i sicrhau y gall Ynys Môn fod 'yn esiampl i eraill wrth bontio at economi carbon-isel ffyniannus a gwydn, sy'n creu cyfleoedd ar gyfer gwaith, addysg a swyddi cadwyn gyflenwi o ansawdd uchel, gan hefyd warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a chynorthwyo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant i fyfnu mewn cymunedau llawn asbri.'

Roedd y Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020, gan wneud ymrwymiad i ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030. Ym mis Mawrth 2022 cafodd y 'Cynllun Tuag at Sero Net 2022 i 2025'<sup>2</sup> ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor, sy'n amlinellu ei ymrwymiad i'r argyfwng hinsawdd, a'r modd y mae'n bwriadu trawsnewid i ddod yn sefydliad sero net. Tra bo'r Cynllun yn canolbwyntio ar leihau allyriadau'r Cyngor, mae'n cydnabod hefyd y modd y mae gan y Cyngor rôl bwysig mewn cydweithredu â sefydliadau eraill a busnesau ar hyd a lled yr ynys trwy addasu a gwneud penderfyniadau a chymryd camau cytbwys, uniongyrchol ac anuniongyrchol, trwy gyfrwng y broses cynllunio defnydd tir, ymhlith pethau eraill.

Mae'r Cynllun yn cyfeirio'n benodol at y Rhaglen Ynys Ynni ac yn nodi, o ran y modd y cyflenwir y Rhaglen, efallai na fydd yn cael effaith uniongyrchol ar allyriadau carbon y Cyngor, ond y dylai ei ganlyniadau gefnogi ymdrechion y Cyngor i bontio at ddod yn sefydliad sero net.

Mae'r Cyngor yn nodi y byddai prosiect Maen Hir yn cynorthwyo i wireddu gweledigaeth drosfwaol ei Raglen Ynys Ynni yn nhermau cynhyrchu ynni carbon isel, ac felly'n cyfrannu tuag at darged sero net 2050 y DU yn ogystal â helpu i gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel. Cydnabyddir hefyd bod cyflawni llwybr carbon isel i Gymru yn cyfrannu at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, ers ei ymgysylltiad cychwynnol â phrosiect Maen Hir, mae'r Cyngor wedi cadarnhau bod cefnogaeth y Cyngor yn ddibynnol ar gadarnhau math cynaliadwy o ddatblygiad sy'n cael cyn lleied o effaith ar yr amgylchedd ag y bo modd, sy'n sicrhau y byddir yn manteisio'n llawn ar y buddion a'r cyfleoedd economaidd-gymdeithasol i'r ardal leol, a'u bod yn cael eu sicrhau mewn modd priodol. Gwneir hyn i gydweddu â gweledigaeth y RhYY, Cynllun y Cyngor a pholisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd).

Fel rhan o'i ymagwedd tuag at ddatblygiadau mawr, mae'r Cyngor yn dymuno defnyddio'r hierarchaeth lliniaru sy'n cynnwys, yn y lle cyntaf, rhoi ystyriaeth i ganfod mesurau lliniaru er mwyn osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol, ac os nad yw'n bosibl osgoi effeithiau niweidiol, yna dylai mesurau i leihau'r effeithiau hyn gael eu hystyried, eu cytuno a'u sicrhau mewn modd addas.

Ni ddylid ond ystyried gwneud iawn am effeithiau, cymryd camau i wella'r effeithiau oddi ar y safle a/neu wneud gwaith adfer yng nghyswllt effeithiau os nad yw'n rhesymol bosibl i osgoi neu leihau effeithiau arwyddocaol.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Ynys Môn a Gwynedd) (y CDLI ar y Cyd)<sup>3</sup> yn darparu fframwaith polisi cynllunio defnydd tir yr Ynys ac yn cadarnhau pwysigrwydd sicrhau, lle bynnag y bo'n ddichonadwy ac yn hyfyw, bod ardal y cynllun yn gwireddu ei botensial fel ardal

<sup>1</sup> Gwefan Rhaglen Ynys Ynni CSYM (Dolen)

<sup>2</sup> Y Newid yn yr Hinsawdd (llyw.cymru)

<sup>3</sup> Y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Cyfredol (llyw.cymru)

arweiniol ar gyfer mentrau sy'n seiliedig ar dechnolegau adnewyddadwy neu ynni carbon isel (Polisi Strategol PS 7: Technoleg Ynni Adnewyddadwy, ADN 2: Ynni PV Solar, ADN 3: Technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel arall a PS 13: Darparu cyfle ar gyfer economi ffyniannus).

Heb unrhyw amheuaeth, mae gan Ynys Môn, fel ynys, Naws am Le unigryw ac arbennig iawn. Mae'r laith Gymraeg yn llinyn euraidd, sy'n gwau hanes a threftadaeth, yn creu ymdeimlad cryf o gymuned, llesiant, y tir a'r dirwedd sydd wedi gwasanaethau'r gymuned dros y canrifoedd - sy'n allweddol i gynnal yr economi amaethyddol a chefnogi'r diwydiant twristiaeth, sy'n hanfodol o ran cynaliadwyedd economaidd yr ynys.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod yn disgwyl y bydd unrhyw ddatblygwr sy'n dymuno datblygu ar yr ynys yn cydnabod y nodweddion unigryw ac arbennig hyn yn llawn ac yn eu cefnogi a'u hybu.

## **2. Ystyriaethau o ran Polisiâu**

### **2.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol**

### **2.2 Cymru'r Dyfodol**

Ar 24 Chwefror 2021, cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru ac mae'n ffurfio rhan o'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol<sup>4</sup>.

Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod bod gan Gymru nifer helaeth o gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wneud y gorau o'r potensial hwn. Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn rhan allweddol o'u hymrwymiad i ddatgarboneiddio a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn cyfeirio at y targedau uchelgeisiol a osodwyd gan y Llywodraeth ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Mae Polisi 17 - 'Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig' yn darparu safbwynt cadarnhaol o ran polisi gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, ac yn mynd ymlaen i roi dimensiwn gofodol y polisiâu sy'n berthnasol i barciau cenedlaethol, AHNEau a'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw. Mae'r Polisi'n cadarnhau y dylai'r cynigion sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol annerbyniol sylweddol ar yr amgylchedd naturiol a chymunedau lleol o amgylch datblygiad ac y dylai'r datblygiad ddisgrifio'r buddion net o ganlyniad i'r cynllun, yn nhermau gwella cymunedau lleol o safbwynt cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae Polisi 18 – 'Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn ymwneud â datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fawr (o faint Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC)) ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae wedi'i fframio'n gadarnhaol tuag at sicrhau mai caniatáu prosiectau yw'r man cychwyn, yn amodol ar gydymffurfiaeth â pholisi 17 a'r meini prawf a gynhwysir ym mholisi 18.

Mae'r meini prawf a nodir o dan Polisi 18 yn datgan y dylid rhoi ystyriaeth i effaith y cynnig ar y dirwedd, cymunedau cyfagos ac anheddau unigol, safleoedd dynodedig, bioamrywiaeth, treftadaeth adeiledig, adlewyrchiad golau, cyfleusterau a gweithrediadau amddiffyn, y rhwydwaith cludiant ac effaith gronnsus y cais. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ddefnyddio a rheoli adnoddau mewn modd cynaliadwy a bod darpariaethau o ran datgomisiynu ac adfer

<sup>4</sup> [Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 | LLYW.CYMRU](#)

## 2.3 Polisi Cynllunio Cymru

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Argraffiad 11 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC)<sup>5</sup> yn Chwefror 2021 a oedd yn rhoi ystyriaeth i ddogfen Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n ymgorffori saith nod llesiant.

Mae PCC yn darparu'r polisi cynllunio trosfwaol ar lefel genedlaethol ar gyfer Cymru, ac mae'n ystyriaeth berthnasol ochr yn ochr â Cymru'r Dyfodol. Mae'n ceisio cefnogi'r gofyniad am ddatblygu cynaliadwy trwy'r system gynllunio, lle mae'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy yn ffurfio'r rôl drosfwaol ynghyd â safbwynt cadarn ar wella lles y boblogaeth.

Mae PCC yn nodi'r polisiâu cynllunio penodol ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy ar hyd a lled Cymru. Mae Ffigur 4 yn nodi egwyddorion cynllunio allweddol y polisi cenedlaethol hwn, gan nodi "Mae gan y system gynllunio ran hanfodol i'w chwarae i sicrhau bod datblygiad yn gallu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid, ac i ddatgarboneiddio cymdeithas a datblygu economi gylchol er lles yr amgylcheddau adeiledig a naturiol a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant."

Mae Pennod 5 (Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus) yn nodi polisiâu Llywodraeth Cymru o ran Creu Lleoedd Mentrus a Llesiant ar hyd a lled Cymru. Un o'r nodau allweddol yng nghyswllt ynni yw:

- *Cymru i gynhyrchu 70% o'r trydan y mae'n ei ddefnyddio o ynni adnewyddadwy erbyn 2030;*
- *Un Gigawat o'r capasiti trydan adnewyddadwy yng Nghymru i fod o dan berchnogaeth leol erbyn 2030; a*
- *Mynd ati i reoli'r gwaith o bontio i economi carbon isel.*

Mae paragraff 5.7.6 yn nodi'r modd y "Dylai'r system gynllunio sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni sy'n cynyddu'r manteision i'n heconomi a'n cymunedau ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol yr un pryd. Mae hyn yn rhan o nod Llywodraeth Cymru i sicrhau'r polisiâu datblygu economaidd cryfaf fel sail i dwf a ffyniant yng Nghymru, gan gydnabod pwysigrwydd datgarboneiddio a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel sbardun economaidd ac fel ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy".

Mae paragraff 5.9.19 yn datgan: "Wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer yr amrywiaeth o dechnolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel, dylai awdurdodau cynllunio ystyried:

- *cyfraniad y cynnig at gyflawni targedau Cymru, y DU ac Ewrop a'r potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy;*
- *y cyfraniad at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr; a*
- *y manteision a'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel"*

Mae paragraff 5.9.20 yn datgan: "Dylai awdurdodau cynllunio nodi a mynnu ffyrdd addas o osgoi, lliniaru neu wneud iawn am effeithiau andwyol datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dylai cynigion ar gyfer eu hadeiladu, eu rhedeg, eu datgomisiynu, eu trwsio ac ôlofalu amdanynt, ystyried:

- *yr angen i leihau effeithiau ar gymunedau lleol, megis trwy lygredd sŵn ac aer, er mwyn diogelu ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;*
- *yr effaith ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol;*
- *effaith gronnydd;*

<sup>5</sup> [Polisi Cynllunio Cymru | LLYW.CYMRU](#)

- *capasiti'r rhwydwaith cludiant, a'r effeithiau ar y rhwydwaith hwnnw;*
- *materion yn ymwneud â'r cysylltiad grid lle cynigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan); ac*
- *effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar leoliad a dyluniad datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, y modd y caiff ei adeiladu a'r modd y caiff ei weithredu”.*

Hefyd mae Pennod 5 yn amlinellu, cyn cyflwyno cais "...dylai datblygwyr datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel, lle medrir, ystyried sut i osgoi effeithiau andwyol neu fan leiaf eu lleihau, trwy ystyried yn ofalus leoliad, graddfa, dyluniad a mesurau eraill”.

Mae'n annog datblygwyr i fynd ati'n weithredol i ymgysylltu â'r gymuned leol yng nghyswllt cynigion ar gyfer ynni adnewyddadwy. Dylai hyn gynnwys trafodaethau cyn gwneud cais a darparu gwybodaeth gefndirol am y dechnoleg ynni adnewyddadwy arfaethedig.

Mae PCC yn cadarnhau disgwyliad Llywodraeth Cymru i bob prosiect ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru gynnwys o leiaf un elfen o berchnogaeth leol, er mwyn cadw cyfoeth o fewn cymunedau a darparu budd gwirioneddol iddynt. Mae datblygiadau cynhyrchu ynni a berchnogir yn lleol yn darparu cyfle cryf i gadw gwerth economaidd, gan gyfrannu at ffyniant.

Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy. Yn y Ddeddf, mae "datblygu cynaliadwy" yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n anelu at gyflawni'r nodau llesiant.

Mae'r Cyngor yn gofyn i'r cais ddangos yn glir sut y mae'r datblygiad arfaethedig yn cyflawni'r nodau llesiant fel y diffinnir hwy gan y Ddeddf, er mwyn dangos ei fod yn fath cynaliadwy o ddatblygu.

## **2.4 Polisi Cynllunio Lleol**

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (y CDLI ar y Cyd) yw'r cynllun datblygu lleol presennol ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd, a fabwysiadwyd ar 31<sup>ain</sup> Gorffennaf 2017. Penderfynwyd yn ddiweddar y caiff Cynlluniau Datblygu Lleol eu paratoi ar wahân ar gyfer Cynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd. Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar gamau cynnar y paratodau ar gyfer llunio'r Cynllun.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod pob parcel o dir sy'n ffurfio rhan o'r cais wedi'i leoli y tu allan i unrhyw ffiniau datblygu o fewn y CDLI ar y Cyd, ac ni chafodd unrhyw un o ardaloedd y safle eu neilltuo ar gyfer defnydd penodol yn y CDLI ar y Cyd. Lleolir y safleoedd mewn ardal gefn gwlad agored y tu allan i AHNE Ynys Môn.

Yng nghyswllt cais ar gyfer fferm solar, y polisiau allweddol o fewn y CDLI ar y Cyd yw polisi strategol PS 7 'Technoleg Ynni Adnewyddadwy', polisi ADN 2 'Ynni PV Solar' ac ADN 3 (Technoleg Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel Arall).

Mae Polisi Strategol PS 7 yn hyrwyddo technolegau ynni adnewyddadwy os ydynt yn cydymffurfio â'r meini prawf o fewn y Polisi. O safbwynt y cynnig penodol hwn, dylid ystyried meini prawf (4) a (5) o'r Polisi hwn:

*'Cefnogi gosod cyfarpar tu allan i ardaloedd wedi'u dynodi, cyn belled nad yw'r cyfarpar yn achosi niwed sylweddol y gellir ei brofi i gymeriad y dirwedd, bioamrywiaeth, neu fwynder llety neu lety gwyliau, naill ai yn unigol neu'n gronnus.'*

Mae Polisi ADN 2 yn datgan y dylai ceisiadau am Ffermydd PV Solar o 5MW neu fwy gael eu cyfeirio tuag at ardaloedd chwilio posibl a ddangosir ar y Map Cynigion. Ni fydd cynigion ar y raddfa hon ond yn cael eu caniatáu mewn lleoliadau eraill mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo modd cyfiawnhau'r angen am y cynllun ac o dan amgylchiadau lleoliadol arbennig. Yn ychwanegol i'r gofyniad hwn, dylai cynigion fodloni'r meini prawf o fewn y Polisi.

Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLI ar y Cyd, bu rhaid i'r Cyngor ymgymryd ag astudiaeth yng nghyswllt y potensial o ran clustnodi ardaloedd cyfleoedd ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy neu dechnolegau carbon isel eraill. Gwnaed hyn mewn ymateb i'r llythyr, dyddiedig 10 Rhagfyr 2015, gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yng ngolau diweddariad i'r 'Canllaw Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Pecyn Cymorth i Gynllunwyr' (Medi 2015).

Roedd gwaith cychwynnol, a ddefnyddiodd drothwy safleoedd o 0.5MW neu fwy, wedi canfod 36 o safleoedd posibl o fewn ardal y Cynllun. Roedd maint trothwy diwygiedig o 5MW neu fwy (sef y maint a ddefnyddir yn y pecyn cymorth) yn golygu y canfuwyd 11 o safleoedd, a gwelir y rhain o fewn Tabl 11 yn y testun eglurhaol ar gyfer Polisi ADN 2 fel ardaloedd cyfle posibl. Nid dyraniadau mo'r rhain, ond ardaloedd lle dylid cyfeirio cynigion o'r fath.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau nad yw yr un o ardaloedd y safle wedi'u cynnwys o fewn yr ardaloedd cyfle posibl a nodwyd, ac felly, yn unol â gofynion polisi ADN 2, ni ddylid ond caniatáu cynnig o'r fath mewn lleoliadau o'r fath mewn amgylchiadau eithriadol, lle gellir cyfiawnhau'r angen am y cynllun, a bod amgylchiadau lleoliadol penodol.

Yn nhermau'r angen am y cynllun, fel y yr eglurwyd gan Lesley Griffiths (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig) mewn llythyr, dyddiedig 7 Awst 2017: "Nid yw'r mater o ddangos yr angen am ynni adnewyddadwy wedi'i amlygu erioed fel ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio ac mae'r prif agweddau hanfodol o ran cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy i leihau effaith y newid yn yr hinsawdd a chyflawni ein targedau datgarboneiddio yn hollbwysig yn y cyswllt hwn."

Mae'r angen am y cynnig yn nhermau Polisi ADN 2 yn cyfeirio at y gofyniad i gyfiawnhau ardaloedd amgen i'r ardaloedd cyfleoedd posibl a nodir yn y Cynllun, yn hytrach na chwestiynu'r angen penodol am ffermydd PV solar ychwanegol.

Yng ngolau'r uchod, bydd rhaid cefnogi'r cyflwyniad ffurfiol gyda chyfiawnhad o'r angen am y cynllun, gan amlinellu pam na chafodd yr ardaloedd cyfle posibl a nodwyd yn y CDLI ar y Cyd eu hystyried gan yr ymgeisydd a/neu'r materion a oedd yn effeithio'r modd y gellir rhoi'r ardaloedd cyfle hyn ar waith. Yn ogystal â hyn, dylai cyfiawnhad o'r fath amlinellu'r amgylchiadau lleoliadol penodol a arweiniodd at ganfod y parseli penodol o dir sy'n rhan o'r cais yn seiliedig ar broses dewis safle. Mae'r Cyngor yn argymhell y dylid darparu'r wybodaeth hon mewn Adroddiad Dewis Safle.

Mae polisi ADN 2 hefyd yn cadarnhau'r angen i unrhyw fath o ddatblygiad gwynt neu solar gydymffurfio â'r meini prawf a ganlyn:

1. *Bod yr holl effeithiau ar gymeriad y dirwedd, asedau treftadaeth ac adnoddau naturiol wedi'u lliniaru yn ddigonol, gan sicrhau bod nodweddion arbennig holl ddynodiadau tirwedd, bioamrywiaeth a threftadaeth o bwysigrwydd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys, lle bo'n briodol, yn eu lleoliadau yn cael eu diogelu neu eu gwella;*
2. *Ni fydd y cynnig yn arwain at niwed sylweddol i ddiogelwch neu fwynderau derbynyddion sensitif gan gynnwys effaith gan fflachio a llacharedd ac ni fydd yn cael effaith annerbyniol ar ddiogelwch ffyrdd, rheilffyrdd nac awyrennau;*

3. *Ni fydd y cynnig yn arwain at niwed sylweddol i fwynderau gweledol preswyl trigolion cyfagos;*
4. *Ni fydd y cynnig yn cael effeithiau cronus annerbyniol mewn perthynas â ffermydd PV solar cyfredol a'r rhai sydd â chaniatâd, ac unrhyw nodweddion amlwg eraill yn y dirwedd.*

Mae polisi ADN 3 (Technoleg Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel Arall) o'r CDLI ar y Cyd hefyd yn berthnasol i agwedd Storio Ynni Batri'r datblygiad. Mae'r polisi'n nodi y caniateir cynigion ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel, heblaw am ynni gwynt neu solar, sy'n cyfrannu at ddyfodol carbon isel, os yw'r cynnig yn cydymffurfio â'r meini prawf penodol a nodir o dan y polisi.

Yn Atodiad 1, cynhwysir rhestr lawn o'r holl bolisiâu perthnasol a gynhwysir yn y CDLI ar y Cyd sy'n berthnasol ac sydd angen eu hystyried fel rhan o unrhyw gais. Rhoddir sylw isod hefyd i'r ystyriaethau hyn o ran polisiâu, yng nghyswllt meysydd testun penodol.

## **2.5 Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn**

Mae'r Cyngor wedi paratoi Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn er mwyn canfod rhaglen o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag anghenion Gogledd Ynys Môn.

Mae'r Cynllun yn ymateb i'r heriau economaidd a wynebwr gan Ogledd Ynys Môn o ganlyniad i ddiffyg cyfleoedd cyflogaeth fel y mae busnesau'n penderfynu cau neu symud, ynghyd â datgomisiynu Gorsaf Bŵer Wylfa a'r ffaith bod Horizon wedi tynnu Prosiect Wylfa Newydd yn ôl.

Y Weledigaeth ar gyfer y cynllun, erbyn 2026, yw y bydd Gogledd Ynys Môn wedi datblygu gwell cyfleoedd o gyflogaeth ac isadeiledd ategol sy'n gwneud y gorau o'i amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig, yn ategu cymeriad yr ardal ac yn hybu llesiant, cydlyniant cymunedol, yr iaith Gymraeg ac ansawdd bywyd. Bydd yr ardal yn lle deniadol i fyw, gweithio ac ymweld â hi.

Nid yw'r Cynllun Adfywio yn bodoli ar wahân. Mae'n adlewyrchu nifer o gynlluniau a pholisiâu ar y lefel genedlaethol a lleol, ac yn cael eu llywio ganddynt (gweler adran 5 o'r Cynllun).

Bydd y Cyngor yn gofyn am gadarnhad o ran y modd y mae'r cynnig yn cydweddu â'r weledigaeth a'r camau gweithredu a nodir o fewn Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn.

## **2.6 Datblygiad arfaethedig ar hen safle Shell, Rhosgoch**

Mae'r Cyngor yn nodi'r cadarnhad yn yr Adroddiad Cwmpasu bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys datblygu hen safle Shell yn Rhosgoch - mae hyn yn cynnwys safle Gogledd Maen Hir. Gellid datblygu'r safle i letya hwb strategol dros dro ar gyfer gweithrediadau logisteg yng nghyswllt gwaith adeiladu, ynghyd â phrosiect solar cymunedol 5MW a System Storio Ynni Batri. Mae'r Cyngor yn nodi hefyd y cadarnhad y gallai'r datblygiadau hyn gynnwys buddsoddiad mewn isadeiledd a allai helpu i ddatgloi gwaith datblygu ar y safle at y dyfodol i gefnogi defnyddiau sydd wedi'u cynllunio at ddibenion cyflogaeth a chynhyrchu ynni.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod hen safle Shell yn safle cyflogaeth wrth gefn o fewn y CDLI ar y Cyd, sydd wedi'i diogelu at ddefnydd cyflogaeth (defnyddiau B1, B2 a B8) o dan bolisi CYF 1 o'r Cynllun (cyfeirnod map C(wg)39).

O fewn y CDLI ar y Cyd, mae hen safle Shell, Rhosgoch yn safle cyflogaeth wrth gefn, nid ar gyfer y galw o fewn y farchnad leol am ddefnyddiau diwydiannol neu fusnes cyffredinol, ond

yn hytrach ar gyfer defnyddiau busnes a chyflogaeth a fyddai, yn y lle cyntaf, yn darparu'n benodol ar gyfer anghenion Wylfa Newydd neu ddatblygiad 'Ynys Ynni'/'Ynys Fenter' arall. Byddai angen i gynigion ar gyfer defnyddiau B1, B2 neu B8 ar y safleoedd hyn ddangos nad oedd unrhyw safle cyflogaeth addas a oedd wedi'i ddiogelu neu ei ddynodi, neu fod y cyflenwad yn annigonol i ddiwallu'r angen.

Mae'r Cynllun yn cadarnhau bod gan y safleoedd hyn rôl bwysig o ran cynnal a diogelu cyfleoedd cyflogaeth at y dyfodol, ac felly'r bwriad yw eu diogelu at y dibenion hynny. Mae angen i unrhyw gynigion ar y safleoedd hyn a ddiogelir gydymffurfio'n llawn â Pholisi CYF 1 o'r CDLI ar y Cyd.

Mae Polisi CYF 5 o'r CDLI ar y Cyd yn darparu ar gyfer defnyddiau amgen ar gyfer safleoedd cyflogaeth presennol ac yn cadarnhau:

*Mewn achosion arbennig yn unig y caniateir cynigion i ryddhau tir yn Nefnydd Dosbarth B1, B2 neu B8 ar safleoedd cyflogaeth presennol sydd wedi cael eu gwarchod yn unol â Pholisi CYF 1 ar gyfer defnyddiau amgen, a dim ond os gellir cwrdd gydag un neu fwy o'r meini prawf canlynol:*

1. *Yn yr achos fod y safle yn wag ei fod yn annhebygol o gael ei ddefnyddio yn y tymor byr a chanolig ar gyfer y defnydd gwreiddiol neu ddefnydd y warchodaeth, neu*
2. *Mae yna orddarpariaeth o safleoedd cyflogaeth o fewn y cyffiniau, neu*
3. *Mae'r defnydd cyflogaeth bresennol yn cael effaith niweidiol ar fwynderau a'r amgylchedd, neu*
4. *Ni fyddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar ddefnydd cyflogaeth safleoedd cyfagos, neu*
5. *Nid oes yna safle amgen arall addas ar gyfer y defnydd arfaethedig, neu*
6. *Os yw'r safle yn cael ei ddefnyddio ar gyfer defnydd tymor byr (dros dro), bod yna fesurau adfer priodol mewn lle sydd i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol.*

Mae'r testun eglurhaol ar gyfer Polisi Cyf 5 yn cadarnhau 'mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau fod yna ddarpariaeth ddigonol a phriodol o droedd ar gyfer dibenion cyflogaeth. Mae'n hanfodol fod y safleoedd hyn yn cael eu cadw cyn belled â phosib gan eu bod wedi'u lleoli mewn mannau sydd yn agos i ble mae pobl yn byw er mwyn lleihau'r angen i deithio i'r gwaith ac i gefnogi twf economaidd a'r economi leol. O'r herwydd gall colli defnyddiau cyflogaeth gael effaith negyddol ar fynediad i swyddi lleol a lleihau'r awydd i gystadlu yn yr ardal.'

Fodd bynnag, mae'r testun yn cadarnhau hefyd, 'dros amser, gall rhai eiddo neu safleoedd traddodiadol cyflogaeth fod yn segur ers tro. Ymhellach, cydnabyddir nad yw defnyddiau traddodiadol cyflogaeth yn tueddu i gynhyrchu gwerthoedd tir a fyddai'n cymharu â defnyddiau megis tai a manwerthu'.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod yn barod i barhau i ymgysylltu â'r ymgeisydd yng nghyswllt datblygiad posibl hen safle Shell, Rhosgoch, i sicrhau cydweddiad rhwng y cynigion a'r CDLI ar y Cyd.

## **2.7 Porthladd Rhydd Ynys Môn**

Mae Porthladd Rhydd Ynys Môn yn bartneriaeth gydweithredol rhwng y Cyngor a Stena Line, a bydd yn chwarae rôl ganolog o ran darparu cymhellion ychwanegol ar gyfer datblygu economaidd a thwf ar yr ynys, i hybu ffyniant (yn ogystal ag ar hyd a lled rhanbarth ehangach Gogledd Cymru). Os caiff ei ddynodi, y Cyngor fydd y corff atebol ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn.

Mae Porthladdoedd Rhydd yn bartneriaeth rhwng porthladdoedd gweithredol a'u hawdurdodau lleol lleolyol. Maent yn cynnwys dynodi safleoedd penodol ble bydd busnesau'n derbyn buddion penodol o ran treth (e.e. rhyddhad o Dreth Trafodiadau Tir, Trethi Busnes a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr, yn ogystal â lwfansau uwch ar gyfer cyfalaf ac adeiladau ac adeileddau).

Mae gan raglen Porthladd Rhydd Cymru dri phrif amcan:

- *Hyrwyddo adfywio a chreu swyddi o ansawdd uchel*
- *Sefydlu'r Porthladdoedd Rhydd fel canolfan genedlaethol ar gyfer masnach a buddsoddiad byd-eang ar draws yr economi*
- *Meithrin amgylchedd arloesol*

Ceir ffocws ychwanegol hefyd ar Waith Teg, Sero Net a'r Iaith Gymraeg.

Roedd gan gais Porthladd Rhydd Ynys Môn ddwy brif thema:

- *cynyddu masnach drwy'r porth (ac adfer y "Bont Wlad" rhwng Iwerddon â thir mawr Ewrop)*
- *denu buddsoddiad i safleoedd allweddol, gan y sector ynni carbon isel yn benodol, er mwyn cyd-fynd â'r Rhaglen Ynys Ynni*

Fel rhan o Borthladd Rhydd Ynys Môn, nodwyd safleoedd Treth a Thollau ar yr ynys (nodir bod Canllawiau'r Porthladdoedd Rhydd yn caniatáu amrywio ffiniau'r safleoedd Treth a Thollau rhwng y cam ymgeisio a chytuno'r Cynllun Busnes Amlinellol (CBA)). Mae Strategaethau Safleoedd Treth yn cael eu paratoi ar gyfer bob un o'r tri safle.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod hen safle Shell, Rhosgoch, wedi'i nodi fel safle treth arfaethedig ac y byddai angen i unrhyw gynigion ar y safle gyd-fynd â gweledigaeth Porthladd Rhydd Ynys Môn.

Bydd angen ymgysylltiad parhaus rhwng yr ymgeisydd a'r Cyngor mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig yn hen safle Shell, Rhosgoch, er mwyn sicrhau cydweddiad â gweledigaeth a blaenoriaethau'r Porthladd Rhydd.

### **3. Yr Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol**

Mae Polisi 18 Cymru'r Dyfodol yn cadarnhau y caniateir cynigion ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel sy'n gymwys fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol os ydynt yn cyflawni'r meini prawf a restrir, a nodir o dan y Polisi. Mae meini prawf 1 a 2 yn cadarnhau:

1. *y tu hwnt i'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer datblygiadau gwynt a phob man ar gyfer pob technoleg arall, ni chaiff y cynnig effaith andwyol annerbyniol ar y dirwedd gyfagos (yn enwedig ar leoliad Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol);*
2. *nid oes unrhyw effeithiau gweledol andwyol annerbyniol ar gymunedau nac anheddau unigol gerllaw;*

Mae'r Polisi'n cadarnhau hefyd y dylid ystyried effeithiau cronus cynlluniau ynni adnewyddadwy presennol a rhai sydd wedi'u caniatáu.

Hefyd, rhaid ystyried y darpariaethau a gynhwysir o fewn polisiau ADN2 a AND3 o Gynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd ac Ynys Môn (y CDLI ar y Cyd) y cyfeiriwyd atynt eisoes yn Adran 2 o'r ymateb hwn.

Mae Adran 7.2 o Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn nodi'r ymagwedd a ddefnyddir ar gyfer yr asesiad o'r effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol.

### 3.1 Methodoleg

Mae'r Cyngor yn ystyried bod y modd y cyflwynwyd y fethodoleg arfaethedig ar gyfer yr asesiad o'r effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol yn creu dryswch i'r darlennydd. Y unol â pharagraff 2.22 a'r Cyngor Cryno o dan 2.26 o'r Canllawiau ar gyfer Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (GLVIA) 'LVIA must deal with and clearly distinguish between the assessment of landscape effects, dealing with changes to the landscape as a resource, and the assessment of visual effects, dealing with changes in views and visual amenity.'

Nid yw'r meini prawf a gyflwynwyd ar gyfer yr asesiad gweledol ac ar gyfer yr asesiad o'r dirwedd wedi'u cyflwyno ar wahân.

- Mae Tabl 7-7 yn cyflwyno meini prawf yng nghyswllt rhagdueddiadau ar gyfer derbynyddion tirwedd a gweledol;
- Mae Tabl 7-8 yn cyflwyno meini prawf yng nghyswllt gwerth ar gyfer derbynyddion tirwedd yn unig;
- Nid oes unrhyw feini prawf yng nghyswllt gwerth ar gyfer derbynyddion gweledol;
- Mae Tablau 7-11 i 7-13 yn cyflwyno meini prawf yng nghyswllt graddau'r newid o ran newidiadau o safbwynt y dirwedd a rhai gweledol; a
- Mae Tabl 7-12 yn cyflwyno'r meini prawf yng nghyswllt cyfnod amser y newid. Byddai'n ddefnyddiol pe bai hyn yn cyd-fynd â chyfnod adeiladu'r prosiect a blwyddyn ddylunio'r asesiad ar gyfer lliniaru effeithiau gweithredol, y nodir ym mharagraff 7.2.93 ei fod yn gyfnod o 15 mlynedd. Byddai hyn yn helpu gyda'r naratif yng nghyswllt effeithiau gweithredol ym mharagraff 7.2.107.

Nid oes unrhyw eglurhad cynhwysfawr o ardal ddiffiniedig yr Astudiaeth Gwmpasu. Ni cheir ond cyfeiriadau ati yn nhestun y bennod ar Ecoleg, ond fe'i dangosir o fewn y ffigurau yn sawl un o'r penodau. I osgoi dryswch, dylid diffinio Ardal yr Astudiaeth Gwmpasu'n glir, a dylai fod yn gyson â hynny a ddisgrifiwyd yn y ffigurau ategol perthnasol o fewn yr Adroddiad Cwmpasu.

I osgoi unrhyw hepgoriad posibl neu gyfrif pethau ddwywaith yn yr asesiadau, dylai'r ymgeisydd egluro'r modd y mae'r cwmpas wedi'i rannu ynghyd â'r cysylltiadau methodolegol yn y rhyngwyneb rhwng y LVIA a'r bennod ar Dreftadaeth Ddiwylliannol. Dylai hyn gynnwys y modd mae agwedd dreftadaeth cymeriad y dirwedd a safleoedd dynodedig yn cael ei hystyried, ac yn lle.

Dylai hefyd egluro'r modd y byddir yn mynd i'r afael ag effeithiau ar arwyddocâd a lleoliad gweledol asedau treftadaeth dynodedig a rhai sydd heb eu dynodi (Ffigur 7-17), fel adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig. Mae hyn yn aneglur yn y wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r Cais Cwmpasu.

### 3.2 Derbynyddion Tirwedd

Ymddengys fod lefel y manylion a'r manylder a gynigir ar gyfer yr asesiad tirwedd yn briodol ar sail dealltwriaeth o raddfa a maint y cynigion ar gyfer y datblygiad.

Nid yw'n glir pam fod derbynyddion dynodedig y dirwedd wedi'u cynnwys o dan Amwynder Gweledol yn 7.2.48 ac Effeithiau Gweledol yn Nhabl 7-14. Er efallai y ceir derbynyddion gweledol o fewn y tirweddau dynodedig hyn, mae'n arferiad i gyflwyno ac asesu tirweddau dynodedig fel derbynyddion tirwedd.

Fel y cyfeiriwyd uchod, mae paragraffau 2.22 a 2.26 y GLIVA yn cadarnhau y dylid asesu a chyflwyno'r effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol ar wahân.

Dylai'r ymgeisydd ddarparu eglurhad pellach o ran y modd y caiff derbynyddion tirwedd dynodedig eu hasesu yn y LVIA.

### **3.3 Tybiaethau a chyfyngiadau**

Mae tybiaethau a chyfyngiadau yn anorfod mewn gwaith sy'n asesu effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol. Felly mae'n bwysig egluro pa bamedrau a thybiaethau a ystyriwyd wrth gwmpasu'r LVIA, yn ogystal â chyfyngiadau'r wybodaeth sydd ar gael hyd yma.

Mae cynnwys y Cais Cwmpasu ar lefel gymharol uchel o ran cwmpas y LVIA. Mae'n mynd i'r afael â rhai cyfyngiadau trwy'r testun cyfan (e.e. ym mharagraff 7.2.38 lle nodir y gall y ZTV newid wrth i'r dyluniad ddatblygu). Fodd bynnag, nid yw cynnwys Adran 7 yn nodi'r cyfyngiadau a'r tybiaethau trosfwaol yn glir.

Yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR), cyfeirir at baragraff 6.6.6 yn y Cais Cwmpasu ym mhle mae'n awgrymu y bydd yr ymgeisydd yn disgrifio unrhyw dybiaethau a chyfyngiadau mewn perthynas â'r asesiadau, ond ni cheir tystiolaeth ar gyfer hyn i'r lefel y byddid yn ei disgwyl.

### **3.4 Dewis Golygfannau**

Ceir diffyg eglurder o ran y gwahaniaeth rhwng pwrpas y 'Grwpiau o Dderbynyddion Gweledol' a'r sail resymegol dros ddefnyddio 'Golygfannau Cynrychioladol'.

Cydnabyddir nad yw'n ymarferol neu'n gymesur i ymweld â phob lleoliad y bydd y Prosiect yn weladwy ohonynt ac i dynnu eu lluniau a'u delweddu. Fodd bynnag, ymddengys bod yr holl dderbynyddion gweledol wedi'u cynnwys mewn dim ond ugain o olygfannau cynrychioladol a restrir yn Nhabl 7-5 ac a ddangosir ar Ffigurau 7-12 a 7-13. Ymddengys nad yw'r golygfannau cynrychioladol hyn yn cynnwys y golygfannau a gynhwysir yn y RVAA a'r ARA. O ran nifer o'r derbynyddion gweledol a restrir ym mharagraffau 7.2.120 i 7.2.122, nid oes modd eu cynrychioli'n realistig gan y golygfannau a ddewiswyd (ar sail ein dealltwriaeth bresennol).

Ystyri'r nad yw ugain o olygfannau cynrychioladol yn gymesur â maint, graddfa ac ardal ddaearyddol y Prosiect ar draws y tri pharsel sy'n rhychwantu tua 12km o'r gogledd i'r de.

Dylid nodi ei fod yn nodweddiadol bod cynigion sydd wedi'u cynnig neu wedi cael caniatâd ar hyn o bryd ar Ynys Môn ar gyfer ffermydd solar llawer llai, yn cynnwys tua ugain o olygfannau cynrychioladol. At ei gilydd, mae bob un o barseli arfaethedig Maen Hir yn cyfateb i faint datblygiad cyfan Alaw Môn neu Barc Solar Traffwll er enghraifft. Mae'r Cyngor yn gofyn am roi ystyriaeth bellach i'r ystod o olygfannau a fydd ar gael i lywio'r asesiad.

Dylai'r LVIA gynnwys asesiadau ar gyfer bob derbynydd gweledol, gan gynnwys derbynyddion preswyl a hamdden y mae potensial iddynt gael eu heffeithio'n sylweddol gan y datblygiad arfaethedig. Gellir grwpio derbynyddion a'u cynrychioli gan un olygfan lle bo'n briodol. Dylai'r golygfannau a ddewisir i gynrychioli'r derbynyddion hyn fod yn gymesur ac yn wirioneddol gynrychioladol. Byddai'r Cyngor yn rhagweld cael mynediad i asesiad yr

ymgeisydd o'r derbynyddion gweledol a'r golygfannau cynrychioladol pan fydd y wybodaeth hon ar gael.

Nid yw'r rhestr a ganlyn o olygfannau ychwanegol yn gyflawn ond mae'n rhestr o un neu ddau o dderbynyddion gweledol ar gyfer bob parcel a nodwyd, ar sail ffactorau o ran eu lefel uchel o sensitifrwydd a'u graddau, yr ystyrir eu bod yn cynrychioli dewis mwy cymesur o dderbynyddion gweledol. Tra caiff rhai o'r derbynyddion hyn eu rhestru ym mharagraffau 7.2.120 i 7.2.122, nid ydynt wedi'u mapio, ac felly mae'n anodd gweld p'un a yw'r cwmpasiad hwn yn cynnwys y derbynyddion priodol ar gyfer yr asesiad.

1. *Llwybr Hawl Tramwy Cyhoeddus (HTC) MECHELL 38/077/2 ar y pwynt yn lle mae'n cysylltu â'r llwybr hirbell cylchol yn gyfagos i ffordd ddi-ddosbarth. I'r gogledd-orllewin o'r parcel gogleddol. Derbynyddion: Cerddwyr, Gyrwyr, a Phreswylwyr.*
2. *I'r de o Llwybr Troed HTC RHOSYBOL 44/028/2. Canol y parcel gogleddol. Derbynyddion: Cerddwyr.*
3. *Pwynt ar hyd Llwybr Troed HTC MECHELL 38/067/2. I'r de o'r parcel gogleddol. Derbynyddion: Cerddwyr.*
4. *I'r de o Llwybr Troed TREF ALAW 47/021/1 yn y pwynt yn lle mae'n cysylltu â ffordd ddi-ddosbarth. I'r gogledd o'r parcel canolog. Derbynyddion: Cerddwyr, Gyrwyr, a Phreswylwyr.*
5. *Llwybr Troed HTC RHOSYBOL 44/027/1 ar y pwynt yn lle mae'n cysylltu â ffordd ddi-ddosbarth. I'r gogledd-ddwyrain o'r parcel canolog. Derbynyddion: Cerddwyr a Gyrwyr.*
6. *Pwynt ar hyd Llwybr Troed HTC LLANNERCH-Y-MEDD 25/003/. I'r de o'r parcel canolog. Derbynyddion: Cerddwyr.*
7. *I'r de o Llwybr Troed HTC RHOSYBOL 44/036/1 ar y pwynt yn lle mae'n cysylltu â Llwybr 5 o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. I'r gogledd o'r parcel deheuol. Derbynyddion: Beicwyr, Cerddwyr, a Gyrwyr.*
8. *Prifffordd y B5111 ger pen deheuol Llwybr Troed LLANNERCH-Y-MEDD 25/013/1. I'r dwyrain o'r parcel deheuol. Derbynyddion: Gyrwyr a Phreswylwyr.*
9. *Pwynt ar hyd Llwybr 5 o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. I'r gorllewin o'r parcel deheuol. Derbynyddion: Beicwyr, Gyrwyr, a Phreswylwyr.*

### 3.5 Effeithiau Gweledol Cyfunol

Dylai'r asesiad wahaniaethu rhwng y mathau gwahanol allweddol o effeithiau gweledol cyfunol. Sylweddolir, fel y nodir yn 7.2.124, y gall natur isel ac adrannol y datblygiad arfaethedig a'r tiffurf cyffredinol gyfyngu ar nifer y lleoliadau y mae'n bosibl gweld mwy nag un parcel datblygu gyda'i gilydd. Mae golygfannau o'r fath yn cynnwys y golygfannau uchel a amlygir yn y paragraff.

Fodd bynnag, yn ogystal â hynny, dylai'r asesiad gynnwys derbynyddion y gellir rhagweld y byddant yn gallu gweld rhannau o'r datblygiad yn olynol yn ystod taith. Mae'n debygol y bydd NCR 5 yn cael golygfeydd o barsei y de a'r parcel canolog. Mae'n debygol y bydd nifer o lwybrau hamdden yn cael golygfeydd o fwy nag un parcel yn ystod taith ar eu hyd.

Yn nhermau ffotogyfosodiadau, mae angen ymagwedd gymesur tuag at ddelweddu'r prosiect a'r effeithiau posibl, er mwyn llywio'r asesiad a chynorthwyo'r darlennydd. Ystyrir bod y ffaith

mai dim ond pum ffotogyfosodiad a gynigir i ddelweddu'r prosiect hwn ar draws tri pharsel mawr o dir yn annigonol. Ystyrir y byddai'n gymesur i ddarparu nifer o ddelweddiadau ar gyfer bob parcel datblygu, o amryw gyfeiriadau a phellterau. Dylai'r dewis o olygfannau ar gyfer delweddiadau gynnwys amrywiaeth o fathau o dderbynyddion, ynghyd â rhai sy'n debygol o brofi effeithiau gweledol arwyddocaol, yn ogystal â rhai na fyddant yn profi effeithiau o'r fath. Dylai'r ymgeisydd gytuno ar ystod ehangach o ffotogyfosodiadau neu ddarparu cyfiawnhad digonol a ran pam y cynigir dim ond pum ffotogyfosodiad. Mae hyn yn absennol ar hyn o bryd.

### **3.6 Effeithiau a Goleuadau yn ystod y Nos**

Mae'n glir, ac ystyrir ei fod yn rhesymol (ar sail y wybodaeth a ddarparwyd) bod Asesiad o Effaith Goleuadau (LIA) ar wahân wedi'i gwmpasu allan o bennod yr LVIA. Fodd bynnag, cynigir goleuadau fel rhan o gyfnod adeiladu a datgomisiynu'r prosiect, ac fel rhan o gyfnod gweithredu'r is-orsaf a BESS.

Felly dylai'r ymgeisydd ystyried effeithiau posibl goleuadau ar gymeriad y dirwedd ac ar olygfeydd perthnasol a gynhwysir yn y LVIA. Nid yw hyn yn golygu y bydd angen asesiad ar wahân o effeithiau goleuadau, ond mae'n gofyn am ystyriaeth o effeithiau posibl o fewn yr asesiad, a fydd yn arwain at ganfod cynigion priodol ar gyfer eu lliniaru er mwyn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar dderbynyddion allweddol.

Mae'r Cyngor yn gofyn hefyd i unrhyw DCO gynnwys gofyniad sy'n gofyn am gymeradwyo cynllun goleuadau ar gyfer y datblygiad yn ystod y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredol (os yn briodol).

### **3.7 Effeithiau Cronnus**

Ceir potensial am ddryswch o gwmpas yr asesiad o'r effeithiau cronnus. Yn nheitlau Ffigurau 7-12 a 7-13, defnyddir y gair 'cronnus' i ddisgrifio'r cyfuniad o ZTVs o'r gwahanol agweddau o Brosiect Maen Hir. Hefyd, yn y Datganiad Amgylcheddol, efallai y bydd angen dangos ZTVs wedi'u cyfuno â'r rheiny ar gyfer prosiectau cronnus eraill. Ym mharagraff 7.2.123, ceir cyfeiriad cywir at y ZTVs cyfunol hyn.

Nid yw'r LVIA, na'r Cais Cwmpasu ehangach mewn gwirionedd, yn gwneud unrhyw gyfeiriad at unrhyw brosiectau cronnus eraill ar gyfer eu cwmpasu i mewn neu allan o'r asesiad ar gyfer y Prosiect. Yn ogystal â hyn, ceir cyfeiriad cyfyngedig iawn at y modd y bydd angen i effeithiau cronnus ystyried newid parhaus yn y dirwedd erbyn yr adeg y byddai'r Prosiect yn cychwyn.

Mae nifer o gynigion mawr eraill wedi'u cynnig ar yr ynys sy'n cynnwys prosiectau ffermydd solar a BESS sy'n debyg o ran eu graddfa, eu natur a'u lleoliad i brosiect arfaethedig Maen Hir.

Fel modd o amlygu nifer fechan o brosiectau cronnus (posibl) perthnasol a allai arwain at gyfuniad o effeithiau, dylai'r ymgeisydd gyfeirio at Fferm Solar Alaw Môn a chyfleuster BESS Carreg Ganol. Dylai'r ymgeisydd gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddau brosiect, ynghyd â phrosiectau y gellir eu rhagweld yn rhesymol, ac ymgynghori â'r Cyngor ynghylch ei restr o brosiectau cronnus arfaethedig.

Mae'n bwysig nodi, o ran cwmpas cronnus y LVIA, nad dim ond prosiectau y bydd yn bosibl eu gweld ar yr un pryd ac sy'n rhyngweladwy â Maen Hir a gynhwysir fel prosiectau cronnus. Gallant hefyd gynnwys prosiectau eraill sy'n weladwy i wahanol gyfeiriadau o olygfan, neu sy'n weladwy mewn lleoliadau olynol, er enghraifft, yn ystod siwrnai ar hyd NCR5.

### 3.8 Casgliadau o ran yr Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol

Mae'r Cyngor yn argymhell bod angen i'r ymgeisydd adolygu'r wybodaeth a ganlyn:

- Cwmpasu'r asesiad cronus ac wedyn, ar wahân, dod i gytundeb yn ei gylch a rhannu'r ymagwedd arfaethedig â'r Cyngor.
- Ailystyried y dewis o dderbynyddion a golygfannau cynrychioladol mewn perthynas â maint a graddfa'r Prosiect.
- Darparu dewis mwy cymesur o ffotogyfosodiadau ar gyfer golygfeydd o wahanol o bellterau ac onglau i gyfeiriad bob parcel, sy'n debygol o brofi amrywiaeth o effeithiau gweledol.
- Cynnwys yn y LVIA asesiad o'r potensial am effeithiau yn ystod y nos ar y dirwedd a golygfeydd o ganlyniad i oleuadau at ddibenion gwaith adeiladu a gweithredol.
- Adolygu'r fethodoleg ac (er eglurder) ystyried cyflwyno'r meini prawf ar gyfer yr asesiad o'r effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol ar wahân.
- Cynnwys rhagdybiaethau a chyfyngiadau cyffredinol ar gyfer yr asesiad o safbwynt disgyblaethau penodol i gynorthwyo i osod terfynau'r asesiad.
- Egluro a chwmpasu'r rhyngwyneb rhwng yr effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol a'r bennod ar dreftadaeth ddiwylliannol.

## 4 Treftadaeth Ddiwylliannol ac Archaeoleg

Mae maen prawf (6) o Bolisi 18 o Cymru'r Dyfodol yn nodi na ddylid bod unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar asedau treftadaeth adeiledig a ddiogelir yn statudol.

Yn ogystal ag archaeoleg, efallai y bydd gan y datblygiad oblygiadau ar gyfer lleoliad asedau dynodedig ac o ran cymeriad y dirwedd hanesyddol. Cynghorir felly y dylid ymgynghori â Cadw ynghylch cwmpas yr asesiad a fynnir o leoliadau.

### 4.1 Archaeoleg

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd (GCAG), sef y curador rhanbarthol â swyddogaethau rheoleiddiol a chynghorol, ynghyd â chynghorydd y Cyngor, mewn perthynas â materion o ran archaeoleg.

Mae GCAG wedi adolygu'r rhannau perthnasol o'r adroddiad cwmpasu ac yn cadarnhau yr ymddengys fod methodoleg yr asesiad arfaethedig (yr ymchwil a'r meini prawf) yn briodol.

Mae GCAG o'r farn y bydd angen cloddio ffosydd prawf yn dilyn yr asesiad pen desg ac arolwg geoffisegol (paragraff 7.4.19 o'r adroddiad). Caiff cwmpas y ffosydd prawf ei lywio gan ganlyniadau'r camau blaenorol hyn, ond nid yw'n ddisgwyliedig mai geoffiseg fydd yr unig fodd o benderfynu cynllun y ffosydd, gan y cydnabyddir bod gan y dechneg hon gyfyngiadau ac mae pa mor ddibynadwy ydyw yn dibynnu ar y ddaear ac amodau'r ddaear. Fel y nodir yn yr adroddiad cwmpasu, mae GCAG eisoes wedi cymeradwyo Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig ar gyfer yr asesiad desg gan Cotswold Archaeology, ac wedi cychwyn trafodaethau ynghylch cwmpas a ffurf yr asesiad o'r lleoliad a'r gwerthusiad maes. Disgwylir y byddir yn bwrw ymlaen â'r trafodaethau a'r agweddau hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae GCAG yn cytuno â'r elfennau a gaiff eu cwmpasu i mewn/allan o'r asesiad fel y nodir ym mharagraffau 7.4.41 a 7.4.42. Fodd bynnag, mae GCAG yn anghytuno â'r rhagosodiad cychwynnol bod effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd hanesyddol yn annhebygol - ymddengys fod hyn yn rhagfarnu canlyniad yr asesiad a'r gwerthusiad sydd heb eu cyflawni eto. Er ei fod yn wir fod y math hwn o ddatblygiad a'i raddfa yn cynnig amryw opsiynau o ran osgoi, lleihau neu wrthbwyso effeithiau, nid yw'r dystiolaeth ar gael eto i alluogi dod i gasgliad

ynghylch arwyddocâd yr effeithiau hyn. Hyd yma, nid yw'n bosibl diystyru gwrthdaro rhwng dyluniad y cynllun ac archaeoleg dra sensitif sy'n anhysbys hyd yn hyn, na ellid ei leihau i effaith lai nag arwyddocaol yn nhermau AEA.

O ran canlyniadau'r asesiadau a'r gwerthusiad a gynhelir fesul cam, dylid eu cyflwyno fel adroddiadau technegol annibynnol, sy'n addas ar gyfer eu derbyn i'r Cofnod Amgylcheddol Hanesyddol (HER) rhanbarthol. Dylid cyflenwi'r rhain fel atodiadau i'r Datganiad Amgylcheddol, gyda'r canlyniadau'n cael eu crynhoi yn y bennod berthnasol fel y sylfaen dystiolaeth ar gyfer asesiad o'r effeithiau. Byddai GCAG yn disgwyl derbyn drafftiau o'r adroddiadau cyn cyflwyno AEA ar gyfer adolygiad technegol ac er mwyn hwylustod ar gyfer mynd ymlaen trwy'r camau asesu a'r broses gydsynio. Mae GCAG eisoes wedi trafod fformat arfaethedig yr adroddiadau gyda Cotswold Archaeology a'r swyddog HER, gan ystyried maint a lleoliadau neilltuol yr ardaloedd datblygu arfaethedig.

Rhaid i bob cam o'r gwaith gael ei gyflawni gan gwmni archaeolegol proffesiynol sy'n brofiadol o ran y technegau perthnasol a ddefnyddir, ac yn cyd-fynd â safonau a chanllawiau Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr. Bydd angen cytuno ar gwmpas a methodoleg arfaethedig pob cam gyda GCAG ymlaen llaw.

#### 4.2 Adeiladau Rhestredig

Mae Adran 7.4 o Adroddiad Cwmpasu'r AEA yn nodi'r dull a ddefnyddir ar gyfer cynnal yr asesiad o'r effaith ar Dreftadaeth Ddiwylliannol.

Ffigur 7-17 Asedau Treftadaeth Dynodedig - Mae Allwedd y Map yn cyfeirio at Ardaloedd Cadwraeth. Fodd bynnag, ymddengys nad yw Ardaloedd Cadwraeth Canol Amlwch, Porth Amlwch (yr ymddengys ei fod ychydig y tu hwnt i'r Ardal Astudiaeth Treftadaeth) a Llanfechell wedi'u plotio ar y map.

Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru/Cadw 'Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, 2017' yn nodi:

- *Mae lleoliad yn bwysig i'r ffordd y mae asedau hanesyddol yn cael eu deall, eu gwerthfawrogi a'u profi ac mae'n cyfrannu at eu harwyddocâd.*
- *Mae lleoliad yn aml yn ymestyn y tu hwnt i ffin eiddo, neu 'gwrtil', ased hanesyddol unigol i gyd-destun tirwedd ehangach. Gall ffactorau anniriaethol yn ogystal â ffactorau ffisegol fod yn bwysig er mwyn deall lleoliad ased hanesyddol. Gall y rhain gynnwys swyddogaeth, canfyddiadau synhwyraidd neu gysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol a golygfaol.*
- *Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn annog awdurdodau cynllunio lleol i ystyried lleoliadau asedau hanesyddol wrth baratoi cynlluniau datblygu a phan fyddant yn penderfynu ar geisiadau cynllunio.*
- *Pan gynigir newid neu waith datblygu, mae'n bwysig nodi'r asedau hanesyddol y gellid effeithio arnynt, diffinio eu lleoliad a deall sut y mae'r lleoliad hwnnw'n cyfrannu at arwyddocâd yr asedau hanesyddol.*
- *Os yw newid neu waith datblygu arfaethedig yn debygol o gael effaith ar ased hanesyddol a'i lleoliad, dylai'r ymgeisydd baratoi asesiad ysgrifenedig cymesur a gwrthrychol o'r effaith honno er mwyn llywio'r broses benderfynu.*
- *Dylai cynigion datblygu geisio osgoi unrhyw effaith niweidiol ar ased hanesyddol a'i lleoliad.*

Mae pwysigrwydd ased treftadaeth yn seiliedig ar yr hyn y mae'n ei gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol. Yn aml, mae lleoliad rhai mathau o adeiladau rhestredig, yn enwedig

eglwysi a melinau gwynt ac ati mewn ardaloedd gwledig, yn bwysicach nag y mae i adeiladau eraill.

Felly, er mwyn gallu cynnal asesiad llawn o'r golygfeydd i gyfeiriad yr asedau hanesyddol hyn, ac ar eu traws ac o gyfeiriad yr asedau hynny, mae'r Cyngor yn cynghori bod angen darparu delweddiadau o'r mathau hyn o asedau treftadaeth, gyda'r asedau'n cael eu nodi ar fapiau a ffotogyfosodiadau ategol.

## **5. Dosbarthiad Tir Amaethyddol**

Mae Polisi Cynllunio Cymru'n datgan y dylid gwarchod y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (gradd 1, 2 a 3a) a dylid rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag ei ddatblygu. Ni ddylid datblygu tir o fewn graddau 1, 2 a 3a onid oes angen sy'n drech na dim arall am y datblygiad, ac os nad oes tir o radd is ar gael. Ailadroddir hyn o fewn Polisi PS 6 o'r CDLI ar y Cyd.

Mae'r Cyngor yn nodi'r cadarnhad y caiff Adroddiad Dosbarthiad Tir Amaethyddol ei baratoi i gefnogi'r cais cynllunio.

Mae'r Cyngor yn cyfeirio'r ymgeisydd a PEDW at Wasanaeth Cynghori ar Ansawdd Tir Llywodraeth Cymru i gael ei farn mewn perthynas ag effaith y cynnig ar dir amaethyddol o ansawdd uchel o fewn y safle arfaethedig.

## **6. Ecoleg**

Mae Adran 7.3 o Adroddiad Cwmpasu'r AEA yn nodi'r dull a ddefnyddir ar gyfer cynnal yr asesiad o'r effeithiau o safbwynt ecolegol.

Mae meini prawf (3) a (4) o Bolisi 18 o Cymru'r Dyfodol yn cadarnhau bod angen i'r cynigion sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar gyfanrwydd safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol a'r nodweddion y'u dynodwyd ar eu cyfer, ac nad oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar safleoedd cenedlaethol a ddynodwyd yn statudol at ddibenion cadwraeth natur, cynefinoedd na rhywogaethau gwarchoddedig. Mae maen prawf (5) yn cadarnhau y dylai'r cynnig gynnwys mesurau gwella bioamrywiaeth er mwyn sicrhau mantais net i fioamrywiaeth.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod yn fodlon â'r cynnig a amlinellir yn Adran 7.3 o'r Adroddiad Cwmpasu, lle mae'n berthnasol i fuddiannau'r Cyngor o ran asesu effeithiau posibl y cynnig ar y derbynyddion ecolegol a nodwyd.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod yn ildio i CNC a'r RSPB (lle y bo'n berthnasol) mewn perthynas â materion o ran Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, adar a safleoedd a warchodir, yn ogystal â'r gyfarwydddeb cynefinoedd.

Bydd y Cyngor eisiau i'r cais ddangos ei fod wedi ceisio cyfrannu tuag at warchod a gwella'r amgylchedd ynghyd ag osgoi effeithiau andwyol diwrthdro ar yr amgylchedd naturiol trwy ddyluniad arfaethedig a mesurau lliniaru corfforedig y datblygiad.

Nid yw'r wybodaeth yn sgil y gwaith cwmpasu yn cynnwys manylion y mesurau a gynigir i wella bioamrywiaeth. Mae'r Cyngor yn awyddus i drafod mesurau gwella posibl y gellid eu hintegreiddio o fewn y datblygiad gyda'r datblygwr ar y cyfle cyntaf.

Nodir y bydd goleuadau yn ystod y nos yn cael eu hosgoi. Os bydd angen unrhyw oleuadau ar gyfer y cyfnodau adeiladu neu weithredol, mae'r Cyngor yn gofyn am gyflwyno cynllun goleuadau i'w gymeradwyo o dan ofyniad a atodir i unrhyw gydsyniad DCO. Bydd angen i'r

holl oleuadau allanol ddilyn y canllawiau goleuadau yng nghyswllt Ystlumod a Goleuadau Artiffisial yn y Nos (BCT) ac awyr dywyll.

Mae'r Cyngor yn fodlon gyda'r arolygon ecolegol ac yng nghyswllt rhywogaethau a warchodir a gynhaliwyd ar y safle. Fodd bynnag, cynghorir bod angen sicrhau bod yr arolygon a ddefnyddir i lywio'r AES a'r cynigion o ran mesurau lliniaru yn parhau i fod yn gyfredol ac y defnyddir yr arolygon diweddaraf. Roedd rhai o'r arolygon y cyfeiriwyd atynt wedi cael eu cynnal o fewn y cyfnod 2021/22.

Argymhellir y dylid cynnal Adroddiad Coedyddiaeth i asesu'r holl goed a gwrychoedd a geir ar y safle. Dylai hwn hefyd amlinellu'r holl Ardaloedd Gwarchod Gwreiddiau a chadarnhau unrhyw lystyfiant y cynigir ei glirio.

Nodir y cyflwynir Cynllun Rheoli Amgylcheddau Adeiladu (CEMP) fel rhan o'r cais. Dylai'r CEMP gynnwys cyfeiriad at ganllawiau ar gyfer atal llygredd.

Yn ogystal â hynny, dylid cyflwyno Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg (LEMP) fel rhan o'r cais. Dylai'r LEMP gynnwys mesurau rheoli ar gyfer ardaloedd gwella bioamrywiaeth presennol a rhai sydd wedi'u creu o'r newydd.

Bydd angen nodi clustogfeydd ar y cynlluniau arfaethedig ar gyfer pob ardal y nodir eu bod angen mesurau lliniaru a gwarchod. Mae angen darparu rhagor o fanylion a manylebau ar gyfer hynny yn ychwanegol i'r hyn a amlinellir/sonnir amdano o fewn y cynlluniau presennol.

## **7. Traffig a Thrafnidiaeth**

Mae Adran 7.5 o Adroddiad Cwmpasu'r AEA yn nodi'r dull a ddefnyddir i asesu Effeithiau Traffig a Thrafnidiaeth.

Mae'r Cyngor yn gefnogol i'r dull a ddefnyddir ar gyfer yr asesiad, gyda chyfeiriad at y llwybrau mynediad a nodir ynghyd ag ymgymryd ar arolygon sylfaenol.

O ran y llwybrau a nodir a safleoedd arfaethedig y Cyfrifiadau Traffig Awtomatig (ATC), gwneir y sylwadau a ganlyn:

- O ran Llwybr 1, a gan gyfeirio at y pellter rhwng lleoliad ATC 3 a 5, dylid ystyried safle ATC ychwanegol ar yr A5025 yn Llanfaethlu.
- Ar Lwybr 2, byddai'n fuddiol cael pwynt arolygu ATC ychwanegol rhwng Trefor a Charmel ar y B5112.
- Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o bryderon presennol y gymuned yng nghyswllt defnyddio cerbydau HGV ar ran o'r A5, sy'n cyd-fynd â Llwybr 5. Dylid ystyried safle ATC ychwanegol ar y llwybr hwn (A5 Gwalchmai). Mae Llwybr 5 yn dilyn ymlaen o'r A5 i gyfeiriad Bodffordd, ym mhle codwyd pryderon tebyg yn y gymuned yng nghyswllt cerbydau HGV. Dylid ystyried cael ATC ar y rhan hon o'r rhwydwaith priffyrdd.

Ystyrir nad oes angen unrhyw leoliadau ATC ychwanegol ar y llwybrau eilaidd o'r hwb cydgrynhoi.

Mae'r Cyngor yn gefnogol i'r Fethodoleg Asesu sy'n seiliedig ar y Canllawiau ar gyfer yr Asesiad Amgylcheddol o Draffig a Symudiadau (EATM).

Gan ystyried lleoliad arfaethedig yr hwb cydgrynhoi a'r lefelau uchel cysylltiedig o draffig sy'n mynd i mewn ac allan o'r safle hwn, dylid rhoi ystyriaeth arbennig i hyn yn yr AEA, yn enwedig y rhan rhwng yr A5025 i gyfeiriad Rhosgoch, gan gyfeirio at y testunau asesu trafndiaeth a mynediad yn y canllawiau EATM.

Yn yr AEA, dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys pryderon ynghylch symudiadau traffig a diogelwch lleol na fyddent o reidrwydd yn cael eu nodi wrth ddilyn y fethodoleg a gynhwysir yn yr Asesiad Amgylcheddol o Draffig a Symudiadau (EATM) oherwydd ffactorau fel niferoedd isel.

Mae'r Cyngor yn nodi'r cadarnhad y bydd Datganiad Trafnidiaeth, sy'n sefyll ar ei ben ei hun, a Chynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol yn cael eu cyflwyno gyda'r cais. Ar hyn o bryd, ni all y Cyngor gadarnhau y bydd Datganiad Trafnidiaeth yn ddigonol, ac nad oes angen i Asesiad Trafnidiaeth gynnwys asesiad llawn o effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig ar Drafnidiaeth a Mynediad.

Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y DA yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r amodau sylfaenol er mwyn sicrhau bod effeithiau posibl y prosiect ar drafnidiaeth a mynediad yn cael eu nodi'n briodol, a bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu nodi wedyn a'u diogelu yn ffurf cynigion o ran rheolaeth.

Croesawir y cadarnhad y bydd Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CRhTA) Amlinellol yn cael ei baratoi i gefnogi'r cais cynllunio, a byddai'r Awdurdod hefyd yn croesawu'r cyfle i gwmpasu manylion y CRhTA gyda'r ymgeisydd.

Mae'r Cyngor yn gofyn am gadarnhad o ran p'un a fydd y datblygiad yn effeithio unrhyw rai o lwybrau'r rhwydwaith beicio cenedlaethol, neu hawliau tramwy cyhoeddus. Os cadarnheir y bydd unrhyw effaith ar y derbynyddion hyn, byddai'r Cyngor yn dymuno trafod hyn ymhellach gyda'r ymgeisydd er mwyn lleihau'r effaith trwy sicrhau mesurau lliniaru priodol.

## 8. Gwarchod y Cyhoedd

Mae'r Cyngor yn fodlon gyda'r cynnig a nodir ym Mhenodau 7.6, 7.8, 7.14 o Adroddiad Cwmpasu'r ymgeisydd yng nghyswllt asesu effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig yng nghyswllt Ansawdd Aer, Ansawdd y Tir ac Iechyd.

Mae'r Cyngor yn fodlon gyda'r mwyafrif o'r cynigion a nodir ym Mhenod 7.7 o Adroddiad Cwmpasu'r ymgeisydd yng nghyswllt asesu effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig yng nghyswllt Sŵn.

Fodd bynnag, nodir nad oes unrhyw sôn am ddatblygiad arfaethedig fferm solar a system storio batri Alaw Môn a allai gael effaith gronnydd ar yr ardal os bydd y ddau ddatblygiad yn cydreded yn nhermau'r cyfnod adeiladu.

Enso Energy sy'n gyrru cynnig Alaw Môn yn ei flaen, ac mae'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddusrwydd ac ymgynghori Cyn Ymgeisio (PAC) ar hyn o bryd ar gyfer y prosiect. Gellir cael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys dogfennaeth ddrafft ar gyfer y cais ar wefan y prosiect<sup>6</sup>.

Tra bo hynny y tu hwnt i gwmpas y Datganiad Amgylcheddol, mae gan y Cyngor y sylwadau cynghorol a ganlyn ar gyfer yr ymgeisydd mewn perthynas ag effaith sŵn o ganlyniad i osod seilbyst i gynnal yr araeau PV solar.

Byddai'r Cyngor yn argymhell bod angen i'r ymgeisydd ffurfioli oriau gweithio a'r terfynau penodol ar gyfer sŵn a dirgryndod trwy fabwysiadu proses Adran o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 - 'Cydsyniad Ymlaen Llaw ar gyfer Gwaith ar Safleoedd Adeiladu' fel rhan o'r mesurau lliniaru ar gyfer y gwaith ailddatblygu hwn. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr adran Gwarchod y Cyhoedd trwy EHEALTH@ynysmon.llyw.cymru

<sup>6</sup> Cartref | Fferm Solar Alaw Môn ([alaw-mon-solar-farm.co.uk](http://alaw-mon-solar-farm.co.uk))

Mae'r Cyngor yn gofyn am ragor o fanylion o ran y modd y gellir lliniaru effeithiau sŵn ergydion y morthwylion metel yn erbyn metel yn sgil y gweithrediadau ar gyfer gosod seilbyst.

Ceir sŵn ergydiol yn sgil y gweithrediadau i osod bob seilbost yn y ddaear ar gyfer yr araeau PV solar. Rhagwelir y byddai angen gosod miloedd o seilbyst yn y ddaear ar gyfer y datblygiad 350MW hwn.

Felly, mae'r Cyngor yn gofyn am ddatganiad ysgrifenedig ar y modd y bwriedir gosod y seilbyst yn y ddaear, y mesurau lliniaru arfaethedig, ynghyd â'r hyn a gydnabyddir fel y dull ymarferol gorau o fewn y diwydiant adeiladu.

Gyda chyfeiriad penodol at unrhyw weithrediadau ar gyfer gosod seilbyst o fewn pellter clywed agos i unrhyw dderbynnydd preswyl, byddai'r adran Gwarchod y Cyhoedd yn cynghori fel a ganlyn:-

Argymhellir yn gryf y dylai'r ymgeisydd gynnal arolwg o gyflwr allanol a mewnol yr holl eiddo preswyl a leolir yn agos i unrhyw weithgareddau yng nghyswllt gosod seilbyst / torri cerrig / pigo cerrig / gwaith dymchwel i'w gwirio am unrhyw graciau a difrod adeileddol sy'n bodoli eisoes. Byddai hyn nid yn unig yn diogelu'r datblygwr rhag unrhyw hawliadau cyfreithiol yng nghyswllt difrod ac ati, ond hefyd yn darparu rhyw lefel o gysur i breswylwyr y gellid mynd i'r afael ag unrhyw broblemau o ran yr eiddo o ganlyniad uniongyrchol i weithgareddau'r datblygwr mewn modd rhesymol a chymesur.

Y sail resymegol ar gyfer awgrymu'r ymagwedd hon yw bod gweithrediadau ar gyfer gosod seilbyst trwy ergydion morthwylion metel yn erbyn metel yn debygol o greu Niwsans Statudol (Adran 79(1)(g) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990). Gellid lliniaru hyn trwy ddefnyddio'r dull ymarferol gorau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai y bydd y datblygiad o fewn pellter clywed agos i eiddo preswyl oherwydd lleoliad anghysbell y datblygiad. Felly, byddai angen cadw cysylltiad agos ag unrhyw eiddo a effeithir yng nghyswllt datblygiad mawr o'r math hwn ynghyd â chynnal gwaith monitro ac ymgynghori â'r cyhoedd.

Yn ogystal, argymhellir y dylid cynnal y gwaith adeiladu yn unol â Dogfen CIRIA – C741, 2015–Arferion Amgylcheddol Da ar Safleoedd (4ydd argraffiad).

Ar ben hynny, lle bo angen paratoi'r safle gan ddefnyddio peiriannau torri cerrig niwmatig, bydd angen i'r datblygwr gymryd pob cam rhesymol i atal creu niwsans i feddianwyr cartrefi yn y cyffiniau o ganlyniad i sŵn, dirgryndod a llwch. Dylid hysbysu preswylwyr yn y cyffiniau ymlaen llaw ynghylch unrhyw waith swllyd ac am faint y bydd y gwaith yn debygol o bara. Dylai camau rheoli addas a digonol fod ar waith i reoli llwch sy'n cael ei chwythu gan y gwynt o bentyrrau stoc cerrig.

### **8.1 Rheoli Gwastraff**

Bydd y Cyngor yn gofyn am i'r CEMP Amlinellol gynnwys Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle. Dylai'r Cynllun gynnwys manylion cynigion i leihau a rheoli gwastraff yn ystod pob cam o'r prosiect.

### **8.2 Oriau Gweithio**

Bydd y Cyngor yn gofyn i'r CEMP amlinellol gadarnhau y cynhelir gweithgareddau adeiladu a danfoniadau o ddydd Llun i ddydd Gwener am 08:00 – 18:00 a rhwng 08:00 – 13:00 ar ddyddiau Sadwrn. Ni chynhelir unrhyw weithgareddau adeiladu neu ddanfoniadau ar ddyddiau Sul neu Wyliau Cyhoeddus.

Bydd y Cyngor hefyd yn gofyn am gadarnhad, lle'n bosibl, y caiff danfoniadau yng nghyswllt y gwaith adeiladu eu cydlynu i osgoi symudiadau gan gerbydau sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu yn ystod awr frig y bore (08:00-09:00) ac awr frig yr hwyr (17:00-18:00) ac y bydd amseroedd danfon a chodi plant o'r ysgol yn cael eu hosgoi (lle y bo'n berthnasol).

### **8.3 Diogelwch Tân**

Roedd y Cyngor yn argymhell ymgynghori'n gynnar â Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, yn enwedig yng nghyswllt elfen storio ynni batri'r datblygiad arfaethedig.

## **9. Adnoddau Dŵr a'r Perygl o Lifogydd**

Mae'r Cyngor yn fodlon gyda'r cynnig a nodir ym Mhennod 7.10 o Adroddiad Cwmpasu'r ymgeisydd yng nghyswllt asesu effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig o ran Adnoddau Dŵr.

Mae'r Cyngor yn cyfeirio PINS a'r ymgeisydd i geisio barnau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â'r Perygl o Lifogydd sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

## **10. Ystyriaethau Economaidd-gymdeithasol**

### **10.1 Cyfleoedd Lleol o ran Swyddi, Sgiliau a'r Gadwyn Gyflenwi**

Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod y gall cynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fawr gynhyrchu buddion cymdeithasol ac economaidd uniongyrchol ar gyfer cymunedau lleol.

Sefydlwyd Rhaglen 'Ynys Ynni' y Cyngor gyda gweledigaeth i greu cyfle unwaith-mewn-oes ar gyfer cael swyddi, twf economaidd a ffyniant trwy elwa ar nifer o brosiectau trawsnewidiol ar Ynys Môn.

Mae'r Weledigaeth Twf a luniwyd ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) yn cyfeirio at Ogledd Cymru fel ardal sydd yn un o'r lleoliadau gorau yn y DU ar gyfer cynhyrchu ynni a buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig ag ynni.

Trwy gydol ei ymgysylltiad gyda'r datblygwr cyn cyflwyno cais cynllunio, mae'r Cyngor wedi cadarnhau ei fod yn dymuno cael cadarnhad ac ymrwymiad y byddid yn manteisio i'r eithaf ar y buddion economaidd-gymdeithasol sy'n codi o bob cyfnod o'r prosiect, ac y byddent yn cael eu diogelu'n briodol o fewn unrhyw ganiatâd a roddir ar gyfer y datblygiad. O ystyried graddfa'r prosiect, bydd y Cyngor yn chwilio am fuddion economaidd-gymdeithasol ystyrlon gan gynnwys buddion cymunedol.

Dylai buddion economaidd-gymdeithasol o'r fath gynnwys manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o ran swyddi, sgiliau a'r gadwyn gyflenwi yn ystod pob cam o'r prosiect (o'r cyfnod adeiladu i ddatgomisiynu) a dylai gydweddu â'r egwyddor agosrwydd lle caiff buddion eu canolbwyntio ar y cymunedau hynny sy'n lletya'r datblygiad.

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau hefyd ei fod eisiau gweld mecanweithiau monitro priodol yn cael eu sefydlu i gadarnhau'r buddion gwirioneddol a gaiff eu gwireddu yn ystod y cyfnod y bydd y prosiect yn cael ei roi ar waith.

Mae'r Cyngor yn gofyn am i'r cais gael ei gefnogi gan 'Ddatganiad Buddion Economaidd' a 'Chynllun Cadwyn Gyflenwi a Sgiliau Cyflogaeth' Amlinellol. Bydd angen cytuno ar fersiwn manwl terfynol o'r 'Cynllun Cadwyn Gyflenwi a Sgiliau Cyflogaeth' gyda'r Cyngor o dan ofyniad

DCO sydd wedi'i eirio'n addas.

Dylai'r Datganiad Buddion Economaidd nodi buddion economaidd y datblygiad yn llawn, gan roi ystyriaeth lawn i'r defnydd o'r egwyddor agosrwydd.

Mae'r Cyngor yn ceisio ymrwymiad gan yr ymgeisydd y bydd canran o'r gweithlu ym mhob cyfnod o'r datblygiad yn dod o'r ardal leol ac y byddir yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer uwchsgilio a phrentisiaethau.

Bydd y Cyngor yn gofyn am i'r 'Cynllun Cadwyn Gyflenwi a Sgiliau Cyflogaeth' gynnwys:

- *Dylid manylu ynghylch y bwriad i ddefnyddio llafur lleol lle bo hynny ar gael ac yn hyfyw o safbwynt masnachol;*
- *Lle'n ymarferol, a bod nwyddau a gwasanaethau ar gael ac yn gystadleuol o ran cost, dylid eu caffael gan gontractwyr, isgontractwyr a chyflenwyr lleol er mwyn cefnogi cyflogaeth leol;*
- *Dylid manylu ynghylch y cyfleoedd o ran recriwtio a hyfforddi sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn ystod y cyfnod adeiladu;*
- *Dylid cefnogi diddordeb mewn datblygu sgiliau o fewn yr ardal leol.*

Mae'r Cyngor yn gofyn am gael cyflwyno'r cynlluniau hyn i'r Cyngor a'u cymeradwyo ganddo o leiaf 4 mis cyn y cyfnod adeiladu. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o amser i'r gweithgareddau a gynhwysir yn y Cynllun gael eu rhoi ar waith a'u gweithredu, ac i'r cyfleoedd a'r buddion lleol gael eu diogelu ac y byddir yn manteisio i'r eithaf arnynt.

Mae'r Cyngor hefyd yn gofyn am i'r drafodaeth yng nghyswllt cyfleoedd a buddion lleol barhau gyda'r Cyngor a rhanddeiliaid allweddol wrth i'r broses gynllunio fynd rhagddi. Bydd hyn yn sicrhau y byddir yn manteisio i'r eithaf ar y buddion lleol.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod angen cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid allweddol yn y drafodaeth ynghylch hyrwyddo cyfleoedd lleol, ac mae'r rhain yn cynnwys (ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt) Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru, M-Sparc, darparwyr addysg lleol (Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor) ynghyd â Thîm Datblygu Economaidd y Cyngor a'r Gwasanaeth Addysg.

Bydd y Cyngor eisiau i'r cais ddangos dealltwriaeth o'r sgiliau lleol a'r gadwyn gyflenwi sydd ar gael i'r prosiect ynghyd ag ymrwymiad i sicrhau y bydd y prosiect yn defnyddio canran o'r hyn sydd ar gael yn lleol yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredol a datgomisiynu. Bydd y rolau yn ystod y cyfnod gweithredol, a fydd yn para am gyfnod o 60 mlynedd, yn cynnwys peirianeg sifil, rheoli tir, gweithrediadau a chynnal a chadw, y mae pob un ohonynt ar gael yn lleol.

Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y sgwrs ynghylch diogelu cyfleoedd economaidd-gymdeithasol yn parhau gyda'r Cyngor, yn enwedig fel y daw rhagor o fanylion ar gael yng nghyswllt gofynion y prosiect mewn perthynas â llafur a'r gadwyn gyflenwi. Bydd hyn yn sicrhau cydweddiad llawn â gweledigaeth Rhaglen Ynys Ynni'r Cyngor.

## 10.2 Twristiaeth

Twristiaeth yw'r sector economaidd mwyaf ar yr ynys, gyda phobl yn dod i Ynys Môn i brofi ei chymeriad unigryw a'i hymdeimlad arbennig iawn o le, ei lleoliad tawel, ei thraethau, ei morweddau a'i thirweddau dramatig. Ei hasedau gorau o ran twristiaeth yw ei hamgylchedd

naturiol a hanesyddol a'i thirwedd, sydd wedi cael cydnabyddiaeth a dynodiadau ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Cyrchfan (DMP) ar gyfer y cyfnod 2023 i 2028 sy'n cynllunio ar gyfer dyfodol twristiaeth a'r economi ymwelwyr ar yr ynys hyd at 2028. Mae'r Cynllun yn nodi cryfderau, heriau neu rwystrau i'w goresgyn ynghyd â'r cyfleoedd ar gyfer prosiectau sy'n flaenoriaeth ar gyfer dyfodol twristiaeth a'r economi ymwelwyr ar yr ynys. Gyda newidiadau cyflym yn yr economi ymwelwyr, mae'n hanfodol ein bod yn cydbwysio anghenion preswylwyr, cymunedau ac ymwelwyr. Ond rhaid hefyd bod yn ystyriol o nodweddion arbennig Ynys Môn a'r rheswm pam y mae pobl yn ymweld â'r ardal yn y lle cyntaf.

Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r asesiad roi ystyriaeth lawn i'r DMP.

Bydd y Cyngor eisiau i'r cais gynnal asesiad priodol o'r effeithiau posibl sy'n deillio o bob cyfnod o'r prosiect ar sector twristiaeth yr Ynys. Mae'r Cyngor yn nodi'r cadarnhad yn yr Adroddiad Cwmpasu bod atyniadau i ymwelwyr sy'n agos i'r datblygiad yn cynnwys Mynydd Parys, Clwb Golf Porth Llechog, Cronfa Ddŵr Llyn Alaw a Gwesty Treysgawen.

Mae'r Cyngor yn croesawu'r cadarnhad y bydd yr asesiad yn cynnwys asesu'r newid yn y galw am lety dros dro i weithwyr, gan gynnwys llety gosod tymor byr.

Mae angen hyn er mwyn cadarnhau p'un a oes gan y prosiect y potensial i effeithio ar y sector twristiaeth ac i gadarnhau p'un a oes angen canfod mesurau lliniaru priodol i leihau effeithiau. Mae'r Cyngor yn nodi'r cadarnhad y gallai'r cynnig gael effaith fanteisiol ar y sector twristiaeth trwy sicrhau gwelliannau i Hawliau Tramwy Cyhoeddus a llwybrau twristiaid. Byddai'r Cyngor yn croesawu rhagor o fanylion mewn perthynas â'r gwelliannau posibl hyn, gan gynnwys cadarnhad o ran y modd y byddir yn eu sicrhau.

### **10.3 Yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

Mae Polisi PS 5: Datblygu Cynaliadwy o'r CDLI ar y Cyd yn cadarnhau ym maen prawf 4 y dylai bob cynnig 'Warchod, cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Strategol PS 1'.

Mae Polisi Strategol PS 1 - Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig o'r un cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer ystyried sut y mae'r datblygiad yn cyflawni hyn. Mae'r Polisi'n cadarnhau bod angen Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Iaith Gymraeg lle mae datblygiad yn dod o fewn y categorïau penodol. Mae hyn yn sicrhau bod y datblygiad, lle bo angen, yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg.

Cynhwysir methodoleg ar gyfer paratoi Asesiad/Datganiad o fewn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy<sup>7</sup>.

## **11. Ymrwymiad Lleol a Buddion Cymunedol**

### **11.1 Ymagwedd y Cyngor**

Mae Polisi 17 Cymru'r Dyfodol (Chwefror 2021) yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio'r buddion net a ddaw yn sgil datblygiad arfaethedig yn nhermau gwelliannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol o fewn cymunedau lleol.

<sup>7</sup> [SPG-Maintaining-and-Creating-Distinctive-and-Sustainable-Communities.pdf \(anglesey.gov.uk\)](#)

Mae paragraff 5.9.24 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi prosiectau a ddatblygir gan sefydliadau a leolir yn gyfan gwbl yng Nghymru, gan gynnwys grwpiau cymunedol, neu sy'n darparu budd cymesur i'r gymuned sy'n lletya datblygiad neu ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd.

Yn Chwefror 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi ar berchnogaeth leol o ddatblygiadau ynni. Roedd hwn yn nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru i bob prosiect ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru gynnwys o leiaf un elfen o berchnogaeth, i gadw cyfoeth o fewn cymunedau ac i ddarparu budd gwirioneddol iddynt. Mae cynlluniau cynhyrchu a berchnogir yn lleol yn darparu cyfle cryf i gadw gwerth economaidd, sy'n cyfrannu at ffyniant.

Mae paragraff 5.9.26 yn cadarnhau bod 'profiad wedi dangos bod cyfleoedd sylweddol i gyflawni mantais leol drwy ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Gellir cyfiawnhau rhai manteision fel lliniaru effeithiau datblygu drwy'r broses gynllunio. Hefyd, gall datblygwyr gynnig manteision nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses gynllunio. Lle y bo'n ymarferol, dylai awdurdodau lleol hwyluso ac annog cynigion o'r fath'.

Gall Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ddarparu cefnogaeth a chynngor ynghylch ymrwymiad lleol o ran datblygu ynni adnewyddadwy a manteisio arno.

Er mwyn i Ynys Môn a'i chymunedau elwa'n llawn ar yr effeithiau cadarnhaol a ragwelir yn sgil datblygiad mawr, mae'r Cyngor Sir wedi paratoi Strategaeth Cyfraniadau Budd Cymunedol gwirfoddol<sup>8</sup>.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi ymrwymo i sicrhau y bydd pob cymuned yn cael budd uniongyrchol o ddefnyddio eu hadnoddau a'u hamgylchedd lleol gan bob prosiect mawr ar Ynys Môn. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd pob prosiect mawr yn cyflenwi "etifeddiaeth" gadarnhaol ar gyfer Ynys Môn, gyda'u datblygu, eu gweithredu a'u hadeiladu yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at lesiant, ansawdd bywyd a chynaliadwyedd yr ynys a'i chymunedau.

Mae cyfraniadau budd cymunedol gwirfoddol yn darparu cyfle go iawn i ddatblygwyr prosiectau mawr ddarparu manteision ystyrllon (bo'r rheiny'n gyfraniadau ariannol a/neu mewn ffyrdd eraill) mewn cydnabyddiaeth o'r baich, yr aflonyddwch a'r anhwylystod o gael eu gorfodi ar y cymunedau sy'n lletya eu datblygiadau. Fel y cadarnhawyd yn y Strategaeth, bydd y Cyngor yn rhagweithiol, yn gyson ac yn dryloyw o ran ei ymagwedd tuag at weithio gyda phartneriaid yn y sector preifat a chyhoeddus, ynghyd â chymunedau'r ynys, i ddiogelu buddion ystyrllon sy'n mynd i'r afael ag anghenion Ynys Môn.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes ganddo unrhyw bwerau i orfodi datblygwyr i ddarparu cyfraniadau budd cymunedol gwirfoddol, a bod rhaid i ddatblygwyr ystyried eu bod yn fforddiadwy yn nhermau'r costau cyffredinol ac elw eu prosiectau yn ystod eu hoes. Fodd bynnag, mae'r disgwyliad clir a chryf yn parhau, o du'r Cyngor a'r gymuned leol, i'r fferm solar arfaethedig ddarparu buddion cymunedol gwirfoddol hirdymor i'r gymuned sy'n ei lletya, yn unol â'r egwyddor agosrwydd ar gyfer oes y prosiect.

Mae defnyddio'r egwyddor agosrwydd yn sicrhau y caiff y buddion eu canolbwyntio ar y cymunedau hynny sy'n lletya'r datblygiad ac sy'n teimlo effaith a baich y datblygiad trwy gydol ei oes (o ran ei adeiladu, ei weithredu a'i ddatgomisiynu).

<sup>8</sup> [Strategaeth Cyfraniadau Budd Cymunedol \(llyw.cymru\)](#)

## 11.2 Adroddiad Buddion Cydweithredol

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod Adroddiad Buddion Cydweithredol yn ddull ymarferol o wella tryloywder trwy gydol y broses ddatblygu a'i fod yn cynyddu cyfranogiad yr holl randdeiliaid. Mae'r Cyngor yn argymhell paratoi adroddiad i gefnogi'r cais cynllunio.

Dylai'r Adroddiad fanylu ynghylch y daith ymgysylltu â chynnwys cofnod o'r deialog ynghylch perchnogaeth leol a rhanberchnogaeth. Mae canllawiau drafft Llywodraeth Cymru ar Berchnogaeth Leol yn nodi y dylid cyflwyno'r Adroddiad Buddion Cydweithredol fel tystiolaeth o arferion da a chefnogaeth leol, ochr yn ochr â'r prif ddogfennau cynllunio. Mae hyn yn unol â gofyniad Polisi Cynllunio Cymru (PCC) i geisiadau ddangos buddion llawn unrhyw ddatblygiad.

Mae'r Adroddiad yn ddull defnyddiol i ddangos y buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y gallai'r datblygiad arfaethedig eu cyflenwi. Mae hyn felly'n cysuro'r penderfynydd, ymgynghoreion a'r gymuned leol bod y buddion cydweithredol arfaethedig a nodwyd yn realistig, a bod modd eu diogelu a'u cyflawni, ac y dylid eu cynnwys fel rhan o gydbwysu'r ystyriaethau yng nghyswllt cynllunio. Mae hefyd yn darparu trosolwg o'r ymgysylltu sydd wedi digwydd (a'i ganlyniadau) gyda chymunedau lleol i geisio canfod cyfleoedd ar gyfer cyflawni buddion lleol.

Byddai'r Cyngor yn croesawu'r cyfle i gael trafodaeth bellach ynglŷn â'r cynnig o ran buddion cymunedol gyda'r ymgeisydd. Mae'r Cyngor yn nodi'r cadarnhad bod y datblygiad yn cynnwys datblygiad solar cymunedol 5MW.

Ar gyfer datblygiadau ynni carbon isel eraill ar yr ynys, sefydlwyd cronfa budd cymunedol etifeddol y telir i mewn iddi'n flynyddol drwy gydol y cyfnod gweithredol. Mae'r Cyngor yn ystyried bod hyn yn fodd effeithiol i ddarparu math ystyrion a manteisiol o fuddion a all gael effaith gadarnhaol ar lesiant, ansawdd bywyd a chynaliadwyedd y gymuned letyol.

Fel y cadarnhawyd uchod, o ran ei ymagwedd at fuddion, mae'r Cyngor yn gofyn am ddefnyddio'r egwyddor agosrwydd i sicrhau mai'r cymunedau hynny a effeithir gan bob cyfnod o'r datblygiad a fydd yn derbyn manteision ystyrion gan y datblygwr (bo'r rheiny'n rhai ariannol a/neu ar ffurf cyfraniadau o fath arall), i gydnabod y baich, yr aflonyddwch a'r anghyfleustra a orfodir ar y cymunedau o ganlyniad i letya eu datblygiad. Mae'r Cyngor felly'n disgwyl y bydd y budd cymunedol ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn darparu mantais ystyrion i'r gymuned letyol leol.

Mae'r Cyngor yn argymhell yn gryf y dylai'r ymgeisydd ymgynghori â'r Cynghorau Cymuned perthnasol yng nghyswllt yr Adroddiad Buddion Cydweithredol a'r buddion a nodir oddi mewn iddo ar y cyfle cyntaf.

## 12. Datgomisiynu

Mae'r Cyngor yn nodi y rhagwelir y bydd y gwaith datgomisiynu yn cymryd tua 6 i 12 mis ac y byddai'r Safle'n cael ei adfer yn unol â Chynllun Rheoli Amgylcheddol ar gyfer Datgomisiynu (DEMP) y byddai angen ei gymeradwyo gan y Cyngor o dan ofyniad DCO.

Mae'r Cyngor yn cytuno gyda'r ymgeisydd ei bod yn well cytuno ar y manylion yng nghyswllt datgomisiynu o dan amod.

Mae CSYM yn gofyn am gadarnhad y bydd cyllid priodol ar gael i sicrhau y gellir datgomisiynu'r datblygiad ar ddiwedd y cyfnod gweithredu o 60 mlynedd, ac y caiff hynny ei gyflawni'n unol â'r cynllun a gytunwyd.

Yn y cyswllt hwn, mae'r Cyngor yn ceisio cadarnhad y bydd bond addas ar waith i sicrhau y bydd digon o arian ar gael i ddatgomisiynu'r prosiect yn unol â'r cynllun datgomisiynu.

Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i sicrhau, os bydd y datblygwr yn rhoi'r gorau i fasnachu, y gellir clirio'r datblygiad o'r safle a chyflawni gwaith adfer priodol.

Mae'r ymagwedd hon yn cyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol sy'n cydnabod efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol eisiau i warant ariannol gael ei roi ar waith, yn ogystal ag amod.

Byddai'r Cyngor yn ddiolchgar am gyfle i ymgysylltu ymhellach yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â datgomisiynu.

### 13. Asesu Effeithiau Cronnus

Fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol, bydd angen asesiad priodol a chynhwysfawr o'r Effeithiau Cronnus y bydd angen iddo ystyried effeithiau cronnus y prosiect arfaethedig yng nghyswllt prosiectau gweithredol, rhai sydd wedi'u caniatáu neu y gellir eu rhagweld yn rhesymol yn y dyfodol.

Byddai'r Cyngor yn croesawu'r cyfle i gytuno ar y prosiectau hynny y dylid eu cynnwys mewn asesiad o'r fath gyda'r ymgeisydd.

Mae nifer o gynigion eraill ar gyfer datblygiadau mawr wedi'u cynnig neu wedi cael caniatâd yn ddiweddar ar yr ynys, sy'n cynnwys prosiectau fferm solar a BESS sy'n debyg o ran graddfa, natur a lleoliad i brosiect arfaethedig Maen Hir.

Fel modd o amlygu nifer fechan o brosiectau perthnasol cronnus (posibl) a allai arwain at gyfuniad o effeithiau, dylai'r ymgeisydd gyfeirio at brosiect Fferm Solar Alaw Môn<sup>9</sup> a chyfleuster BESS Carrog Ganol<sup>10</sup>.

Lleolir prosiect arfaethedig Alaw Môn yn agos iawn i'r datblygiad ac mae'r Cyngor yn bryderus ynghylch effeithiau cronnus posibl y ddau brosiect. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyswllt yr effeithiau a ganlyn (ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt);

- Effeithiau ar y Dirwedd a rhai Gweledol
- Traffig a Thrafnidiaeth
- Yr Amgylchedd
- Y Gymraeg a'i diwylliant, gan gynnwys Ymdeimlad o Le, twristiaeth ac amaethyddiaeth
- Gwarchod y Cyhoedd gan gynnwys sŵn, dirgryndod, ansawdd yr aer ac effeithiau goleuadau

Ar y cyfle cyntaf, byddai'r Cyngor yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar restr o brosiectau y mae angen eu cynnwys yn yr Asesiad o'r Effeithiau Cronnus ar gyfer y prosiect.

### 14. Ymgysylltu â'r Gymuned

Pe bai'r datblygiad arfaethedig yn cael ei ganiatáu, mae'r Cyngor yn gofyn am gadarnhad y bydd ymgysylltu effeithiol ac ystyrlon yn digwydd trwy gydol y cyfnod adeiladu'n arbennig.

